# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD IAU, 21 MEDI 2023 am 2:00 y. p. | | THURSDAY 21 SEPTEMBER 2023 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Liz Wood

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1** **DATGAN DIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Achwilio a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf, 2023.

**3** **ADRODDIAD BLYNYDDOL PRYDERON, CWYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2022/23** (Tudalennau 11 - 36)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

**4** **LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2022/23** (Tudalennau 37 - 50)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**5** **ARCHWILIO ALLANOL: ADOLYGIAD O REOLI DATBLYGU A GORFODAETH CYNLLUNIO - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 51 - 132)

- Cyflwyno adroddiad cenedlaethol Archwilio Cymru (er gwybodaeth)
- Cyflwyno adroddiad lleol Archwilio Cymru mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn
- Cyflwyno ymateb y sefydliad

**6** **ARCHWILIO ALLANOL: DIWEDDARIAD CHWARTEROL AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU** (Tudalennau 133 - 152)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

**7** **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2022/23** (Tudalennau 153 - 166)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 167 - 174)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**9** **MATERION A RISGIAU SYDD ANGEN SYLW** (Tudalennau 175 - 184)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**10** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH 2023/24** (Tudalennau 185 - 190)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 27 Gorffennaf, 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Keith Roberts, Margaret M. Roberts, Ieuan Williams<br><br>Aelodau Lleyg: Sharon Warnes, William Parry, Michael Wilson |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Prif Archwilydd (NW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirpwry Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid), Mr Derwyn Owen (Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Archwilio – Archwilio Cymru), Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifyddu) |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2023 a'u cadarnhau fel rhai cywir.

### 3. ARCHWILIOL ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN – CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2023

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru a oedd yn cynnwys y cynllun archwilio manwl ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer blwyddyn archwilio 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd y Cynllun yn amlinellu'r gwaith y bwriedir ei wneud mewn perthynas â'r archwiliad ariannol, y rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer y flwyddyn ynghyd â rhaglen gwaith ardystio grantiau a ffioedd ac amserlen adrodd archwilio. Cyflwynwyd y ddogfen fel fersiwn ddrafft tra bod trafodaethau pellach â'r corff a archwilir ac a arolygir yn yr arfaeth.

Cyflwynodd Mr Derwyn Owen, Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Archwilio Cymru yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'r cynnwys. Ers cyflwyno'r cynllun archwilio amlinellol i'r Pwyllgor ym mis Mehefin, 2023 mae'r gwaith asesu risg manylach mewn perthynas â'r cyfrifon wedi'i wneud. Gan gofio nad yw'r archwilwyr yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond yn hytrach yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd, mae lefel y perthnasedd ar gyfer archwiliad 2022/23 o'r datganiadau ariannol wedi'i phennu ar £2.845m. Mae'r gwaith cynllunio archwilio ac asesu risg hyd yma wedi nodi'r risg o wrthwneud gan y rheolwyr fel y risg mwyaf sylweddol i'r

datganiadau ariannol yn unol ag Arddangosyn 1 o'r cynllun. Mae'r risg hon yn bresennol ym mhob endid ac nid yw'n unigryw i Ynys Môn. Ni nodwyd unrhyw risgiau sylweddol sy'n benodol i gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod y cam cynllunio. Mae Arddangosyn 2 yn amlinellu'r meysydd eraill y mae'r gwaith archwilio yn canolbwyntio arnynt ynghyd ag ymateb arfaethedig yr archwilwyr, mae'r rhain yn ymwneud â phrisio tir ac adeiladau, prisiad rhwymedigaeth net cronfa bensiwn, gwarged cynllun pensiwn a materion a adroddwyd yn adroddiad archwilio cyfrifon 2021/22 a sut y deliwyd â'r rhain rhag iddynt ddigwydd eto. Nid yw'r tîm archwilio wedi gorffen pob maes o'r asesiad risg eto ac os bydd unrhyw risgiau ariannol sylweddol pellach yn codi ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, bydd y Swyddog Adran 151 yn cael ei ddiweddaru yn ogystal â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy ei Gadeirydd. Bydd y Cynllun Archwilio manwl yn cael ei ailgyhoeddi os bydd angen. Mae rhaglen y gwaith archwilio perfformiad arfaethedig yn parhau heb unrhyw newid i'r hyn a nodir yn y Cynllun Archwilio amlinellol ym mis Mehefin. Disgwylir i Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol 2022/23 gael ei gwblhau a'i gyflwyno erbyn mis Tachwedd 2023. Nodir y ffi archwilio arfaethedig yn Arddangosyn 5 y cynllun. Mae cyfraddau ffioedd ar gyfer 2023/24 wedi cynyddu 4.8% ar gyfer pwysau chwyddiant ac mae'r ffi archwilio ariannol yn adlewyrchu cynnydd pellach o 10% ar gyfer effaith safon archwilio ddiwygiedig Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 ar y dull archwilio ariannol. Mae hyn yn unol â safonau'r diwydiant yn genedlaethol yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Bydd unrhyw ffioedd nad ydynt yn angenrheidiol/heb eu defnyddio yn cael eu had-dalu.

Wrth ystyried cynnwys y Cynllun, pwysleisiodd y Pwyllgor y canlynol –

- Anghysondeb rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Cynllun gyda'r atodlen ffioedd archwilio heb ei chynnwys yn y fersiwn Gymraeg.
- Y costau archwilio cynyddol, yn benodol natur y gofynion ychwanegol a osodir gan ISA 315 sy'n gwneud cynnydd o 10.2% yn angenrheidiol.

  Cyfeiriodd Mr Derwyn Owen at Atodiad 1 o'r Cynllun a oedd yn nodi'r newidiadau allweddol i ISA 315 a'r gwaith ychwanegol i'r archwiliad blynyddol yr oedd y rhain yn ei olygu. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau adnabod ac asesu risg manylach a mwy helaeth, yr angen i'r archwilwyr gael gwell dealltwriaeth o amgylchedd TG y Cyngor, canolbwyntio ar arfer arfer amheuaeth broffesiynol, cyflwyno asesiadau risg sy'n gallu bod yn eang yn dibynnu ar natur a chymhlethdod y corff a archwilir a gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth gynnal archwiliad.

- Natur ac achosion o wrthwneud rheolaethau gan y rheolwyr a ph'un ai a oes mesurau y gellir eu cymryd i atal hyn rhag digwydd yn hytrach na'i ganfod ar ôl iddo ddigwydd, fel y mae'n ymddangos yw'r dull fel yr amlinellir yn ymateb arfaethedig yr archwilwyr.

  Cadarnhaodd Mr Derwyn Owen fod gwrthwneud rheolaethau gan y rheolwyr wedi'i nodi fel risg yn y cynllun archwilio yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'i bod yn risg sy'n gyffredin i bob corff. Er na fu unrhyw enghreifftiau o hyn yn digwydd o fewn y Cyngor, bu nifer o ddigwyddiadau o'r fath ar draws cyrff y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn y DU. Mae'n cael ei ystyried yn risg sylweddol ac felly mae'n rhaid i'r archwilwyr gynnal gweithdrefnau i brofi pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth a'r datganiadau ariannol a gyflwynir. O ran atal, mae'r archwilydd allanol yn asesu effeithiolrwydd rheolaethau'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol tra mai rôl yr archwiliad mewnol yw cynnal yr asesiad hwnnw'n barhaus ar hyd y flwyddyn yn unol â'i raglen waith i sicrhau bod y rheolaethau sydd ar waith yn gweithredu fel y dylent.

- Goblygiadau ISA 315 i'r Cyngor o ran pwysau gwaith ychwanegol ar staff y Gwasanaeth Cyllid ac a yw'r rheini wedi cael eu cydnabod drwy'r safonau neu fel arall.

Dywedodd Mr Derwyn Owen y gallai gofynion ISA 315 arwain at fwy o ymholiadau ar gyfer y Cyngor.  Bydd Archwilio Cymru yn gweithio gyda thîm y Gwasanaeth Cyllid i hwyluso'r archwiliad a bydd yn trafod unrhyw gynnydd mewn llwyth gwaith gyda'r Swyddog Adran 151.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y llwyth gwaith yn dibynnu ar faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn ogystal ag ansawdd y datganiadau ariannol a'r dogfennau ategol a gyflwynwyd i'r archwilwyr. Mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi ymdrechu i weithio gydag Archwilio Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf i wella ansawdd y broses a sicrhau bod ei bapurau gwaith o safon uchel a bod y dystiolaeth a ddarperir i'r archwilwyr yn ddigonol i leihau nifer yr ymholiadau a/neu achosion o wallau ac o ganlyniad, llwyth gwaith staff.

- Y tebygolrwydd y bydd yr archwilwyr, wrth adnabod ac asesu'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol fel sy'n ofynnol yn ôl ISA 315, yn datgelu nifer o gamddatganiadau amherthnasol y bydd yn rhaid eu cofnodi ac sy'n ychwanegu at y llwyth gwaith ac o bosibl y gost, ond na fyddant o bosibl yn arwyddocaol yng nghyd-destun y cyfrifon cyffredinol. Gofynnwyd a oes modd cymryd unrhyw gamau rhag i hyn ddigwydd.

  Dywedodd Mr Derwyn Owen fod y strategaeth profi archwilio yn seiliedig ar y disgwyliad rhesymol o nodi camddatganiadau perthnasol. Er nad yw natur a'r math o gamddatganiad a ddatgelir wrth i'r archwiliad fynd rhagddo yn rhywbeth y mae gan yr archwilwyr unrhyw reolaeth drosto, gall benderfynu ar lefel yr ymateb fel yn achos gwallau perthnasol, yr effaith bosibl y mae'n ei chael ar y cyfrifon neu gyda gwall dibwys p'un ai y gellir ei anwybyddu ai peidio. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn faterion y gellir eu rhagweld ar ddechrau'r archwiliad.

**Penderfynwyd nodi Cynllun Archwilio Manwl 2023.**

**4. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2022/23**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad. Er mwyn dangos llywodraethu da mae'n rhaid i'r Cyngor ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y Fframwaith 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' CIPFA / Solace. Paratowyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yn unol â'r egwyddorion hynny. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2022/23 wedi'i symleiddio o ran ffurf a chynnwys yn dilyn cyflwyno'r Cod Llywodraethu Lleol i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr, 2022. Mae'r Datganiad yn amlinellu cwmpas cyfrifoldeb a disgwyliadau'r Cyngor ynghylch sut mae'n gweithredu ei fusnes, y Fframwaith Llywodraethu a'r elfennau ynddo, sut y caiff effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu ei werthuso ac asesu perfformiad yn erbyn yr egwyddorion craidd a sicrhawyd, ynghyd â diweddariad o ran cynnydd ar faterion a nodwyd yn Natganiad y llynedd. Er na nodwyd unrhyw faterion llywodraethu sylweddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2023, tynnodd y broses asesu sylw at nifer o faterion llywodraethu a fydd yn cael sylw yn 2023/24 ac mae'r rhain wedi eu nodi yn y Datganiad. Mae'r Datganiad yn ceisio rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu ei faterion gan gynnwys ei allu i nodi cyfleoedd i wella'r drefn lywodraethu ymhellach a rheoli risg ac adnoddau. Mae'r Datganiad wedi bod trwy broses fewnol ar ôl cael ei ystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth a'r Pennaeth Archwilio a Risg.

Wrth ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- Ystyr "sylweddol" fel y mae'n berthnasol yng nghyd-destun dim materion llywodraethu sylweddol wedi'u nodi am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai mater sylweddol mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu yn fater sy'n effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol ac i gyflawni'r amcanion strategol fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28. Nid oes unrhyw fater o'r fath wedi codi fel y gwelir yn yr adroddiadau diweddaru rheolaidd a'r adroddiadau adolygu rheoleiddiol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, ni chanfu adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n nodi barn archwilio ffurfiol y prif weithredwr archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2023 unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol.

- Y ffyrdd y gellid gwella'r cerdyn sgorio corfforaethol fel adnodd rheoli perfformiad effeithiol ymhellach a ph'un ai y dylid ehangu'r broses ar gyfer adolygu'r dangosyddion i'w cynnwys ar y cerdyn sgorio i gynnwys aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn cael persbectif ychwanegol.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn y broses o gael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor sydd newydd ei gymeradwyo ar gyfer 2023-28. Mae fframwaith llywodraethu'r Cyngor y mae'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn elfen ohono yn cael ei adolygu a'i fireinio'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol ac er y byddai'n anymarferol cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth adolygu'r cerdyn sgorio ar gyfer cyfarfod yng nghanol 2023/24, bydd yr awgrym yn cael ei ystyried wrth adolygu'r cerdyn sgorio ar gyfer 2024/25.

- P'un ai a fyddai monitro gweithgarwch prosiect cyfalaf y Cyngor yn elwa o sefydlu swyddfa rheoli rhaglenni pwrpasol i oruchwylio a chraffu ar gyflawni prosiectau cyfalaf y Cyngor.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r awgrym ar gyfer swyddfa rheoli rhaglenni ar gyfer prosiectau cyfalaf yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth ei ystyried.

**Ar ôl adolygu'r ddogfen, penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022/23 a fydd yn ffurfio rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2022/23.**

## 5. DATGANIAD O'R CYFRIFON DRAFFT 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Datganiad drafft o'r Cyfrifon ar gyfer 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Nodwyd nad yw'r ffigurau yn yr adroddiad wedi'u harchwilio ac felly efallai y byddant yn newid.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151. Llofnodwyd y cyfrifon drafft gan Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor h.y. y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar 30 Mehefin, 2023 a byddai archwiliad o'r cyfrifon yn dechrau ym mis Awst 2023. Gwnaed cywiriad i Dabl 1 yn yr adroddiad gan na ddylai'r ffigwr o £3,258m, sy'n gyfraniad o gronfeydd wrth gefn a balansau y gellir eu defnyddio, ymddangos mewn cromfachau. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf i symleiddio'r cyfrifon trwy gael gwared ar nodiadau a ystyrir yn amherthnasol, mae'r Datganiad yn dal i fod yn ddogfen dechnegol a chymhleth. Mae'r cyfrifon gan gynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael eu cyflwyno yn unol â gofynion cyfrifo statudol yn hytrach nag ar sail sut mae'r Cyngor yn cael ei ariannu, ac o'r herwydd maent yn cynnwys nifer o eitemau na chodir amdanynt yn erbyn y Dreth Gyngor

ac felly, maent yn cael eu canslo allan cyn penderfynu ar sefyllfa derfynol y Cyngor mewn perthynas â balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn.

Rhoddwyd sylw i’r elfennau canlynol o'r Datganiad Cyfrifon –

- Mae'r Adroddiad Naratif sy'n rhoi trosolwg o berfformiad ariannol y Cyngor am y flwyddyn dan sylw yn ymwneud â gwariant refeniw a chyfalaf ac yn cyfeirio at weledigaeth, blaenoriaethau a strategaethau'r Cyngor a'r heriau y mae wedi'u hwynebu. Mae hefyd yn rhestru'r datganiadau ariannol craidd sydd i ddilyn. Mae'r adroddiad naratif yn rhoi sylwebaeth ar sut mae'r Cyngor wedi defnyddio ei adnoddau yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r amcanion a nodwyd ganddo.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) drafft yn dangos cost darparu gwasanaethau yn y flwyddyn yn unol â gofynion cyfrifo statudol ac mae'n cynnwys Cronfa’r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'n cynnwys addasiadau cyfrifo fel dibrisiant ac addasiadau pensiynau nad ydynt yn cael eu hariannu gan drethdalwyr y Cyngor felly nid yw effaith y rhain wedi'u cynnwys yn y nodyn a elwir yn Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Gyllido (Nodyn 6 yn y Datganiad Cyfrifon). Mae'r CIES yn dangos mai cost net gwasanaethau oedd £179.355m gyda diffyg o £15.993m ar ddarparu gwasanaethau. Gwneir addasiadau yn unol â Thabl 1 yr adroddiad rhagarweiniol i benderfynu ar y symudiadau i gronfeydd wrth gefn a balansau (Nodyn 6). Yna caiff y CIES a'r addasiadau yn Nodyn 6 eu dwyn ynghyd yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn i ddangos beth oedd balansau'r Cyngor ar 31 Mawrth, 2023 sy'n adlewyrchiad cywir o sefyllfa ariannol y Cyngor.
- Mae'r Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn dangos y newidiadau yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor. Roedd gan y Cyngor gyfanswm o £54.742m o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio wedi'u dosbarthu rhwng y Gronfa Gyffredinol, Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd, y Cyfrif Refeniw Tai, cronfeydd wrth gefn ysgolion, Cronfeydd wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf a Chronfa Grantiau wrth gefn Heb eu Defnyddio ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn ostyngiad o'r £58m o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r rhain yn adnoddau sydd gan y Cyngor ar gael i'w gwario. Roedd balans drafft y Gronfa Gyffredinol y Cyngor yn £13.967m sy'n cyfateb i 8.8% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23 ac mae £6.067m yn uwch na'r trothwy isaf ar gyfer Balans y Gronfa Gyffredinol a osodwyd gan y Pwyllgor Gwaith, sef 5% o'r gyllideb refeniw net neu £7.9m.
- Nod y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid yw dangos gwir effaith perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau'r Cyngor. Er ei bod yn anodd cysoni'r CIES â'r wybodaeth a gyflwynir yn y tablau yn yr adroddiad mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn rhannol. Mae'r CIES yn cynnwys llawer o addasiadau cyfrifo nad ydynt yn wir gostau sy'n effeithio ar falansau y gall y Cyngor eu defnyddio. Er mwyn sicrhau nad yw'r costau cyfrifo hyn yn effeithio ar drethdalwyr y Cyngor a chronfeydd y Cyngor, cânt eu canslo allan yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid.
- Mae'r Fantolen yn dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2023. Mae gwerth asedau net y Cyngor wedi cynyddu o o £132.769m o £272.33m yn 2021/22 i £405.002m ar 31 Mawrth 2023. Cynyddodd gwerth asedau hirdymor y Cyngor £20.918m oherwydd gwariant cyfalaf ar eiddo, peiriannau ac offer y Cyngor ac ailbrisio asedau presennol. Mae'r newid mwyaf arwyddocaol yn ymwneud ag ailbennu gwerth y Gronfa Bensiwn at ddibenion cyfrifo. Ar gyfer 2022/23 dangosir bod £19.815m o asedau net, sy'n welliant o £141.014m o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Y rheswm am hyn yw effaith y cynnydd yn y cyfraddau llog a bondiau y mae’r ffactor disgownt yn seiliedig arnynt, ac y mae’n rhaid i’r Actiwari eu defnyddio wrth ddisgowntio rhwymedigaethau’r gronfa bensiwn yn y dyfodol gyda gwerth presennol asedau’r gronfa bensiwn. Fodd bynnag, gan nad yw safonau cyfrifo’n caniatáu adrodd hyn fel ased ar y Fantolen oherwydd na all y Cyngor wireddu gwerth yr ased ar hyn o bryd, fe’i dangosir fel £0 ar y

fantolen. Esbonnir canlyniadau'r prisiad cyfrifo yn y nodyn Pensiynau Llywodraeth Leol 34 i'r cyfrifon.

- Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol ac mae'n dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod drwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido.
- Mae'r nodiadau i'r cyfrifon yn darparu rhagor o wybodaeth a chyd-destun i'r ffigurau sydd yn y datganiadau ariannol craidd.

Yn y drafodaeth ddilynol ar gynnwys y Datganiad Cyfrifon, cododd y Pwyllgor y materion canlynol –

- P'un a yw'r cyfrifon ar gyfer 2022/23 yn dangos unrhyw newidiadau sylweddol neu dueddiadau niweidiol o'i gymharu â chyfrifon blynyddoedd blaenorol.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r pwynt ffocws yw balansau'r Cyngor sydd wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i dalu am gostau'r ymateb i bandemig Covid-19 ond sydd bellach yn dechrau gostwng. Mae gan y Cyngor ddefnydd wedi'i gynllunio ar gyfer elfennau o'i gronfeydd wrth gefn, yn enwedig y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r cronfeydd wrth gefn Cyfrif Refeniw Tai oherwydd bod y rheini wedi'u neilltuo at ddibenion penodol. Mae disgwyl i falansau ysgolion leihau hefyd wrth i ysgolion ddefnyddio'r cyllid dal i fyny Covid yn llawn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu disgyblion i wneud iawn am yr addysg a gollwyd yn ystod y pandemig. Mae'r tanwariant o £1.212m ar gyllideb refeniw 2022/23 wedi cyfrannu at Falansau Cyffredinol y Cyngor gan ddod â'r cyfanswm i £13.967m er bod £3.8m o'r swm hwn wedi'i ymrwymo i ariannu cyllideb 2023/24 ac mae'n debygol y bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio eto i gydbwyso cyllideb 2024/25. Bydd yn rhaid i unrhyw orwariant ar gyllideb 2023/24 gael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn hefyd.  Er nad oes unrhyw newidiadau/symudiadau yn y cyfrifon sy'n destun pryder ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y Cyngor yn wynebu heriau yn y dyfodol yn enwedig wrth osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25, a rhagwelir tuedd ar i lawr ym malansau'r Cyngor o ganlyniad i hyn. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu wrth benderfynu ar gyllideb 2024/25 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

- Diffyg cyfeiriad penodol yn y cyfrifon at ddarpariaeth ar gyfer prosiectau newid hinsawdd a lleihau carbon.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Strategaeth Gyfalaf newydd yn cael ei datblygu a fydd yn ystyried gofynion a blaenoriaethau cyfalaf y Cyngor a sut y caiff y rheini eu hariannu. Fodd bynnag, byddai mynd i'r afael â dyheadau a holl anghenion y Cyngor yn gofyn am swm sylweddol o gyllid sydd, o ran benthyca, yn afrealistig ac yn anfforddiadwy. Felly, mae'n rhaid blaenoriaethu a chydbwyso anghenion yn erbyn fforddiadwyedd fel nad yw'r Cyngor yn rhoi ei hun dan ormod o bwysau ariannol i'r un graddau â rhai cynghorau lle mae talu costau dyled yn rhoi pwysau ar adnoddau refeniw. Rhaid ystyried lefel y benthyca i gefnogi gwariant cyfalaf yn ofalus a rhaid i'r strategaeth gael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor gan gofio hefyd y gallai trigolion Ynys Môn orfod talu mwy yn flynyddol am fuddsoddi mewn asedau ac i geisio cyrraedd targedau sero net. Er bod cyflawni statws sero net ymhlith blaenoriaethau'r Cyngor, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer hynny hyd yma.

- Eglurhad o ffigurau'r dyledwyr, y berthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer drwg ddyledion sy'n werth cyfanswm o £8.149m a chasglu dyledion.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod dyledion y Cyngor yn cael eu hasesu ar sail gwerth ac oed y ddyled yn ogystal â'r tebygolrwydd y bydd y Cyngor yn llwyddo i’w hadennill. Po hynaf fo’r ddyled y lleiaf tebygol y bydd yn cael ei hadennill. Gwneir darpariaeth ar gyfer drwg ddyledion bob blwyddyn a chodir tâl yn erbyn y gyllideb refeniw yn unol â hynny i ariannu'r ddarpariaeth. Mae dyledion a awdurdodwyd i gael eu dileu oherwydd eu bod yn cael eu hasesu fel rhai na ellir eu hadennill yn cael eu tynnu oddi ar y system ac yna'n cael eu codi yn erbyn y ddarpariaeth ar gyfer drwg ddyledion. Mae'n anos casglu rhai mathau o ddyledion e.e. dyledion gofal cartref/preswyl pan fo tâl yn ddyledus gan unigolion bregus ac na ellir tynnu'r gwasanaeth yn ôl neu pan fo caledi yn ffactor. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn yr asesiad blynyddol. Yn achos y Dreth Gyngor, nid yw'r sylfaen dreth, pan bennir hi’n flynyddol, yn cael ei gosod ar 100%, er mwyn caniatáu ar gyfer dyledion na lwyddir eu casglu (mae cyfradd casglu'r Dreth Gyngor bresennol yn 99.3% yn ôl pob tebyg). Mae'r swm o £8.149m a welir yn y cyfrifon yn adlewyrchu swm sydd, yn ôl asesiad darbodus y Cyngor yn un y gallai fod yn rhaid ei ddileu (ar ôl ystyried y mathau o ddyledion heb eu talu ac ar ôl rhoi cynnig ar bob proses o geisio eu hadennill) nad yw, yng nghyd-destun cyfanswm yr incwm a gesglir gan y Cyngor yn flynyddol, yn swm eithriadol.

- Mae effaith cyfradd llog yn codi ar fenthyciadau'r Cyngor gan ystyried y ffaith, er y bydd y Cyngor yn derbyn elw uwch ar ei fuddsoddiad y bydd yn talu mwy i'r gwrthwyneb am fenthyca.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Cyngor yn benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) fel mater o drefn am gyfnod penodol yn amrywio o flwyddyn i hanner can mlynedd a bod y gyfradd llog yn amrywio yn ôl hyd y benthyciad gyda chyfraddau gwell ar gyfer telerau benthyg hirach. Tra bod cyfraddau llog yn isel, mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio ei falansau arian parod i ariannu gwariant cyfalaf gan fod yr elw o fuddsoddi’n wael. Gan fod cyfraddau llog wedi cynyddu, mae'r elw ar fuddsoddi bellach yn golygu eu bod yn uwch na chyfradd llog hirdymor PWLB ac felly’n codi'r cwestiwn a yw bellach yn amserol i'r Cyngor fod yn benthyca o ystyried bod ganddo'r gallu i wneud hynny ar ôl defnyddio benthyciadau mewnol yn y gorffennol yn hytrach yn hytrach na benthyciadau allanol ac oherwydd y byddai’n well i unrhyw arian dros ben gael ei fuddsoddi na'i ddefnyddio i ariannu gweithgarwch cyfalaf. Y risg wrth fenthyca yn y tymor hir ar hyn o bryd yw y gallai cyfraddau llog ostwng a gallai'r Cyngor gael ei hun mewn sefyllfa lle mae’n talu cyfradd uwch am gyfnod o amser pan allai fod wedi benthyca yn rhatach pe bai wedi aros. Wrth benderfynu a ddylid benthyca ai peidio, bydd y Cyngor yn ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys amseru fel rhan o'i strategaeth rheoli trysorlys. Mae benthyca rhwng awdurdodau hefyd yn opsiwn er ei fod ar raddfa lai ac yn amodol ar wiriadau diwydrwydd dyladwy.

- Y cynnydd ym mhrisiad asedau'r Cyngor a'r sail ar gyfer y cynnydd, yr hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol os nad oes modd gwireddu gwerth yr asedau a ph’un ai a oes gan asedau ran mewn benthyca.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad yw benthyciadau'r Cyngor wedi'u gwarantu yn erbyn unrhyw un o'i asedau gan fod y cyfleuster benthyca PWLB yn cael ei weithredu gan y Llywodraeth gyda chronfeydd y Llywodraeth. Mae prisio asedau'n bodloni gofynion cyfrifo. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn gwerthu asedau sy'n cael eu hystyried fel rhai nad oes eu hangen oherwydd nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd gweithredol mwyach, e.e. ysgolion sydd wedi cau fel rhan o raglen foderneiddio'r ysgolion a bod y derbyniadau cyfalaf wedi cael eu defnyddio i ariannu ysgolion newydd. Mae asedau'r Cyngor yn cynnwys ei stoc dai sydd, oherwydd bod yr eiddo dan denantiaeth, yn cael eu prisio ar sail gwerth defnydd presennol Tai Cymdeithasol yn hytrach na gwerth y farchnad. O ran ariannu gweithgarwch cyfalaf, mae'r Cyngor yn ceisio gwneud y mwyaf o arian grant yn y lle cyntaf gan gynnwys y Grant Cyfalaf Cyffredinol a benthyca â chymorth gan Lywodraeth Cymru (lle mae costau benthyca yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru) er mwyn lleihau'r angen i fenthyca yn allanol. Bydd y Cyngor yn ystyried benthyciadau heb gymorth os bydd y buddsoddiad yn dod ag incwm i

mewn, yn cynhyrchu arbedion e.e. mewn costau rhedeg neu’n cynyddu gwerth ased ond byddai'n rhaid iddo dalu am hynny o'i gyllideb refeniw ar ffurf taliadau llog a'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw sy'n dâl a godir yn erbyn y gyllideb refeniw bob blwyddyn i neilltuo swm i dalu'r benthyciad yn ôl. Mae'r rhain yn ffactorau wrth ystyried a ddylid benthyca ai peidio er mwyn sicrhau bod benthyciadau’n dal i fod yn fforddiadwy. Mae cynghorau sy'n cael trafferth talu eu dyledion wedi benthyg i fuddsoddi mewn eiddo masnachol i gael incwm sydd, oherwydd ffactorau gan gynnwys y pandemig, heb sicrhau’r refeniw a ddisgwylid.

- P'un ai a yw'r cynnydd yng nghost darparu gwasanaethau o £147.569m yn 2021/22 i £179.355m yn 2022/23 fel y dangosir yn y CIES yn gynnydd gwirioneddol ac yn gynnydd o flwyddyn i flwyddyn ac os felly, a yw'n achos pryder.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cynnydd yn rhannol yn cynrychioli cynnydd gwirioneddol yng nghost darparu gwasanaethau oherwydd chwyddiant a chodiadau cyflog fel y nodwyd gan gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2023/24 sydd ar sail £175m net yn gynnydd o tua £17m ar gyllideb y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r ffigwr ar gyfer cost gwasanaethau yn y CIES hefyd yn cynnwys eitemau fel dibrisiant a chostau gwasanaeth presennol pensiynau sydd wedi'u cynnwys at ddibenion cyfrifo yn hytrach nag fel adlewyrchiad o sut mae'r Cyngor yn cael ei ariannu. Gwneir cymhariaeth gywirach ar sail ariannol yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido lle mae'r gwariant net wedi cynyddu o £123.596m yn 2021/22 i £148.068m yn 2022/23 ond gan ystyried y ffaith bod y ffigwr hwn hefyd yn cynnwys y CRT sydd ar wahân ac nad yw'n cael ei ariannu gan y Dreth Gyngor. Mae argyfwng costau byw yn cael effaith ar y Cyngor ar ffurf chwyddiant a chostau cynyddol ac mae'n her wrth symud ymlaen.

- Mae prisiad y Gronfa Bensiwn sydd wedi newid o rwymedigaeth o £121.199m yn 2021/22 i ased o £19.815m yn 2022/23 oherwydd effaith cynnydd yn y cyfraddau llog a bondiau. Os bydd cyfraddau llog yn codi a bod yr effaith yn cael ei hystyried fel un tymor byr o bosibl, gofynnwyd a ddylid ailddatgan y cyfrifon ar sail y rhwymedigaeth ac a yw'n bosibl atal y camliwio yn y Fantolen sy’n gallu digwydd pan fo amrywiadau sylweddol ym mhrisiad y Gronfa Bensiwn.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod prisiad y Gronfa Bensiwn gan yr Actiwari at ddiben y cyfrifon yn un damcaniaethol a’i fod rhagweld beth fyddai rhwymedigaeth neu ased y Cyngor pe bai'r gronfa'n peidio â bodoli. Caiff ei wneud ar sail cyfrifeg ac nid yw'r canlyniadau'n effeithio ar gronfeydd gwirioneddol y Cyngor. Mae'r prisiad ariannol a gwblheir bob tair blynedd er mwyn cyfrifo'r cyfraniadau a lefel y cyllid sydd ei angen yn rhoi darlun cywirach o wir werth y Gronfa gan fod y broses hon yn ystyried yr asedau gwirioneddol y buddsoddir y gronfa ynddynt ar y dyddiad prisio ac yn asesu p’un ai yw'r enillion ar yr asedau hynny'n debygol o dalu'r holl daliadau yn y dyfodol i aelodau yn seiliedig ar yr holl fuddion a enillir hyd at y dyddiad prisio. Ar gyfer y prisiad hwn defnyddir set wahanol o dybiaethau. Os yw gwerth yr asedau a'r enillion yn y dyfodol yn is na'r rhwymedigaeth a amcangyfrifwyd yn y dyfodol, yna bydd cyfraddau cyfraniadau'r Cyngor yn cynyddu i dalu am y gwahaniaeth dros gyfnod penodol o amser. Yn y prisiad cyllid diwethaf ariannwyd y Gronfa Bensiwn 110%.

- O ran cyfanswm y gwariant cyfalaf o £40.690m ar gyfer 2022/23, nodwyd er bod £26.595m wedi'i gyfalafu a'i ychwanegu at werth yr asedau ym Mantolen y Cyngor, codwyd y gweddill ar y CIES ac ni chynyddodd £11.881m werth yr asedau cyfalaf. Gofynnwyd a fyddai wedi bod modd rhagweld hyn.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod rheolau cyfrifo’n golygu bod y gwariant cyfalaf y mae'r swm yn cyfeirio ato yn cael ei drin fel refeniw yn y cyfrifon oherwydd nad yw wedi cael ei wario ar  neu wedi cynyddu gwerth ased sy'n eiddo i'r Cyngor. Dyma’r achos er enghraifft

gyda gwariant Grant Cyfleusterau i'r Anabl sydd, at ddibenion cyllideb a chyllid y Cyngor, yn cael ei drin fel gwariant cyfalaf gan ei fod yn cael ei ariannu o adnoddau cyfalaf ond oherwydd ei fod yn cynnwys gwelliannau i eiddo preifat yn hytrach nag i ased o dan berchnogaeth y Cyngor, caiff ei drin fel refeniw yn y cyfrifon.

- O ystyried cymhlethdod y Datganiad Cyfrifon, cwestiynwyd ei werth o safbwynt rhoi gwir gynrychiolaeth o berfformiad a safbwynt ariannol y Cyngor i'r darllenydd cyhoeddus, yn enwedig gan fod modd camddehongli'r ffigurau yn y datganiadau ariannol ac mae'n anodd eu cysylltu â ffigurau alldro gwirioneddol cyllideb y Cyngor. Awgrymwyd y gellid cyhoeddi crynodeb byr a symlach o wybodaeth am gyfrifon sy'n hawdd i'r cyhoedd ei weld ar wefan y Cyngor, efallai ochr yn ochr â Llyfr Cyllideb y Cyngor sy'n darparu gwybodaeth fanwl am gyllidebau gwasanaeth.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr adroddiadau monitro cyllideb ac alldro i'r Pwyllgor Gwaith yn darparu gwybodaeth am berfformiad gwirioneddol gwasanaethau'r Cyngor yn erbyn cyllidebau yn y flwyddyn yn ogystal â chynnydd gwariant a gweithgarwch cyfalaf a bod y rhain ar gael o dan adran y pwyllgorau a'r cyfarfodydd ar y wefan.

  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai'n ystyried drafftio crynodeb un dudalen o brif ffigurau'r cyfrifon ar gyfer gwefan y Cyngor.

**Ar ôl craffu ar Ddatganiad drafft y Cyfrifon ar gyfer 2022/23 penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r prif ddatganiadau ariannol heb eu harchwilio drafft ar gyfer 2022/23.**

**Gweithredu: Paratoir crynodeb i ddarparu prif ffigurau'r cyfrifon ac ynghyd â Llyfr Cyllideb y Cyngor, byddant ar gael ar wefan y Cyngor i'r cyhoedd gael mynediad hwylus atynt.**

**6. ADOLYGU'R BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n cynnwys y Blaen Raglen Waith a Rhaglen Hyfforddiant 2023/24 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Tynnodd y Prif Archwilydd sylw at y canlynol –

- Ailddosbarthu eitemau rhwng cyfarfod mis Medi a'r tri chyfarfod dilynol ym mis Rhagfyr 2023 a mis Chwefror ac Ebrill 2024 er mwyn cynnal sesiwn ar ddiwedd cyfarfod 21 Medi gyda Hwylusydd CIPFA mewn perthynas â hunanasesiad y Pwyllgor.
- Tynnu eitem ar y Cod Llywodraethu Lleol oddi ar y rhaglen waith gan mai dim ond unwaith mewn cylch etholiadol y mae'n ofynnol ei ystyried a gwnaed hynny ddiwethaf gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022.
- Tynnu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio oddi ar y rhaglen waith yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Sgriwtini fel yr adroddwyd yn flaenorol. O ganlyniad, bydd partneriaethau a chydweithio fel maes yn cael sylw fel rhan o'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24.

**Penderfynwyd –**

- **Penderfynwyd derbyn y Blaen Raglen Waith wedi'i diweddaru fel y'i cyflwynwyd ar gyfer 2023/24 a'i bod yn cyflawni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.**
- **Nodi'r newidiadau i'r dyddiadau y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno.**

**Mr Dilwyn Evans**

**(Cadeirydd)**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MON / CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD:** | **21 Medi 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban<br>1 Ebrill 2022- 31 Mawrth 2023** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor ynghylch i ba raddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i Bolisi Pryderon a Chwynion** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol<br>Estyniad 2588 dylanowen3@ynysmon.llyw.cymru** |

## PRYDERON A CHWYNION

### 1. Cyflwyniad a Crynodeb

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am faterion sy'n codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ynghyd â nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a wnaed o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai lle nad yw'r achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Bolisi Gwasanaethau Cymdeithasol -' Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion. Mae'r rhain yn cael eu hadrodd bob blwyddyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Nid yw data gan ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

1.3 Gall pryderon a chwynion ddarparu gwybodaeth werthfawr am y modd y mae'r Cyngor yn perfformio, yr hyn y mae defnyddwyr yn ei feddwl am ein gwasanaethau, a sut a ble y dylem ganolbwyntio i wneud gwelliannau.

1.4 Rhwng 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023, derbyniwyd 321 o bryderon a derbyniwyd 40 o gwynion. Ymatebwyd i 39 o gwynion ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, gydag un achos heb ei ddatrys.

1.5 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn diffinio "pryder" fel mynegiant o anfodlonrwydd y gellir ei ddatrys 'yn y fan a'r lle', ar y pwynt cyswllt cychwynnol, neu'n fuan iawn wedi hynny. Fel arfer, mae cwyn yn fwy difrifol ei natur, yn aml ni fydd yn bosibl ei chywiro, ac yn gyffredinol bydd angen ymchwilio i'r amgylchiadau cyn y gellir cynnig ymateb neu ddatrysiad.

2. **Pryderon**

2.1 Mae nifer gyffredinol y pryderon ar draws gwasanaethau wedi cynyddu yn ystod y cyfnod 69% (**Tabl 1, Atodiad 1**). Y gwasanaethau gyda'r nifer uchaf o bryderon oedd Tai, Hamdden ac Adnoddau.

2.1.2 **Tai** – Adroddwyd cynnydd gan y Gwasanaeth gyda'r ffigwr yn codi o 53 yn 2021/22 i 184 yn 2022/23. Yn ystod 2022/23 gweithredwyd swyddogaeth adborth newydd o fewn y System Rheoli Tai. Mae'r Gwasanaeth o'r farn bod gor-adrodd yn ystod y cyfnod cychwynnol o weithredu’r system, gyda staff yn cyflwyno ceisiadau gwasanaeth o ddydd i ddydd yn ychwanegol at y pryderon hynny oedd yn bodloni diffiniad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Pe bai'r data wedi'i adrodd yn gywir, amcangyfrifir mai nifer y pryderon fyddai 95; cynnydd o 42 o'i gymharu â 2021/22.

2.1.3 **Hamdden -** Nodwyd cynnydd o 11 o bryderon yn 2022/23; sef 48 o'i gymharu â 37 yn y flwyddyn flaenorol.

2.1.4 **Adnoddau** – Mae'r ffigwr ar gyfer y Gwasanaeth yn parhau i fod yn gymharol uchel, ond mewn gwirionedd mae'n ostyngiad yn nifer y pryderon o'i gymharu â'r rhai a adroddwyd yn 2021/22. Yn 2021/22 y ffigwr oedd 43, ac yn 2022/23, bu gostyngiad o 12, i 31.

2.2 Er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd gan OGCC, a thrafodaeth a gynhaliwyd yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn 2022, casglwyd gwybodaeth fanwl am bryderon ers 1 Hydref 2022. O'r 321 o bryderon a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd 145 o'r rhain rhwng 1 Hydref 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae cynrychiolaeth yn ôl gwasanaeth o'r 145 o bryderon yn **Nhabl 2 -Atodiad 1**, sy'n adlewyrchu'r lefel uwch o ddata sy'n cael ei gasglu a'i adrodd gan y gwasanaethau.

2.3 O'r 145 o bryderon a dderbyniwyd rhwng 1 Hydref 2022 – 31 Mawrth 2023, cadarnhawyd 41 yn llawn, cadarnhawyd 1 yn rhannol ac ni chadarnhawyd y gweddill ac ymdriniwyd â nhw fel ceisiadau gwasanaeth arferol.

3 **Cwynion**

3.1 O'r 39 cwyn a gafodd sylw yn ystod y cyfnod, cadarnhawyd 10 yn llawn, cafodd 4 eu cadarnhau yn rhannol ac ni chadarnhawyd 25.

3.2 Cafodd 10% o'r cwynion a dderbyniwyd eu huwchgyfeirio. Cafodd 1 o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ei hanfon yn uniongyrchol i'r Cyngor gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, a gofynnodd i'r Cyngor ei phrosesu yn unol â'r weithdrefn fewnol cyn ei hystyried gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

3.3 Os nad yw achwynydd yn fodlon â chasgliad proses gwyno'r Cyngor, gall gyfeirio ei achos i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. O'r cwynion yr ymchwiliwyd iddynt gan y Cyngor, cafodd 7 eu huwchgyfeirio i OGCC gan yr achwynydd. Cafodd yr achosion hyn eu gwrthod gan OGCC heb ymchwiliad ffurfiol. Cyfeiriwch hefyd at adran 6 o'r adroddiad hwn, sy'n rhoi gwybodaeth am gwynion yr ymdriniwyd â nhw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2022/23 - y rhai sydd wedi bod

drwy broses fewnol y Cyngor yn ogystal ag unrhyw un a gyfeiriwyd yn uniongyrchol i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

3.4 Roedd 40 o gwynion yr oedd angen ymchwilio iddynt gan y Cyngor yn ostyngiad o 14, i lawr o 54 yn 2021/22. Dangosir y rhain yn y tabl atodedig **(Tabl 1 - Atodiad 1)**

## 4 Ymatebion Hwyr i Gwynion

4.1 Y gyfradd gyffredinol o ran ymateb i gwynion o fewn y terfyn amser penodedig (20 diwrnod gwaith) oedd 74.4%, gostyngiad o 5.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Pan fydd ymatebion yn hwyr, disgwylir i wasanaethau anfon 'ymateb dros dro' at yr achwynydd er mwyn rhoi gwybod iddynt am gynnydd ac egluro rhesymau dros yr oedi a rhoi rhyw syniad am yr amserlen ymateb.

4.2 O'r 39 cwyn yr ymchwiliwyd iddynt gan y Cyngor, roedd 10 o'r rhain yn ymatebion hwyr.

4.3 Anfonwyd ymatebion hwyr yn ystod 2022/23 gan yr adran Tai (1), Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol (1) (gan ddefnyddio protocol ar y cyd), Gwarchod y Cyhoedd (2) ac Adnoddau (6).

4.4 Mae'r ffigwr ar gyfer Adnoddau yn uwch na gwasanaethau eraill ond mae'n is na'i gyfradd ymateb hwyr ar gyfer 2021/22. Mae gwybodaeth gan y Gwasanaeth yn egluro bod gwaith ychwanegol o fewn y Gwasanaeth yn ymwneud ag amryw o grantiau'r Llywodraeth, ar ôl y pandemig, wedi cyfrannu at yr ymatebion hwyr yn ystod 2022/23.

4.5 Caiff yr ymateb hwyr o 9 diwrnod rhwng Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ei esbonio gan y Gwasanaethau fel cyfarfodydd ychwanegol a gynhaliwyd gyda'r achwynydd i drafod y gŵyn; a bod angen trafodaethau ar wahân ac ar y cyd rhwng y gwasanaethau yn dilyn hynny.

4.6 Roedd gan Gwarchod y Cyhoedd un ymateb hwyr o 12 diwrnod, lle bu'n rhaid cynnal ymchwiliad manwl i ddwy elfen, un i brosesau staff a'r broses bresennol o wneud cais am drwydded.

## 5 Gwersi a ddysgwyd

5.1 Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o bryderon a chwynion a thrwy hynny wella gwasanaethau. Disgwylir i Wasanaethau'r Cyngor gymryd pryderon a chwynion o ddifrif a dysgu o unrhyw gamgymeriadau a nodwyd i gyfyngu ar y risg y bydd yr un materion yn digwydd eto yn y dyfodol.

5.2 Fel y soniwyd uchod, yn ystod 2022/23, cadarnhawyd 10 cwyn a chadarnhawyd 4 cwyn yn rhannol. Mae **Atodiad 2** yn dangos gwybodaeth a dderbyniwyd gan y gwasanaethau ynghylch gwersi a ddysgwyd ac unrhyw arfer sydd wedi datblygu o ganlyniad i'r canfyddiadau hyn.

5.3 O ran pryderon yn ystod 2022/23, cadarnhawyd 41 o bryderon a chadarnhawyd 1 pryder yn rhannol, mae **Atodiad 3** yn dangos gwybodaeth a dderbyniwyd gan y gwasanaethau ynghylch gwersi a ddysgwyd ac unrhyw arfer sydd wedi datblygu o ganlyniad i'r canfyddiadau hyn.

## 6 Cwynion i OGCC

### 6.1 Cwynion am Wasanaethau

6.1.2 Nid oes hawl mewnol i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed mewn ymateb i gŵyn, ond mae’r Polisi Pryderon a Chwynion yn cynnwys yr opsiwn o uwchgyfeirio cwyn i'r Ombwdsmon pan fydd yr achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ag ymateb y Cyngor.

6.1.3 Cyfeiriwyd 25 cwyn i sylw OGCC rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, ac mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cafodd 10 eu huwchgyfeirio yn dilyn ymatebion ffurfiol o dan Weithdrefn Gwynion y Cyngor,
- Roedd 8 mater yn ymwneud ag adolygiadau o benderfyniadau blaenorol o 2021/22; a
- Roedd 7 yn gwynion a wnaed yn uniongyrchol i OGCC.

6.1.4 O'r 25 achos a gyfeiriwyd at OGCC, arweiniodd 5 at ddatrysiad/setliad cynnar, a gaeodd y materion ac ni ymchwiliwyd i'r 20 oedd yn weddill.

6.1.5 Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Broses Ymdrin â Chwynion ar waith i benderfynu a oes angen ymchwilio ai peidio i achos.

### 6.2 Cwynion am Aelodau

6.2.2 Rhaid i gŵyn yn erbyn aelod etholedig fod yn seiliedig ar achos neu achosion honedig o dorri rheolau'r Cod Ymddygiad Aelodau, gyda'r Ombwdsmon yn arfer awdurdodaeth 'cam didoli cyntaf' (h.y. asesu teilyngdod) cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen, a sut.

6.2.3 Yn ystod 2022/23, derbyniwyd 1 gŵyn cod ymddygiad gan OGCC yn erbyn Cynghorydd Sir ond fe’i caewyd heb unrhyw ymchwiliad ar ôl asesiad cychwynnol. Mae gwybodaeth gyfyngedig am gwynion o'r fath yn cael ei hadrodd yn ffurfiol i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir ddwywaith y flwyddyn.

6.2.4 Er mwyn cyflawnder, mae cwynion am aelodau etholedig Cynghorau Tref a Chymuned, mewn perthynas â'r un Cod Ymddygiad, hefyd yn cael eu hadrodd ddwywaith y flwyddyn i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir.

6.2.5 Mae crynodebau hefyd ar gael yn Llyfr Achosion chwarterol OGCC sydd i'w weld yn https://www.ombwdsmon.cymru/code-of-conducts

## 7 Cwynion sy'n gysylltiedig ag Iaith

7.1 Yn ystod y cyfnod adrodd ni chafwyd unrhyw gwynion o dan y Polisi Pryderon a Chwynion mewn perthynas â'r Gymraeg.

7.2 Yn ogystal â hyn, mae gan y cyhoedd yr hawl i gwyno'n uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg ond nid yw'r cwynion hyn yn cael eu hanfon yn ôl at y Cyngor i ymchwilio iddynt ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae unrhyw gwynion o'r fath yn cael eu hadrodd yn Adroddiad Blynyddol Safonau’r Gymraeg a gyhoeddir ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

## 8 CHWYTHU'R CHWIBAN

8.1 Paratowyd Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor a'r Canllaw Lleol i annog a rhoi cyfle i weithwyr godi'r pryderon hynny, sy'n dod o fewn cwmpas y Polisi, heb ofni erledigaeth na gwahaniaethu. Chwythu'r chwiban yw'r term poblogaidd a ddefnyddir pan fydd aelod o staff (mae'n cynnwys contractwyr ond nid yw'n cynnwys y cyhoedd nac aelodau etholedig) yn codi pryderon am dwyll, elfen o droseddu, perygl neu risg ddifrifol a allai fygwth y cyhoedd, eu cyd-weithwyr neu enw da'r Cyngor.

8.2 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cytuno ar lefel y wybodaeth a ddarperir fel arfer yn yr adroddiad hwn. Gan fod natur materion o'r fath yn anorfod yn sensitif a chyfrinachol a bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i amddiffyn Chwythwyr Chwiban rhag anfantais yn y gweithle, dim ond gwybodaeth gyfyngedig y gellir ei datgelu.

8.3 Yn sgil ymgynghori â Chyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth codwyd 0 o bryderon chwythu'r chwiban yn ystod y cyfnod adrodd. Pe byddai pryderon chwythu'r chwiban wedi'u codi yn ystod y flwyddyn, byddai'r wybodaeth ganlynol wedi'i chyflwyno.

| Dyddiad Cyflwyno | Math o Ddatgeliad */ Adroddwyd i | Natur y Pryder | Ymchwiliwyd | Canlyniad | Gwersi a ddysgwyd | Canlyniadau wedi'u bwydo'n ôl i'r Chwythwr Chwiban |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

* Mae datgeliad lefel gyntaf yn golygu yr adroddir amdano o fewn y Cyngor, yn hytrach na datgelu ail lefel (i Reoleiddwyr) neu ddatgeliad trydedd lefel (i'r cyfryngau)

## 9 Prif Negeseuon o'r Data

9.1 Nid yw cwynion ynghylch Aelodau etholedig, y Gymraeg (o fewn y Polisi Pryderon a Chwynion) a Chwythu'r Chwiban yn destun pryder ac nid oes angen cymryd camau gweithredu penodol pellach.

9.2 Mae nifer y pryderon a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod wedi cynyddu o 189 yn 2021/22 i 321 yn 2022/23. Gan addasu'r ffigur hwn i ganiatáu ar gyfer lefel ormodol yr adrodd gan yr adran Tai yn ystod chwe mis cyntaf 2022/23, amcangyfrifir y byddai cynnydd o 189 i 236 yn ffigwr cywirach. Mae hyn yn debygol o ddeillio o drefn gasglu data gorfforaethol fwy trylwyr yn ymwneud â phryderon.

Deellir bod y mater o gam-gasglu data yn yr adran Tai bellach wedi cael sylw ac na ddylai effeithio ar y pryderon a adroddwyd i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol.

9.3 Mae nifer y cwynion wedi gostwng o 54 yn 2021/22 i 40 yn 2022/23; gyda'r nifer uchaf o gwynion mewn Adnoddau (11) a Thai (10).

9.4 Ni ymchwiliwyd i unrhyw gwynion gan OGCC yn 2022/23.

9.5 Mae'r amser ar gyfer ymateb i gwynion (20 diwrnod gwaith) yn parhau i fod yn broblem, gyda gostyngiad o 5.2% yn ystod 2022/23 o'i gymharu â 2021/22. Mae hyn yn golygu mai dim ond 74.4% o gwynion sydd wedi'u hateb o fewn y cyfnod gofynnol. Rhaid

cydnabod, fodd bynnag, bod nifer gyffredinol y cwynion yn isel, felly mae'r canrannau'n cael eu camliwio.

9.6 O edrych ar fanylion y wybodaeth a ddarperir, mewn perthynas â phryderon a chwynion, mae patrwm clir o wendidau o ran "gofal cwsmeriaid"/"gwasanaeth cwsmeriaid"; yn enwedig cyfathrebu parhaus ynglŷn ag amserlenni/oedi.

## 10 Argymhellion

Bod y Pwyllgor:

10.1 Yn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â phroses gwynion y Cyngor ynglŷn â'r Gymraeg (o dan y Polisi Pryderon a Chwynion), cwynion mewn perthynas ag Aelodau etholedig a'r Polisi/Canllaw Chwythu'r Chwiban.

10.2 Mae'n fodlon bod yr adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd rhesymol bod gan y Cyngor brosesau priodol ar waith o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a bod gwasanaethau'r Cyngor yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r disgwyliadau a nodir yn y polisi hwnnw.

10.3 Gofynnir i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor adolygu'r hyfforddiant Gwasanaeth Cwsmeriaid a ddarperir i staff sy'n wynebu'r cyhoedd, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd â'r nifer uchaf o bryderon/cwynion/ymatebion hwyr a sicrhau bod unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw'n cael eu gweithredu. Cynhelir yr adolygiad hwn yng nghyd-destun y Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid diwygiedig a'r Polisi Pryderon a Chwynion diwygiedig.

**Atodiad 1**

**Tabl 1 - Crynodeb o Bryderon a Chwynion gan Wasanaeth ar gyfer 2022 – 2023**

| Gwasanaeth | Nifer y pryderon | Naifer y cwynion | Nifer a gadarnhawyd | Nifer a gadarnhawyd yn rhannol | Nifer y cwynion a wrthodwyd | Nifer yr ymatebion hwyr (x diwrnod yn hwyr) | Canmoliaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Busnes y Cyngor** | | | | | | | |
| Busnes y Cyngor | | | | | | | 4 |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | |
| Priffyrdd ac Eiddo | 18 | 2 | | | 2 | | 22 |
| Gwastraff | 13 | 4 | 1 | | 3 | | 10 |
| **Tai** | | | | | | | |
| Tai | **184** | 10 | 3 | 4 | 3 | 1 (2 ddiwrnod) | 17 |
| *Tai / Gwasanaethau Cymdeithasol | | 1 | 1 | | | **1 (9 diwrnod)** | |
| **Dysgu** | | | | | | | |
| Dysgu (ac eithrio ysgolion) | 9 | 2 | | | 2 | | 8 |
| **Rheoleiddio ac Economaidd** | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 5 | | | | | | 22 |
| Hamdden | **48** | | | | | | 67 |
| Morol | | | | | | | |
| Cynllunio | 6 | 5 | | | 5 | | 99 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 7 | 5 | 1 | | 4 | 2 (1 x 2 ddiwrnod ac **1 x 12 diwrnod)** | 21 |
| **Adnoddau** | | | | | | | |
| Adnoddau | **31** | **11** | 4 | | 6 | **6 (1 x 13 diwrnod, 1 x 27 diwrnod, 1 x 63 diwrnod, 1 x 10 diwrnod, 1 x 5 diwrnod** | 38 |
| **Trawsffurfio** | | | | | | | |
| Cyswllt Môn | | | | | | | 11 |
| **Cyfansymiau** | **321** | **40** | **10** | **4** | **25** | **10** | **319** |

* Yn ymwneud â mwy nag un gwasanaeth

**Tabl 2 - Crynodeb o'r Pryderon rhwng 1 Hydref 2022 a 31 Mawrth 2023***

| Gwasanaeth | Nifer y pryderon | Nifer a gadarnhawyd | Nifer a gadarnhawyd yn rhannol | Nifer y pryderon a wrthodwyd |
|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| Priffyrdd ac Eiddo | 6 | | | |
| Gwastraff | 8 | 6 | | 2 |
| **Tai** | | | | |
| Tai | 86 | 24 | | 62 |
| **Dysgu** | | | | |
| Dysgu (ac eithrio ysgolion) | 5 | | | 5 |
| **Rheoleiddio ac Economaidd** | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1 | | 1 | |
| Hamdden | 19 | 10 | | 9 |
| Morol | | | | |
| Cynllunio | 3 | 1 | | 2 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 6 | 1 | | 5 |
| **Adnoddau** | | | | |
| Adnoddau | 11 | | | |
| **Cyfansymiau** | **145** | **42** | **1** | **85** |

- O ran cynnwys y wybodaeth fanwl, fe'i casglwyd yn dilyn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2022.

# Ffurflen Adrodd ar Gwynion a Gadarnhawyd a rhai a Gadarnhawyd yn rhannol Atodiad 2

Mae’r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu o gamgymeriadau a rhoi mesurau yn eu lle rhag i’r un camgymeriadau gael eu hailadrodd. Paratoir Adroddiad Cwynion Blynyddol i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu’r Cyngor ym mis Medi bob blwyddyn. Adroddir ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil unrhyw gwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol mewn tabl fel atodiad i’r adroddiad hwnnw. Mae’r tabl yn nodi enw’r gwasanaeth, y camgymeriad a nodwyd a'r camau a gymerwyd i gywiro hynny.

Mae felly’n hanfodol bod y wybodaeth y byddwch yn ei darparu ar ddiwedd pob proses ymchwilio i gŵyn yn nodi’n glir eich canfyddiadau a pha gamau yr ydych wedi eu cymryd / yr ydych yn bwriadu eu cymryd, ac erbyn pryd, er mwyn sicrhau nad yw’r camgymeriad a nodwyd yn cael ei ailadrodd. Mae’r Pwyllgor wedi mynegi y gall alw ar Benaethiaid Gwasanaeth i gadarnhau bod camau cywiro wedi eu cymryd o fewn yr amserlenni a nodwyd.

Er mwyn hwyluso’r gwaith o ysgrifennu adroddiadau yn y dyfodol fe anfonir y ffurflen hon atoch i’w llenwi bob tro y byddwch yn cadarnhau cwyn yn llawn neu’n rhannol. Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei rhannu â’r Pwyllgor mewn cyfarfod cyhoeddus.

| **Canllawiau i Wasanaethau yn egluro sut i lenwi'r ffurflen** | | |
|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r categori** | **Manylion / enghreifftiau** | **Enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd** |
| Camgymeriad syml / dim angen am gamau pellach | Camgymeriad dilys / un tro sydd wedi’i gywiro / materion a brofwyd wrth i system newydd gael ei chyflwyno / cyfnod o bwysau uchel | Wedi siarad â’r aelod perthnasol o staff ac wedi ei atgoffa o’r angen i fod yn ofalus / i gadw data pan fydd y galw yn uchel |
| Mater Gofal Cwsmeriaid | Diffyg ymateb i ohebiaeth / ddim yn ffonio pobl yn ôl fel yr addawyd | Cyfarwyddiadau clir wedi eu darparu / materion gofal cwsmeriaid wedi eu trafod ym mhob cyfarfod tîm (cofnodion wedi eu cymryd / Gwasanaethau yn cyflwyno ac yn monitro rhai dangosyddion perfformiad allweddol |
| Angen Hyfforddiant neu Oruchwyliaeth | Problemau ymddygiad neu gamgymeriadau wrth ddehongli cyfarwyddiadau | Aelod o staff wedi’i anfon ar gwrs hyfforddiant / goruchwyliaeth gan aelod mwy profiadol o staff |
| Newid mewn polisi neu broses | Camgymeriadau mewn proses / polisi wedi eu darganfod o ganlyniad i ymchwiliad i gŵyn sydd wedi arwain at gyflwyno newidiadau | Ffurflenni newydd wedi eu cyflwyno / angen gwahanol dystiolaeth / newidiadau i lwybrau (e.e. casgliadau bin) |

# Ffurflen Adrodd ar Gwynion a Gadarnhawyd a rhai a Gadarnhawyd yn rhannol Atodiad 2



| Crynodeb o'r Gwersi a Ddysgwyd 2022/2023 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | Cyfeirnod y Gŵyn | Gwasanaeth | Camgymeriad(au)a nodwyd | Camau Cywiro – nodwch gategori'r camgymeriad (gweler uchod) a nodwch pa gamau sydd wedi eu cymryd neu y bwriedir eu cymryd ac erbyn pryd | Gweithredu wedi'i gwblhau |
| **Ar draws y Gwasanaethau** | | | | | |
| 1 | F25 | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | Amser hir cyn derbyn Asesiad gan Therapydd Galwedigaethol ac yn dilyn hyn, amser hir cyn bod y gwaith yn cael ei gwblhau gan yr adran Tai. | GC - Mater Gofal Cwsmeriaid – Rhoddwyd ymddiheuriad i'r achwynydd am yr oedi cyn cael Asesiad gan Therapydd Galwedigaethol (ThG). Prinder ThG yn yr ardal leol oedd yn gyfrifol am hyn. Mae ThG ychwanegol wedi'u penodi i'r ardal benodol honno o'r Ynys.<br><br>Tai – Mater Gofal Cwsmeriaid – Nodwyd nad oedd yr Arolygydd Technegol wedi cyfeirio ei bryderon o fewn yr Asesiad ThG gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a achosodd oedi ychwanegol. Atgoffwyd yr aelod o staff i ymgynghori â phob parti wrth weithio ar benderfyniadau i Asesiadau ThG | Do<br><br>Do |
| **Rheoleiddio ac Economaidd** | | | | | |
| 2 | F23 | Gwarchod y Cyhoedd | Roedd y cyngor a roddwyd i aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â throsglwyddo trwydded yn is na'r safon a ddisgwylir, ni chyflwynwyd yr holl wybodaeth i'r achwynydd | Camgymeriad Syml – Wedi cael gair a'r aelod o staff a'i atgoffa os nad yw'n sicr i ofyn am gyngor pellach. | Do |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | |
| 3 | F27 | Rheoli Gwastraff | Aelod o staff wedi parcio o flaen y lôn | Camgymeriad syml / dim angen unrhyw gamau pellach - | Do |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r rheolwyr wedi siarad â'r aelod o staff ynghylch ble maen nhw'n parcio/stopio'r cerbyd cyn iddyn nhw wasanaethu eiddo. | |
| **Tai** | | | | | |
| 4 | F24 (wedi'i gadarnhau'n rhannol) | Cynnal a Chadw Tai | Diffyg Atgyweirio a Chynnal a Chadw mewn Eiddo | Newid mewn polisi neu broses – Nodwyd gwendidau yn y broses o weithio gyda chontractwyr allanol i gwblhau gwaith dilynol, manylion ar y gwaith dilynol sydd ei angen bellach wedi'i e-bostio at gontractwr allanol ac atgoffwyd staff i wneud hyn. | Do |
| 5 | F26 | Cynnal a Chadw Tai | Pryderon wedi'u codi ynghylch lle tân, gwaith wedi'i drefnu a'i ganslo sawl gwaith. Ni roddwyd unrhyw apwyntiad newydd pan ganslwyd y gwaith y tro olaf. | Materion Gofal Cwsmeriaid - Ni roddwyd unrhyw resymau clir i'r tenant pam fod yr apwyntiadau'n cael eu canslo. Eglurwyd bod Gwasanaethau Tai yn ei chael yn anodd cael gafael ar blastrwyr cymwys i wneud gwaith a fyddai wedi'i gwblhau'n fel arfer o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.<br><br>Atgoffwyd staff o bwysigrwydd rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i denantiaid a rhoi'r rhesymau dros y newidiadau. | Do |
| 6 | F28 (wedi'i gadarnhau'n rhannol) | Cynnal a Chadw Tai | Yr amser a gymerwyd i gwblhau'r archwiliad a'r gwaith atgyweirio dilynol o ran llwydni a lleithder mewn eiddo | Yn ystod y cyfnod, roedd gwaith atgyweirio wedi'i wneud yn yr eiddo, ond ar rai achlysuron ni chafwyd ateb yn yr eiddo pan oedd apwyntiad wedi ei drefnu, gan olygu nad oedd y gwaith yn cael ei wneud. | Do |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Atgoffir staff i aildrefnu galwadau a fethwyd ac ail-gadarnhau'r dyddiad newydd gyda thenantiaid | |
| 7 | F30 | Cynnal a Chadw Tai | Oedi cyn cwblhau gwaith addasu yn dilyn Adroddiad Therapydd Galwedigaethol a diffyg eglurder am y rhesymau dros yr oedi | Materion Gofal Cwsmeriaid – mae aelodau staff sy'n ymwneud â gwaith addasu wedi cael eu hatgoffa bod cyfathrebu â thenantiaid yn hollbwysig os bydd oedi o ran y gwaith sydd i'w wneud. | Do |
| 8 | F31 (wedi'i gynnal yn rhannol) | Cynnal a Chadw Tai | Dim gwres ar ôl penderfynu nad oedd y lle tân yn addas i'w ddefnyddio ar ôl Archwiliad Peiriannydd Gwresogi. | Materion Gofal Cwsmeriaid – Roedd oedi o ran y gwaith oherwydd natur y gwaith a'r anhawster i ddod o hyd i'r rhannau cywir. Dylai'r achwynydd fod wedi cael gwybod am yr oedi. Staff wedi cael eu hatgoffa o bwysigrwydd cyfathrebu da gyda thenantiaid | Do |
| 9 | F32 (wedi'i gynnal yn rhannol) | Cynnal a Chadw Tai | Cyflwr y lleithder yn y tŷ, wedi bod yn ceisio datrys y broblem gyda'r tîm Atgyweiro Tai ers mis Chwefror 2021. | Nid oedd y gwaith a wnaed dros y cyfnod wedi datrys y mater.<br>Cynhaliodd y Gwasanaethau Tai arolwg allanol a gwnaed gwelliannau yn dilyn derbyn adroddiad | Do |
| 10 | F34 | Cynnal a Chadw Tai | Oedi o ran trwsio bwyler a'r tenantiaid heb ddŵr poeth na gwres. | Materion Gofal Cwsmer – Mae cyfarwyddiadau clir wedi'u hail-gyflwyno i staff ynglŷn â chyfathrebu da â thenantiaid. | Do |
| **Adnoddau** | | | | | |
| 11 | F1 | Budd-daliadau | Ffurflen newid cyfeiriad wedi'i hanfon mewn camgymeriad | Camgymeriad syml - nid oes angen unrhyw gamau pellach.<br>Gwybodaeth wedi'i derbyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddog yn gweithredu ar y wybodaeth honno. | Do |
| 12 | F5 | Budd-daliadau | Mater gofal cwsmeriaid oherwydd faint o amser a | Materion Gofal i Gwsmeriaid - Trafodir materion gofal cwsmeriaid mewn cyfarfodydd. | Do |

# Ffurflen Adrodd ar Gwynion a Gadarnhawyd a rhai a Gadarnhawyd yn rhannol Atodiad 2

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gymerwyd i ymateb i gwsmeriaid | | |
| 13 | F35 | Cyllid | Mater gofal cwsmeriaid oherwydd faint o amser a gymerwyd i ymateb i gwsmeriaid | Materion Gofal i Gwsmeriaid – Trafodir materion gofal cwsmeriaid mewn cyfarfodydd.<br>Ad-daliad hefyd yn cael ei brosesu i'r Achwynydd | Do |
| 14 | F36 | Cyllid | Taliadau ar gyfer cyfrif treth gyngor anghywir wedi'i gymryd allan o gyflogau | Newid mewn polisi neu broses Ymchwiliad llawn i'r mater.<br><br>Newid yn y broses. Ymchwiliad llawn i sut digwyddodd y camgymeriad i gynnwys y gyflogres.<br>Ffurflenni i'w llenwi gan staff gyda llofnod cwsmeriaid ar bob didyniad o gyflogau | Do |

# Ffurflen Adrodd Pryderon a Gadarnhawyd a rhai a Gadarnhawyd yn rhannol Atodiad 3

Mae’r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu o gamgymeriadau a rhoi mesurau yn eu lle rhag i’r un camgymeriadau gael eu hailadrodd. Paratoir Adroddiad Cwynion Blynyddol i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu’r Cyngor ym mis Medi bob blwyddyn. Adroddir ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil unrhyw gwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol mewn tabl fel atodiad i’r adroddiad hwnnw. Mae’r tabl yn nodi enw’r gwasanaeth, y camgymeriad a nodwyd a'r camau a gymerwyd i gywiro hynny.

Mae felly’n hanfodol bod y wybodaeth y byddwch yn ei darparu ar ddiwedd pob proses ymchwilio i gŵyn yn nodi’n glir eich canfyddiadau a pha gamau yr ydych wedi eu cymryd / yr ydych yn bwriadu eu cymryd, ac erbyn pryd, er mwyn sicrhau nad yw’r camgymeriad a nodwyd yn cael ei ailadrodd. Mae’r Pwyllgor wedi mynegi y gall alw ar Benaethiaid Gwasanaeth i gadarnhau bod camau cywiro wedi eu cymryd o fewn yr amserlenni a nodwyd. Er mwyn hwyluso’r gwaith o ysgrifennu adroddiadau yn y dyfodol fe anfonir y ffurflen hon atoch i’w llenwi bob tro y byddwch yn cadarnhau cwyn yn llawn neu’n rhannol. Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei rhannu â’r Pwyllgor mewn cyfarfod cyhoeddus.

| **Canllawiau i Wasanaethau yn egluro sut i lenwi'r ffurflen** | | |
|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r categori** | **Manylion / enghreifftiau** | **Enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd** |
| Camgymeriad syml / dim angen am gamau pellach | Camgymeriad dilys / un tro sydd wedi’i gywiro / materion a brofwyd wrth i system newydd gael ei chyflwyno / cyfnod o bwysau uchel | Wedi siarad â’r aelod perthnasol o staff ac wedi ei atgoffa o’r angen i fod yn ofalus / i gadw data pan fydd y galw yn uchel |
| Mater Gofal Cwsmeriaid | Diffyg ymateb i ohebiaeth / ddim yn ffonio pobl yn ôl fel yr addawyd | Cyfarwyddiadau clir wedi eu darparu / materion gofal cwsmer wedi eu trafod ym mhob cyfarfod tîm (cofnodion wedi eu cymryd / Gwasanaethau yn cyflwyno ac yn monitro rhai dangosyddion perfformiad allweddol |
| Angen Hyfforddiant neu Oruchwyliaeth | Problemau ymddygiad neu gamgymeriadau wrth ddehongli cyfarwyddiadau | Aelod o staff wedi’i anfon ar gwrs hyfforddiant / goruchwyliaeth gan aelod mwy profiadol o staff |
| Newid mewn polisi neu broses | Camgymeriadau mewn proses / polisi wedi eu darganfod o ganlyniad i ymchwiliad i gŵyn sydd wedi arwain at gyflwyno newidiadau | Ffurflenni newydd wedi eu cyflwyno / angen gwahanol dystiolaeth / newidiadau i lwybrau (e.e. casgliadau bin) |

## Ffurflen Adrodd Pryderon a Gadarnhawyd a rhai a Gadarnhawyd yn rhannol Atodiad 3

| Crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer pryderon 2022/2023 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer | Gwasanaeth | Camgymeriadau (au) a nodwyd | Camau Cywiro – nodwch gategori'r camgymeriad (gweler uchod) a nodwch pa gamau sydd wedi eu cymryd neu y bwriedir eu cymryd ac erbyn pryd | Gweithredu wedi'i gwblhau |
| **Rheoleiddio ac Economaidd** | | | | |
| 1 | Hamdden | Pryder am lefel y gwasanaeth gofal cwsmeriaid sy'n cael ei gynnig yng Nghanolfan Hamdden Caergybi, yn enwedig gan un aelod o staff | Mater Gofal Cwsmeriaid - Siaradwyd â'r cwsmer dros y ffôn ac atebwyd hefyd drwy e-bost. Ymddiheurwyd i'r cwsmer am y sefyllfa ac eglurwyd y byddem yn siarad â staff y ganolfan i sicrhau bod lefelau gwasanaeth cwsmeriaid yn gwella. | Do |
| 2 | Hamdden | Nifer o bryderon a godwyd gan gynnwys plant ysgol ddim yn sychu'r peiriannau campfa ar ôl eu defnyddio. | Mater Gofal Cwsmeriaid - Cyfarfodydd grŵp Ffocws Gofal Cwsmeriaid wedi'u trefnu i drafod pryderon cwsmeriaid. Cafwyd trafodaeth gyda'r cwsmer i sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i wella'r materion y tynnwyd sylw atynt. | Do |
| 3 | Hamdden | Pryder gan gwsmer am lefel y Gymraeg a ddefnyddir gan staff wrth addysgu dosbarthiadau yn enwedig yng Nghanolfan Hamdden Amlwch | Angen Hyfforddiant neu Oruchwyliaeth - Trafod posibiliadau gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cynnig cyrsiau. Cwrs 6 sesiwn wedi'i drefnu ar gyfer staff y Ganolfan er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn enwedig yn ystod dosbarthiadau yn y ganolfan. | Do |
| 4 | Hamdden | Rhwystredig gyda system ffôn Canolfan Hamdden Plas Arthur | Mater Gofal Cwsmeriaid – Mae'r system ffôn wedi cael sylw gan TG - Tocyn wedi'i godi ers mis Ionawr 2023 | Do |
| 5 | Hamdden | Yn pryderu bod dros 30 o blant ac oedolion wedi cael cais i gael fwyta eu bwyd parti yng | Mater Gofal Cwsmeriaid - Cadarnhawyd pryder y cwsmer o safbwynt bod gwaith plant wedi'i adael ar y desgiau. | Do |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | nghanolfan hamdden David Hughes yn yr ystafell ddosbarth. | Dylai staff fod wedi cwblhau gwiriadau cyn i'r parti gyrraedd.<br>Atgoffir staff i sicrhau bod ystafelloedd yn cael eu gwirio cyn i'r cyhoedd gyrraedd cyfarfodydd/partïon | |
| 6 | Hamdden | Derbyniwyd pryderon ynghylch ansawdd gwers nofio yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur o Ysgol Llanbedrgoch | Mater Gofal Cwsmeriaid – trafodwyd y pryderon gyda'r athro nofio, ac eglurodd y Rheolwr sut i gyfathrebu â phlant. | Do |
| 7 | Hamdden | Dywedwyd bod yr ystafelloedd newid gwlyb yng Nghanolfan Hamdden Caergybi yn 'fudr dros ben'. Soniodd hefyd y byddai'n hoffi i'r pwll gael ei rannu'n lonydd yn ystod y sesiynau nofio cyhoeddus gan ei bod yn meddwl bod gormod yn y pwll. | Materion Gofal Cwsmeriaid - Siaradodd y Rheolwr Cyfleusterau â'r Rheolwr ar Ddyletswydd ynghylch yr ystafelloedd newid i sicrhau y cedwir at y lefel uchel o lendid. | Do |
| 8 | Hamdden | Pryderu ynghylch y gwersi nofio a dderbyniodd ei merch ym Mhlas Arthur ac felly roedd hi am ganslo'r aelodaeth. | Materion Gofal Cwsmeriaid - Siaradodd Rheolwr Cyfleusterau gyda'r teulu ac ymddiheuro am safon y gwersi. Ni chanslodd y teulu ac mae'r ferch yn dal i gael gwersi. | Do |
| 9 | Hamdden | Roedd yn canmol y dosbarthiadau a gynigiwn, fodd bynnag, roedd yn pryderu am y lle a ddefnyddir yn y ganolfan i gynnal y dosbarth. Awgrymodd nad oedd y lle a ddefnyddiwyd yn ddigonol. | Materion Gofal Cwsmeriaid - Edrychwyd ar y lle dan sylw a symudwyd y Beiciau Ymarfer i ran arall o'r ganolfan lle mae mwy o le. | Do |
| 10 | Hamdden | Pryderu ynghylch mor fudr oedd llawr y cwrt sboncen newydd ym Mhlas Arthur a bod | Mater Gofal Cwsmeriaid - Siaradodd y Rheolwr Cyfleusterau â'r Rheolwr Dyletswydd ynghylch glendid y cwrt | Do |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | dillad yn fudr ar ôl bod mewn sesiwn ioga. | sboncen. Nid oedd safon glendid yn dderbyniol a rhoddwyd gwybod i'r staff. | |
| 11 | Cefn Gwlad ac AHNE | Yn ystod digwyddiad codi waliau sych, teimlai'r achwynydd fod y tirfeddiannwr yn elwa mwy na'r gwirfoddolwyr. | Mater Gofal Cwsmeriaid – Peth sail dros y gŵyn, ynghylch: ansawdd y profiad.<br><br>Yn y dyfodol, dywedir yn glir wrth dirfeddianwyr/darparwyr ei bod yn bwysig datblygu sgiliau’r gwirfoddolwyr. | Do |
| 12 | Cynllunio | Cwestiynu pam y penderfynwyd ar gais rheoli adeiladu yn dilyn cais llafar i beidio â delio ag ef oherwydd y cyfnod a gymerwyd o'i gyflwyno i wirio cynlluniau ac ad-dalu ffi. | Newid mewn polisi neu broses - Penderfynwyd yn dilyn trafodaeth gyda'r Prif Swyddog Cynllunio y byddai'r ffi yn cael ei throsglwyddo i’r cais newydd.<br><br>Yn y dyfodol dylid cofnodi sgyrsiau o'r fath a gynhelir gydag achwynydd i bwrpas archwilio ac er mwyn lleihau’r posibilrwydd y bydd yn digwydd eto. | Do |
| 13 | Gwarchod y Cyhoedd | Pryder ynghylch diffyg gwybodaeth mewn perthynas â chamau gweithredu sy'n cael eu cymryd | Mater Gofal Cwsmeriaid – Mae staff wedi cael eu hatgoffa o bwysigrwydd diweddaru'r cyhoedd wrth weithio ar achosion | Do |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| 14 | Gwastraff | Perchennog ail gartref yr eiddo ddim bob amser yn y tŷ i nôl y bin du a nifer o ddigwyddiadau wedi’u hadrodd lle mae wedi chwythu i’r briffordd. Gofyn i’r contractwr roi’r bin yn ôl yn syth a chadw’r bin yn ei le yn y dyfodol cyn casgliadau'r dyfodol. | Mater Gofal Cwsmeriaid – Mae cyfarwyddiadau wedi'u hanfon at staff perthnasol sydd â chontractwyr allanol i atal problemau yn y dyfodol. | Do |
| 15 | Gwastraff | Heb gasglu’r biniau gwastraff dro ar ôl tro. Wedi cyfarwyddo'r | Mater Gofal Cwsmeriaid - Anfonwyd cyfarwyddiadau at staff perthnasol sydd â | Do |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | contractwr i ddychwelyd i wagio'r biniau ac wedi cyfarwyddo contractwyr priffyrdd i gadw'r ardal yn glir i gael mynediad at y biniau i'w gwagio. | chontractwyr allanol i atal problemau yn y dyfodol. | |
| 16 | Gwastraff | Cerbyd ysgubo ffyrdd yn yr ardal tua 5:10am, gan ddeffro'r preswylydd | Mater Gofal Cwsmeriaid - Yn y dyfodol dylai gyrwyr loriau ysgubo ffyrdd roi gwybod i'r rheolwr os bwriedir ysgubo cyn 7am mewn ardaloedd preswyl fel y gellir rhoi rhybudd i breswylwyr. | Do |
| 17 | Gwastraff | Aelod o staff contractwyr wedi'i ddal yn gwneud dŵr yn erbyn wal gan riant a phlentyn oedd ar eu ffordd i'r ysgol. | Materion Gofal Cwsmeriaid – Gwasanaeth wedi'i gadarnhau bod camau disgyblu wedi'u cymryd yn erbyn yr aelod o staff dan sylw gan y contractwr | Do |
| 18 | Gwastraff | Criw ailgylchu yn gadael ochrau cerbydau ailgylchu ar agor, gan ollwng deunydd ar y ffordd | Materion Gofal Cwsmeriaid - Ni ellid cael lluniau CCTV clir o'r digwyddiad, wedi cael gair efo staff y contractwr a rhoi cyfarwyddyd iddynt gau rhannau'r lori wrth droi'n sydyn.<br>Y Rheolwr Gweithrediadau wedi cysylltu â'r Contractwr â'r cwsmer i drafod. | Do |
| 19 | Gwastraff | Bin gwyrdd heb ei roi yn ôl yn ei le ar ôl ei wagio | Mater Gofal Cwsmeriaid - Staff contractwyr wedi cael cyfarwyddyd i fynd â'r bin yn ôl at fynedfa'r tŷ ar ôl ei wagio | Do |
| | | **Tai** | | |
| 20 | | Galwodd merch y tenant yn yr adran gwasanaethau cwsmeriaid i adrodd bod ei thad wedi bod yn aros am lein ddillad rotari newydd ers mis Gorffennaf, eglurodd ei bod wedi galw i mewn 3 wythnos yn | Materion Gofal Cwsmeriaid – Cafodd y gwaith ei nodi ar dabled fel un wedi'i gwblhau trwy gamgymeriad gan y gweithiwr ac ni sylwyd ar hyn.<br><br>Atgoffir gweithwyr i wirio ddwywaith pa waith maen nhw'n eu cau ar eu tabled. | Do |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ôl ond nad oedd wedi clywed unrhyw beth ers hynny. | | |
| 21 | | Galwodd plymwr ar 29/9 oherwydd nad oedd rheiddiaduron yn cynhesu, ni allai gwblhau'r gwaith na gwneud y gwaith atgyweirio gan fod angen rhan ar gyfer y bwyler, nid yw tenant wedi clywed gan unrhyw un ers hynny ac mae'n dal heb wres. | Materion Gofal Cwsmeriaid – Oedi o ran derbyn y rhan angenrheidiol ar gyfer y bwyler. Heb roi gwybod i'r tenant.<br><br>Atgoffwyd staff o bwysigrwydd rhoi gwybod am unrhyw newidiadau neu oedi i'r tenant. | Do |
| 22 | | Gwaith heb ei gwblhau yng Ngardd y Tenant | Materion Gofal Cwsmeriaid - Roedd Contractwr Allanol yn disgwyl am ran ar gyfer peiriant. Ymddiheurodd am beidio â chysylltu â'r tenant.<br><br>Atgoffwyd y contractwr o'r angen i roi gwybod i'r tenant am unrhyw newidiadau. | Do |
| 23 | | Tenant wedi galw gan nad oes ganddo wres na dŵr poeth o hyd ers 7 diwrnod, ac nid yw wedi clywed gan unrhyw un. Ymwelwyd â'r tenant, dywedwyd bod angen rhan ar gyfer y bwyler ac y byddai'n cael ei osod ddechrau'r wythnos ganlynol | Materion Gofal Cwsmeriaid – Oedi o ran derbyn y rhan angenrheidiol ar gyfer y bwyler. Y wybodaeth hon heb ei throsglwyddo i'r tenant.<br><br>Atgoffwyd staff o bwysigrwydd rhoi gwybod i denantiaid am unrhyw newidiadau neu oedi. | Do |
| 24 | | Wedi mynegi anfodlonrwydd oherwydd oedi o ran gwaith atgyweirio a diffyg cyfathrebu | Materion Gofal Cwsmeriaid - Diffyg cyfathrebu rhwng y Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid a'r staff sy'n trefnu'r gwaith. | Do |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r ddau dîm wedi cael eu hatgoffa i gyfathrebu'n effeithlon ac o fewn canllawiau'r Polisi Atgyweirio Tai. | |
| 25 | | Wedi mynegi anfodlonrwydd oherwydd oedi o ran gwaith atgyweirio a diffyg cyfathrebu | Materion Gofal Cwsmeriaid - Diffyg cyfathrebu rhwng y Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid a’r staff sy’n trefnu’r gwaith.<br><br>Mae'r ddau dîm wedi cael eu hatgoffa i gyfathrebu'n effeithlon ac o fewn canllawiau'r Polisi Atgyweirio Tai. | Do |
| 26 | | Wedi mynegi anfodlonrwydd oherwydd oedi o ran gwaith atgyweirio a diffyg cyfathrebu – dywedwyd wrth y Tenant y byddai gwaith yn cael ei gwblhau gan aelod o'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid, ond ni threfnwyd y gwaith gan y staff. | Materion Gofal Cwsmeriaid - Diffyg cyfathrebu rhwng y Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid a'r staff sy’n trefnu’r gwaith.<br><br>Mae'r ddau dîm wedi cael eu hatgoffa i gyfathrebu'n effeithlon ac o fewn canllawiau'r Polisi Atgyweirio Tai. | Do |
| 27 | | Tad y tenant wedi ffonio i gwyno ei fod wedi bod yn disgwyl yn y tŷ am 7 awr am y peiriannydd gwasanaethu nwy fel y trefnwyd | Materion Gofal Cwsmeriaid – methwyd yr apwyntiad cyntaf. Gwnaed ail apwyntiad, fodd bynnag, roedd gan y peiriannydd sawl problem y diwrnod hwnnw ac roedd ar ei hôl hi, erbyn iddo gyrraedd yr eiddo roedd yn hwyrach y diwrnod hwnnw.<br><br>Methu apwyntiad - Atgoffwyd y peiriannydd o’r angen i roi gwybod i’r tenant neu’r Tîm Gwasanaethu Nwy os disgwylir y bydd oedi. | Do |
| 28 | | Tenant wedi galw yn yr adran gwasanaethau cwsmeriaid y prynhawn yma ynglŷn â gwaith | Materion Gofal Cwsmeriaid - Atgoffwyd staff sy’n trefnu’r gwaith i gadw at y canllawiau yn y Polisi Atgyweirio Tai mewn | Do |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | yn dal heb ei wneud - gosod llawr, rheilen yn y gawod. Yr arolygydd wedi gwneud nodyn o'r gwaith yma, bellach mae wedi mynd heibio'r dyddiad targed a does dim gwaith wedi'i drefnu | perthynas ag amserlenni a sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlen | |
| 29 | | Tenant wedi disgwyl drwy'r bore am y trydanwr i osod gwresogydd E7 newydd, neb wedi troi i fyny. | Materion Gofal Cwsmeriaid - Roedd y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi rhoi'r manylion anghywir am yr apwyntiad i'r tenant.<br><br>Atgoffwyd y tîm i sicrhau bod manylion a roddir i denantiaid yn gywir rhag i hyn ddigwydd eto yn y dyfodol. | Do |
| 30 | | e-bost wedi'i hanfon ynglŷn â thrwsio stôf goed a drefnwyd ar gyfer y dydd Llun hwn 5/12/22 . Wedi galw yn y swyddfa gan nad oedd unrhyw un wedi bod draw i'w thrwsio. | Materion Gofal Cwsmeriaid - Dim rhannau ar gael yn y storfa, wedi rhoi'r gwaith o gael gafael ar y rhannau i gontractwr allanol.<br><br>Atgoffwyd staff o bwysigrwydd rhoi gwybod i denantiaid am unrhyw newidiadau neu oedi. | Do |
| 31 | | Difrod wedi'i achosi gan weithiwr wrth gwblhau gwaith. Dywedodd y tenant hefyd nad oedd y gweithwyr wedi glanhau ar ei ôl. | Materion Gofal Cwsmeriaid – Atgoffwyd gweithwyr o'u dyletswydd gofal wrth atgyweirio eiddo, bod angen osgoi achosi unrhyw ddifrod a sicrhau bod yr eiddo'n lân ac yn daclus o amgylch yr ardal waith berthnasol cyn gadael. | Do |
| 32 | | Diffyg cyfathrebu ynglŷn â chwblhau gwaith atgyweirio. | Materion Gofal Cwsmeriaid - roedd y gweithiwr perthnasol wedi bod i ffwrdd o'r gwaith ac nid oedd aelodau eraill o staff ar | Do |

# Ffurflen Adrodd Pryderon a Gadarnhawyd a rhai a Gadarnhawyd yn rhannol Atodiad 3

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gael i gwblhau'r gwaith. Trefnwyd i weithiwr allanol gwblhau'r gwaith.<br><br>Atgoffwyd staff o bwysigrwydd rhoi gwybod i denantiaid am unrhyw newidiadau neu oedi. | |
| 33 | | Ni alwodd y peiriannydd oedd ar alw fel y gofynnwyd ac fel y cymeradwywyd gan Galw Gofal. Wedi ffonio eto yn ddiweddarach yr un noson a chadarnhawyd bod y mater wedi'i drosglwyddo i'r contractwr. Roedd y tenant yn effro tan 11pm ond ddaeth neb. | Materion Gofal Cwsmeriaid - yn dilyn trafodaeth gyda'r sawl oedd yn trefnu'r gwaith a swyddog gweinyddol y contractwr, mae'n ymddangos bod y peiriannydd wedi mynd i'r eiddo anghywir ac wedi cael mynediad hefyd. (cyfeiriad gwahanol).<br><br>Ymddiheurwyd i'r tenant a threfnwyd bod contractwr yn gwneud y gwaith.<br><br>Gofynnwyd i'r Contractwr Allanol a'r Timau sy'n trefnu'r gwaith sicrhau bod manylion lleoliad y gwaith atgyweirio'n gywir wrth drefnu gwaith. | Do |
| 34 | | Wedi mynegi anfodlonrwydd oherwydd nad oedd unrhyw un wedi dod i'r eiddo i wneud y gwaith trwsio er bod llythyr wedi'i dderbyn gyda'r dyddiad perthnasol arno. | Mater Gofal Cwsmeriaid - Dyddiad anghywir wedi'i ysgrifennu ar y llythyr. Ymddiheurwyd i'r tenant.<br><br>Atgoffwyd y timau perthnasol sy'n trefnu'r apwyntiadau i sicrhau bod y wybodaeth a anfonir at denantiaid yn gywir. | Do |
| 35 | | Wedi mynegi anfodlonrwydd oherwydd problem barhaus gyda boeler olew | Mater Gofal Cwsmeriaid - problemau parhaus oherwydd nad yw'r gwaith yn cael ei gwblhau i safon sy'n golygu na fydd unrhyw broblemau pellach. Ymddiheurwyd i'r tenant. | Do |

# Ffurflen Adrodd Pryderon a Gadarnhawyd a rhai a Gadarnhawyd yn rhannol Atodiad 3

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 36 | | Wedi mynegi anfodlonrwydd oherwydd problem barhaus gyda thwymwr tanddwr | Mater Gofal Cwsmeriaid - problemau parhaus oherwydd nad yw'r gwaith yn cael ei gwblhau i safon sy'n golygu na fydd unrhyw broblemau pellach. Ymddiheurwyd i'r tenant. | Do |
| 37 | | Diffyg cyfathrebu o ran y gwaith y mae angen ei gwblhau yn dilyn archwiliad ar y cyd gan yr Arolygydd a'r Swyddog Rheoli Tai | Materion Gofal Cwsmeriaid - Diffyg cyfathrebu â thenant ar ôl archwiliad i gwblhau gwaith.<br><br>Atgoffwyd staff am bwysigrwydd rhoi gwybod i denantiaid am unrhyw newidiadau neu oedi. | Do |
| 38 | | Tenant wedi galw yn hynod o anhapus am nad oedd y trydanwr wedi bod draw i wneud gwaith atgyweirio. | Mater Gofal Cwsmeriaid – Dylai'r Gweithiwr fod wedi cysylltu â'r tenant neu'r sawl oedd yn trefnu'r gwaith os nad oedd yn gallu mynd yno ar ddiwrnod yr apwyntiad.<br><br>Atgoffwyd gweithredwyr i gysylltu â'r tenant neu'r sawl sy'n trefnu'r gwaith os na fyddant yn gallu mynd i apwyntiad, fel bod y tenant yn ymwybodol a bod modd aildrefnu. | Do |
| 39 | | Cyrhaeddodd Peiriannydd Gwasanaeth Nwy yr eiddo ddau ddiwrnod yn gynharach na'r disgwyl heb ddweud wrth y tenant. | Camgymeriad syml / dim angen unrhyw gamau pellach - nid oedd aelod o staff o fewn y Tîm Gwasanaethu Nwy wedi tynnu'r eiddo oddi ar y Rhestr Gwasanaethu ar gyfer Contractwr Allanol, a olygai fod contractwr wedi mynd i'r eiddo yn gynharach na'r disgwyl.<br><br>Atgoffwyd aelod o staff o'r angen i sicrhau bod rhestrau eiddo sy'n cael eu rhannu â | Do |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | chontractwr allanol yn gywir rhag i hyn ddigwydd eto. | |
| 40 | | Wedi trefnu i wasanaethu'r nwy am 14.3.23 pm ond ddaeth neb draw. Roedd y tenant wedi bod yn yr eiddo ers 10AM yn disgwyl amdanynt. | Camgymeriad Syml / dim angen gweithredu pellach – Yn anffodus doedd y sawl oedd yn trefnu ddim wedi neilltuo'r gwaith i'r peiriannydd, felly nid oedd yn ymwybodol o'r apwyntiad. Ffoniodd y sawl oedd yn trefnu'r gwaith y tenant i ymddiheuro.<br><br>Atgoffwyd aelod o staff o'r angen i fod yn gywir a sicrhau bod gwaith yn cael ei symud i Dabledi Peirianwyr yn ôl yr angen | Do |
| 41 | | Yn anhapus ag ansawdd y gwaith Atgyweirio gyda bwyler newydd a symud Tanc Olew | Materion Gofal Cwsmeriaid - Nid oedd y Contractwr Allanol a wnaeth y gwaith wedi rhoi gwybod i'r tenant na'r Gwasanaeth na ellid cwblhau'r gwaith.<br><br>Cytunwyd i gwblhau gwaith rhwng y tenant a chontractwr allanol. Roedd y tenant yn hapus gyda'r gwaith gorffenedig terfynol.<br><br>Atgoffwyd y Contractwr Allanol o'r angen i drafod unrhyw oedi neu fethiant i gwblhau gwaith gyda'r Gwasanaeth yn y lle cyntaf. | Do |
| 42 | | Peiriannydd Gwasanaethu Nwy heb ddod i'r apwyntiad ar ôl i'r tenant dderbyn llythyr. | Camgymeriad Syml / dim angen unrhyw gamau pellach - roedd aelod o staff o fewn y Tîm Gwasanaethu Nwy wedi nodi bod y tŷ'n wag, felly ni fyddai ar y rhestr ar gyfer Contractwr Allanol, a oedd yn golygu nad oedd y contractwr wedi mynd i'r eiddo. | Do |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Atgoffwyd yr aelod o staff o'r angen i sicrhau bod rhestrau eiddo sy'n cael eu rhannu â chontractwr allanol yn gywir rhag i hyn ddigwydd eto. | |
| 43 | | Tenant wedi derbyn slip galwadau yn dweud bod neb adra drwy'r blwch llythyrau, ond nid oedd yn ymwybodol bod y Gwasanaeth yn galw'r diwrnod hwnnw. | Materion Gofal Cwsmeriaid - Ni anfonwyd cadarnhad o'r apwyntiad at y tenant.<br><br>Atgoffwyd timau sy'n trefnu apwyntiadau o'r angen i sicrhau bod tenantiaid yn ymwybodol o apwyntiadau yn y dyfodol. | Do |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **21 Medi 2023/**<br>**26 Medi 2023** |
| **Pwnc:** | **Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022/2023** |
| **Deilydd (au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones** |
| **Rheolwr Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol a Chwynion**<br>**01248 752588**<br>**dylanowen3@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau** |

## A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

### 1. Argymhellion

Bod y Pwyllgor a'r Pwyllgor Gwaith yn:

- nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2022/23;
- cefnogi'r dasg o weithredu Polisi Enghreifftiol OGCC;
- cefnogi'r dasg o ddatblygu strategaeth hyfforddi;
- cefnogi'r dasg o ddatblygu asesiad anghenion hyfforddi a chyflwyno hyfforddiant addas yn ôl yr angen;
- awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC er mwyn cadarnhau bod y Pwyllgor a'r Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol; a chytuno i weithredu elfennau y cyfeirir atynt yn ei Llythyr Blynyddol;
- i roi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a thrwy hynny roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.

### 2. Cefndir

Ers 2006 mae OGCC wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith a wnaed gan ei swyddfa dros y 12 mis blaenorol.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol ar wahân o berfformiad pob cyngor; y cyfeirir ato fel y llythyr blynyddol.

Mae Llythyr Blynyddol 2022/23, ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), ynghlwm fel **Atodiad 1**.

**3. Y Llythyr Blynyddol**

Mae'r llythyr yn cyfeirio'n bennaf at gwynion gwasanaeth ond mae hefyd yn cynnwys adran ar gwynion o dan y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.

**Y Prif Negeseuon:-**

- Cyflwynwyd 25 o gwynion Gwasanaeth i OGCC, yn erbyn CSYM; gostyngiad o 29 o gwynion yn ystod 2021/2022. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen i swyddfa OGCC ymchwilio i 20 ohonynt
- Ymdriniwyd â 5 o'r cwynion a gyflwynwyd trwy ddatrysiad cynnar

Yn ogystal â'r cwynion a gyflwynwyd i OGCC yn erbyn Gwasanaethau CSYM, mae'r llythyr hefyd yn cyfeirio at gwynion a wneir yn erbyn Cynghorwyr Sir, Tref a Chymuned

- Gwnaed 1 gŵyn Cod Ymddygiad yn erbyn aelod o'r Cyngor Sir ond ni ymchwiliwyd iddi
- Gwnaed 1 gŵyn yn erbyn Cynghorydd Tref/Cymuned yn ystod 2022/23, ond daeth yr ymchwiliad i ben cyn ei ymchwilio iddi.
- Mae'r OGCC wedi datgan bod y Cynghorau Tref/Cymuned a restrir yn Atodiad F wedi'u cynnwys oherwydd bod cwyn wedi'i cau yn ystod 2022/23 (cyfeiriwyd at nifer y cwynion) neu fod cwynion hanesyddol yn eu herbyn o 2021/22 (cyfeirir at hyn a 0).

Mae perfformiad CSYM i'w weld yn y tablau sydd yn y Llythyr Blynyddol.

Yn ei llythyr, mae'r Ombwdsmon yn gwneud y cais canlynol:-

- *"Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn."*

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r cais uchod ac, yn ogystal â hyn, fe'i cyhoeddir i'r holl Aelodau ac i'r cyhoedd. Mae'r Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol wedi dweud wrth yr Ombwdsmon pa ddyddiadau y cynhelir y cyfarfodydd hyn.

- *"Parhau i ymgysylltu â'n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion cywir ac amserol."*

Mae Canllawiau'r Awdurdod Safonau Cwynion (ASC) ' ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â Gweithredu'r Polisi Pryderon a Chwynion yn cynnwys cyngor am hyfforddiant ac yn cyfeirio at yr angen i ddatblygu strategaeth hyfforddi.

Bydd strategaeth hyfforddi yn cael ei datblygu a nodir a gweithredir asesiad o anghenion hyfforddi staff ac Aelodau Etholedig.

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r fersiwn presennol o Bolisi Enghreifftiol OGCC ac yn sicrhau bod ei broses o reoli cwynion yn cydymffurfio â Chanllawiau ASC.

Gellir gweld amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith uchod yn Atodiad 2.

Mae'r Cyngor yn darparu data chwarterol yn ymwneud â chwynion yn unol â'r amserlen a osodir gan yr ASC. Gweler y tabl isod sy'n cadarnhau dyddiad cyflwyno'r ASC a'r dyddiad y cyflwynwyd yr wybodaeth gan y Cyngor.

| Dyddiad Cyflwyno | Y Dyddiad yr anfonwyd y Data gan CSYM |
|---|---|
| 22.07.2022 | 19.07.2022 |
| 21.10.2022 | 20.10.2022 |
| 03.02.2023 | 02.02.2023 |
| 21.05.2023 | 16.05.2023 |

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith.

**4. Gwybodaeth ychwanegol.**

Yn ogystal â'r Llythyr Blynyddol, cyhoeddir gwybodaeth am bryderon, cwynion a chanmoliaethau yn chwarterol ar wefan y Cyngor yn https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cwynion-swyddogol/Ystadegau-cwynion-y-cyngor.aspx

Mae adroddiadau chwarterol hefyd yn cael eu darparu i'r Tîm Arweinyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion, ym mis Medi bob blwyddyn. Mae'r adroddiad ar gyfer 2022/23 wedi'i adrodd i'r Pwyllgor ar 21 Medi 2023.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid oedd unrhyw opsiynau eraill. |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith; ar gais OGCC. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **E – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| F – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys** | Diben y Polisi Cwynion Corfforaethol yw dysgu gwersi pan fydd pethau'n mynd o chwith a gwneud newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau yn ôl yr angen a lle bo hynny'n bosibl. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut:-** | |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae'r ffeithiau a gyflwynir yn cyfrannu at adeiladu gwell gwasanaethau ar gyfer y dyfodol |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| 5 | **Amlinellwch pa effaith y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Mae cwynion ynglŷn â'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol ac ymdrinnir â nhw os cânt eu derbyn.<br>Os derbynnir cwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg, byddant yn cael eu hadrodd yn Adroddiad Safonau'r Gymraeg 2022-23 |

| G – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cymeradwyo'r adroddiad a'i argymhellion. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cymeradwyo'r adroddiad a'i argymhellion. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cymeradwyo'r adroddiad a'i argymhellion. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Caffael** | Ddim yn berthnasol |
| 8 | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi i bob aelod etholedig |

| H - Atodiadau: |
|---|
| Copi o Lythyr Blynyddol 2022/23 |

| I - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Dim |

Ombwdsmon Ombudsman
Cymru · Wales

Gofynnwch am: Cyfathrebu
☎ 01656 641150
Dyddiad: 17 Awst 2023
✉ Cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Cyngh. Llinos Medi
Cyngor Sir Ynys Môn
Trwy E-bost yn unig: llinosmedihuws@anglesey.gov.uk

**Llythyrau Blynyddol 2022/23**

Annwyl Cynghorydd Medi

Mae'n falch gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2022/23) i chi ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymdrin â chwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiant gwasanaeth, cwynion yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r llythyr hwn yn cyd-daro â'm Hadroddiad Blynyddol - "Blwyddyn o newid - blwyddyn o her" - teimlad a fydd, heb os, yn atseinio â chyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae fy swyddfa wedi gweld cynnydd arall yn nifer y bobl sy'n gofyn am ein cymorth - cynydd o 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae fy swyddfa bellach yn derbyn dwywaith nifer yr achosion a gawsom ddegawd yn ôl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyfarfûm â chyrff cyhoeddus ledled Cymru - gan siarad am ein gwaith achosion, ein hargymhellion, a'n pwerau rhagweithiol. Bydd yr hinsawdd bresennol yn parhau i gyflwyno heriau i wasanaethau cyhoeddus, ond rwy'n ddiolchgar am y ffordd gadarnhaol a chynhyrchiol y mae'r awdurdodau lleol wedi cyfathrebu â'm swyddfa.

Y llynedd, cyfeiriwyd 1,020 o gwynion atom ynglŷn ag awdurdodau lleol - gostyngiad o 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn gynnar) mewn 13% o gwynion awdurdodau lleol.

Cawsom lai o gwynion y Cod Ymddygiad yn 22/23 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.  Mae fy rôl yn golygu nad wyf yn gwneud canfyddiadau terfynol am dorri'r Cod Ymddygiad.  Yn lle hynny, pan fydd ymchwiliadau yn canfod y pryderon mwyaf difrifol, caiff y rhain eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau’r awdurdod lleol perthnasol, neu at Banel Dyfarnu Cymru.  Yn 2022/23, gwnaeth yr Ombwdsmon 12 atgyfeiriad o’r fath - gostyngiad i’w groesawu o 20 y llynedd.

**Cefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus**

Er gwaethaf heriau’r llynedd, rydym wedi bwrw ymlaen â’n gwaith gwella rhagweithiol ac wedi lansio proses Ansawdd Gwasanaeth newydd i sicrhau ein bod yn cyflawni’r safonau a ddisgwyliwn.

Y llynedd, dechreuom weithio ar ein hail Ymchwiliad Ehangach ar ein Liwt ein Hun - y tro hwn, yn edrych ar asesiadau gofalwyr o fewn awdurdodau lleol.  Bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn i ddod, ac edrychwn ymlaen at rannu ein canfyddiadau â’r holl awdurdodau lleol – nid dim ond y rhai sy’n rhan o’r ymchwiliad.

Parhaodd yr Awdurdod Safonau Cwynion ei waith â chyrff cyhoeddus yng Nghymru’r llynedd, gyda mwy na 50 o gyrff cyhoeddus bellach yn gweithredu ein polisi enghreifftiol.  Rydym hefyd wedi darparu mwy na 400 o sesiynau hyfforddi ers i ni ddechrau, gydag awdurdodau lleol, ym Medi 2020.

Gwnaethom barhau â’n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion am ail flwyddyn, gyda data bellach yn cael eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn.  Mae’r data hwn yn ein galluogi i weld gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun - er enghraifft, y llynedd, cyfeiriwyd 14% o gwynion Cyngor Sir Ynys Môn at OGCC.

Byddwn yn annog Cyngor Sir Ynys Môn, ac yn benodol, eich Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i ddefnyddio'r data hwn i ddeall eich perfformiad o ran cwynion yn well ac ystyried pa mor dda y mae dulliau ymdrin â chwynion yn dda wedi'i wreiddio ledled yr Awdurdod.

Ymhellach i’r llythyr hwn, a gaf ofyn i’ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i’r Cabinet ac i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn.
- Parhau i ymgysylltu â’n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i’ch staff, gweithredu’r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion cywir ac amserol.

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

**Michelle Morris**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**
cc.Dylan Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn.
Trwy E-bost yn unig: dylanwilliams@ynysmon.gov.uk

Ombwdsmon Ombudsman
Cymru · Wales

**<u>Taflen Ffeithiau</u>**

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| **Awdurdod Lleol** | **Cwynion a Gafwyd** | **Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion** |
|---|---:|---:|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 14 | 0.20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 55 | 0.37 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 60 | 0.33 |
| Cyngor Caerdydd* | 182 | 0.50 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 54 | 0.29 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 52 | 0.72 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 27 | 0.23 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 34 | 0.36 |
| Cyngor Sir y Fflint | 99 | 0.63 |
| Cyngor Gwynedd | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 29 | 0.41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 27 | 0.45 |
| Cyngor Sir Fynwy | 20 | 0.21 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 45 | 0.31 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 40 | 0.26 |
| Cyngor Sir Penfro | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Powys | 55 | 0.42 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 51 | 0.21 |
| Cyngor Abertawe | 71 | 0.29 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 18 | 0.19 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 61 | 0.46 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 71 | 0.52 |
| **Cyfanswm** | **1143** | **0.36** |

* gan gynnwys 17 Rhentu Doeth Cymru

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cwynion a Gafwyd** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 1 | 4% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 0 | 0% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 3 | 12% |
| Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden | 0 | 0% |
| Ymdrin â Chwynion | 6 | 24% |
| Covid19 | 0 | 0% |
| Addysg | 1 | 4% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 1 | 4% |
| Cyllid a Threthiant | 2 | 8% |
| Tai | 4 | 16% |
| Trwyddedu | 0 | 0% |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 5 | 20% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 0 | 0% |
| Amrywiol Eraill | 2 | 8% |
| Cyfanswm | **25** | |

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| Cyngor Sir Ynys Môn | | % rhannu |
|---|---|---|
| Tu hwnt i Awdurdodaeth | 5 | 20% |
| Cynamserol | 4 | 16% |
| Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 11 | 44% |
| Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol* | 5 | 20% |
| Wedi rhoi'r gorau iddi | 0 | 0% |
| Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd | 0 | 0% |
| Adroddiadau eraill a gadarnhawyd* | 0 | 0% |
| Adroddiadau er Budd y Cyhoedd* | 0 | 0% |
| Adroddiadau Diddordeb Arbennig* | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **25** | |



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % o ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 13 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 54 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 7 | 58 | 12% |
| Cyngor Caerdydd | 45 | 159 | 28% |
| Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 7 | 49 | 14% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 13 | 46 | 28% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 2 | 24 | 8% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4 | 33 | 12% |
| Cyngor Sir y Fflint | 15 | 94 | 16% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 41 | 15% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3 | 28 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 2 | 26 | 8% |
| Cyngor Sir Fynwy | 2 | 21 | 10% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 45 | 11% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 4 | 36 | 11% |
| Cyngor Sir Penfro | 2 | 40 | 5% |
| Cyngor Sir Powys | 7 | 55 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 3 | 45 | 7% |
| Cyngor Abertawe | 10 | 76 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 20 | 10% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 9 | 62 | 15% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 4 | 67 | 6% |
| **Cyfanswm** | **160** | **1108** | **14%** |

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

| | | Cyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|
| | Tynnwyd yn ôl | 0 |
| Ymchwiliadau | Wedi rhoi'r gorau iddi | 1 |
| | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | 0 |
| | Dim angen gweithredu | 0 |
| | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | 0 |
| | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | 0 |
| | **Cyfanswm** | **1** |



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

## Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

| | | Ymchwiliadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tynnwyd yn ôl | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Cyfanswm |
| Cyngor Tref Amlwch | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Llanddona | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddyfnan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Rhosybol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2022/23. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun gan boblogaeth pob awdurdod.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Mae'r adroddiad yma wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Rheolwr prosiect tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru oedd Nick Selwyn ac roedd y tîm yn cynnwys Steve Frank, Euros Lake, Matt Brushett, Philippa Dixon a Sara Leahy dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Adroddiad cryno 6

Ein canfyddiadau 9

Argymhellion 12

1 Mae awdurdodau cynllunio'n ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd oherwydd cymhlethdodau'r system gynllunio 14

Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol weithio o fewn fframwaith cynllunio cymhleth ac aml-haen 15

Mae rheoli dylanwadau a disgwyliadau sy'n cystadlu â'i gilydd wrth bennu blaenoriaethau defnydd tir a phenderfynu ar geisiadau'n gallu bod yn anodd i awdurdodau cynllunio 17

Mae rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi gwasanaethau cynllunio ond maent yn pryderu nad yw awdurdodau'n dda am ymgysylltu â hwy a'u cynnwys, a bod ganddynt ddiffyg uchelgais 21

2 Mae capasiti annigonol ac adnoddau sy'n mynd yn llai yn erydu cydnerthedd awdurdodau cynllunio 25

Bu gostyngiad sylweddol yn adnoddau awdurdodau cynllunio 26

Ceir cyfleoedd i gynyddu incwm a lleihau cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau cynllunio 27

Nid yw'r capasiti'n ymestyn yn ddigon pell, ac mae awdurdodau cynllunio'n ei chael yn anodd cyflawni swyddogaethau allweddol, ond dim ond cynnydd cyfyngedig a fu o ran gwella cydnerthedd 32

3 Mae amseroldeb ac ansawdd prosesau penderfynu'n amrywio'n eang ac mae perfformiad o ran rheoli ceisiadau'n wael 36

Mae ffocws prosesau penderfynu pwyllgorau cynllunio'n amrywio'n eang ac mae lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi'n dal i fod yn uchel 37

Mae perfformiad o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio'n wael 39

4 Mae angen gwaith pellach i gyflawni'r agweddau llesiant ar y Ddeddf Cynllunio (Cymru) a Pholisi Cynllunio Cymru 43

Appendices

Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth 49

Atodiad 2 – Y fframwaith cynllunio yng Nghymru 50

Atodiad 3 – Cost net gwasanaethau rheoli datblygu awdurdodau lleol 2017-18 53

Atodiad 4 – Cost net gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol 2017-18 54

Atodiad 5 – Canfyddiadau'r arolwg 55

# Adroddiad cryno

1 Y system gynllunio sy'n rheoli'r defnydd o dir a'r hyn a gaiff ei adeiladu arno, ac fe'i gorfodir gan awdurdodau cynllunio, sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid caniatáu bwrw ymlaen â datblygiad arfaethedig trwy roi neu wrthod caniatâd cynllunio. Rhaid i geisiadau cynllunio gael eu penderfynu yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol[1] oni bai bod rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny. Felly mae cynllunio'n sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir ar yr adeg gywir.

2 Gan yr awdurdod cynllunio lleol y mae'r rôl hollbwysig o ran adnabod pa ddatblygiadau y mae eu hangen ac ymhle; pa ardaloedd y mae angen eu gwarchod neu eu gwella; ac o ran asesu a yw datblygiad arfaethedig yn addas ai peidio. Ceir 25 o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru: y 22 awdurdod unedol a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol dair rôl allweddol: Polisi Cynllunio, Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu – Arddangosyn 1.

### Arddangosyn 1 – rôl awdurdodau cynllunio lleol

Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol rôl allweddol o ran cefnogi a rheoli datblygu sydd o fudd i bawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n ymweld â'r wlad.

**Gwasanaethau Awdurdodau Cynllunio Lleol**

**Polisi Cynllunio**
mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi polisïau cynllunio lleol ac yn nodi sut y caiff tir ei ddefnyddio, gan bennu'r hyn a fydd yn cael ei adeiladu ymhle. Cynlluniau lleol a fabwysiadwyd sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu ledled Cymru a chânt eu datblygu a'u rheoli gan yr awdurdod cynllunio lleol.


**Rheoli Datblygu**
mae angen caniatâd ar y rhan fwyaf o adeiladau newydd neu newidiadau mawr i adeiladau presennol neu i'r amgylchedd lleol cyn y gellir bwrw ymlaen â hwy, a'r awdurdod cynllunio lleol sy'n penderfynu ar y mwyafrif o geisiadau cynllunio.

**Rheoli Adeiladu**
rheoliadau adeiladu yw'r safonau gofynnol ar gyfer dylunio, adeiladu a gwneud addasiadau i fwy neu lai pob adeilad yng Nghymru. Mae rheoli adeiladu'n goruchwylio llawer o'r gwaith hwn ond ni ddarperir y gwasanaethau hyn gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1 Mae Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn nodi polisïau cynllunio lleol ac yn nodi sut y caiff tir ei ddefnyddio, gan bennu'r hyn a fydd yn cael ei adeiladu ymhle. Cynlluniau lleol a fabwysiadwyd sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu ledled Cymru.

Arddangosyn 2 – Y 25 Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

3 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud cyfraniad pwysig i gefnogi datblygiad cartrefi newydd, gwarchod asedau naturiol, creu cyfleoedd cyflogaeth, gorfodi safonau dylunio uchel a gwella seilwaith lleol. Felly mae penderfyniadau awdurdodau cynllunio lleol yn effeithio'n uniongyrchol ar bob un ohonom, ein llesiant a'n hansawdd bywyd.

4 Mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddeddf Cynllunio (Cymru) newydd (y 'Ddeddf') yn 2015 sy'n ceisio sicrhau bod y system gynllunio'n 'deg, yn gadarn ac yn hwyluso datblygiadau' trwy fynd i'r afael â phum amcan:

a fframwaith mwy modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio – mae'r Ddeddf yn cyflwyno pwerau i ganiatáu i geisiadau cynllunio, o dan amgylchiadau penodol, gael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru;

b atgyfnerthu'r dull gweithredu seiliedig ar gynllun – mae'r Ddeddf yn cyflwyno sail gyfreithiol dros baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol;

c gwella cydnerthedd – mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion orchymyn i awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda'i gilydd a bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu huno;

ch rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu a'i gwella - bydd y Ddeddf yn cyflwyno gweithdrefn cyn ymgeisio statudol ar gyfer categorïau penodol o geisiadau cynllunio; ac

d galluogi gweithdrefnau gorfodi ac apelio effeithiol – sicrhau bod camau prydlon ac ystyrlon yn cael eu cymryd pan fydd rheolaethau cynllunio'n cael eu torri ac er mwyn gwneud y system apelio yn fwy tryloyw ac effeithlon.

5 Mae ein hadroddiad yn ystyried cynnydd awdurdodau cynllunio lleol o ran cyflawni eu cyfrifoldebau newydd ac i ba raddau y maent yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym hefyd yn ystyried pa mor effeithlon ac effeithiol yw'r 'system cynllunio lleol', gan ganolbwyntio ar eu perfformiad, eu hincwm a'u gwariant i benderfynu pa mor gydnerth yw gwasanaethau. Yn olaf, rydym hefyd yn bwrw golwg ar brosesau penderfynu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Caiff ein dulliau adolygu eu nodi yn Atodiad 1.

# Ein canfyddiadau

6 Mae'r system gynllunio wedi cael ei diwygio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a phenllanw'r cyfan oedd cyflwyno Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru[2]. Yr ysgogydd ar gyfer y newidiadau hyn fu nod Llywodraeth Cymru i helpu cynllunwyr i ymateb i'r amgylchiadau newidiol y mae'r drefn rheoleiddio tir yn gweithredu ynddynt a mynd i'r afael â phryderon hirsefydlog ynghylch effeithlonrwydd y system gynllunio gymhleth – gan gynnwys mynd i'r afael ag oedi cyn paratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau a chynyddu tryloywder. Caiff penderfyniadau ynghylch defnyddio a datblygu tir eu gwneud gan gyfeirio at gynlluniau sy'n weithredol am 15 i 20 mlynedd, a hwythau'n cael eu diweddaru bob rhyw bum mlynedd, ond buan iawn y gall y rhain fod yn anghyson â newid economaidd a chymdeithasol cyflym.

7 Fe wnaeth y dinasyddion a arolygwyd gennym ac y siaradon ni gyda hwy ddweud wrthym nad ydynt yn credu bod eu hawdurdodau cynllunio'n ddigon uchelgeisiol i helpu i gyflawni'r gwelliannau y mae eu hangen yn eu cymuned. Mae pobl y siaradon ni gyda hwy yn teimlo rhwystredigaeth bod cynllunwyr yn canolbwyntio'n ormodol ar geisiadau unigol ac yn peidio â chanolbwyntio digon ar roi anogaeth a chefnogaeth i greu cymuned fwy ffyniannus a chynaliadwy. Yn ogystal â dymuno gweld awdurdodau cynllunio lleol yn gwella'u harfer ac yn dod yn fwy arloesol, mae dinasyddion yn pryderu nad oes ymgysylltu effeithiol â hwy ac nad ydynt yn cael eu cynnwys yn effeithiol mewn trafodaethau ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn eu hardal, nac mewn prosesau i benderfynu ar geisiadau lleol. Nododd rhai dinasyddion fod gan ddatblygwr yr adnoddau i 'chwarae'r system', a bod y system ar y cyfan yn cael effaith anghymesur o ran dwyn mwy o fanteision i ddatblygwyr na chymunedau.

8 Nid yw canfyddiad negyddol dinasyddion yn cael ei helpu gan ansawdd gwael yr wybodaeth a ddarperir yn aml gan awdurdodau cynllunio lleol i helpu i egluro'r hyn y maent yn ei wneud, ble a phryd. Drosodd a throsodd, dywedodd ymatebwyr i'n harolwg wrthym eu bod o'r farn bod gwybodaeth yn anhygyrch ac nad yw'n ddefnyddiol. Dywedodd dros hanner y rhai a ymatebodd i'n harolwg nad yw'n hawdd cael mynediad at wybodaeth am

2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'r fersiwn gyfredol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, wedi'i bwriadu i 'helpu i sicrhau bod y penderfyniadau polisi a wneir yng Nghymru, boed fawr neu fach, yn gwella bywydau cenedlaethau heddiw ac yfory. Bydd yn cefnogi newid y ffordd rydym yn byw a gweithio, ac adeiladau ac amgylchedd Cymru, heddiw, gan greu amgylchedd gwell i ddiwallu anghenion heddiw a'r dyfodol'.

gynllunio, a dywedodd 67% nad yw awdurdodau cynllunio lleol yn dda am ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch cynigion cynllunio a'u goblygiadau posibl. Ar y cyfan, mae llawer o ddinasyddion a oedd yn rhan o'n harolwg yn ystyried bod cynllunio lleol yn system sy'n achosi i bethau ddigwydd mewn cymunedau nad ydynt hwy'n gallu dylanwadu arnynt na'u rheoli. Ceir datgysylltiad cynyddol rhwng yr hyn y mae ar bobl ei eisiau gan eu hawdurdod cynllunio a'r hyn y mae eu hawdurdod cynllunio'n ei gyflawni.

9 Er gwaethaf y ddeddfwriaeth newydd a mwy o ddisgwyliad am y cyfraniad y gall cynllunio ei wneud i gyflawni dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae awdurdodau cynllunio lleol wedi profi gostyngiad sylweddol mewn capasiti ac maent yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Dengys ein dadansoddiad fod yr holl wasanaethau cynllunio – polisi, datblygu a rheoli adeiladu – wedi profi toriadau sylweddol mewn gwariant ers 2008-09 gyda chyllidebau wedi gostwng 50% mewn termau real, gan ystyried chwyddiant. Mae gwariant net wedi gostwng o £45.1 miliwn yn 2008-09 i £22.8 miliwn yn 2017-18. I gyllidebau rheoli datblygu y bu'r gostyngiad mwyaf lle mae gwariant wedi gostwng 59%.

10 Gyda llai o arian i gyllido gwasanaethau, nid oes digon o swyddogion cynllunio i gyflawni'r gwaith ac mae sgiliau'n mynd yn llai mewn meysydd gwaith allweddol. Mae nifer yr hyfforddeion sy'n ymuno â gwasanaethau cynllunio wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf sy'n codi pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau. Er gwaethaf y gostyngiadau hyn mewn cyllid, mae awdurdodau'n dal i ddarparu cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau am nad yw'r taliadau a godir gan awdurdodau cynllunio lleol am weinyddu a chymeradwyo ceisiadau cynllunio a gwaith adeiladu'n adlewyrchu cost darparu'r gwasanaethau hyn.

11 Dros y pedair blynedd ddiwethaf mae nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd i awdurdodau cynllunio lleol wedi aros yn sefydlog, sef rhyw 24,000 y flwyddyn, ond mae llai o geisiadau cynllunio'n cael eu prosesu ar amser. Hefyd, mae'r amser a gymer i ymchwilio i gwynion ynghylch datblygu'n amrywio ledled Cymru. Mae'r awdurdodau cynllunio sy'n perfformio orau yn ymdrin â materion gorfodi yn gyflym iawn, yn aml o fewn wythnos. Gall y rhai sydd â'r perfformiad gwaethaf gymryd dros flwyddyn. Ar gyfartaledd mae'n cymryd dros 37 wythnos i awdurdodau ymchwilio i achos gorfodi ac ymdrin ag ef.

12 Mae pwyllgorau cynllunio'n cymryd cyfrifoldeb am benderfynu ynghylch ceisiadau mwy nad ydynt yn cael eu dirprwyo i swyddogion. Mae penderfyniadau'n seiliedig ar argymhellion swyddogion y mae angen i aelodau pwyllgorau eu hystyried cyn dod i benderfyniad. Mae cyfran y penderfyniadau a wneir gan aelodau yn groes i farn swyddogion yn dal i fod yn uchel, gydag ychydig yn llai na 9% o'r argymhellion yn cael eu gwrthdroi yn 2017-18. Lle mae awdurdod wedi gwrthod cais cynllunio yna mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Canfuom fod ychydig dros 37% o'r apeliadau gan ymgeiswyr cynllunio'n cael eu cadarnhau, gyda phenderfyniad gwreiddiol yr awdurdod yn cael ei gwrthdroi.

13 Nid yw'n syndod dod ar draws pryderon ar bob ochr ynghylch penderfyniadau cynllunio. Mewn nifer o achosion bydd rhai sydd ar eu colled ac sy'n dioddef effeithiau anffafriol, ac mae'n aml yn anodd i bwyllgorau cynllunio, hyd yn oed gydag ôl-ddoethineb, farnu a wnaed y penderfyniad 'cywir'. Mae'n anorfod bod rhai o'r ffactorau y mae angen eu hystyried yn oddrychol; bydd cynllunio wastad yn fwy nac ymarfer ticio blychau syml, gan alw'n aml am grebwyll a dychymyg. Felly bydd angen i awdurdod cynllunio lleol effeithiol fod â gweledigaeth glir ynglŷn â sut y byddant yn gweithio yn y tymor canolig a hir i wella'u cymunedau. Gall bod â gweledigaeth glir am y posibiliadau yn y dyfodol ysbrydoli a chymell pobl i ddymuno bod y gorau.

14 Canfuom nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol wedi diffinio'n glir sut y mae eu gwasanaethau cynllunio'n cyfrannu at lesiant pobl a chymunedau. Mae ein hadolygiad yn dod i'r casgliad bod gwasanaethau cynllunio'n allweddol i helpu i gyflawni dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ond ar hyn o bryd bod cymhlethdod y system gynllunio, capasiti sy'n mynd yn llai a phrosesau penderfynu amrywiol, yn golygu bod gan awdurdodau lleol dipyn o ffordd i fynd i wneud y newid sylweddol y mae ei angen.

15 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad canlynol: **Nid yw Awdurdodau Cynllunio yn ddigon cydnerth i gyflawni gwelliannau hirdymor oherwydd eu capasiti cyfyngedig a her rheoli system gymhleth.**

# Argymhellion

Our recommendations are set out in the table below.

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A1** | Mae **Rhan 1** o'r adroddiad yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio gan ddangos faint o her ydyw i awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn dewisiadau a phenderfyniadau. Er mwyn gwella'r modd y mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys a pherchnogaeth ar benderfyniadau rydym yn argymell fel a ganlyn:<br>• bod awdurdodau cynllunio lleol:<br>– yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben;<br>– yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio; ac<br>– yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar amseroedd priodol, gan gylchdroi cyfarfodydd fel eu bod yn cael eu cynnal mewn ardaloedd y byddai datblygiadau arfaethedig yn digwydd ynddynt, gweddarlledu cyfarfodydd a darparu cyfleoedd i randdeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgorau.<br>• bod Llywodraeth Cymru:<br>– yn adolygu Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 ac yn diweddaru'r safonau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol. |
| **A2** | Mae **Rhan 2** o'r adroddiad yn amlygu bod awdurdodau cynllunio lleol wedi profi gostyngiadau sylweddol mewn cyllid a'u bod yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. I wella cydnerthedd, rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol:<br>• yn adolygu eu cyfundrefnau ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn ac yn gwneud y gwasanaeth yn hunangyllidol; ac<br>• yn gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i:<br>– integreiddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn arbenigedd;<br>– datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd; a<br>– datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar sail ranbarthol ac mewn partneriaeth gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill. |

## Argymhellion

**A3** Mae **Rhan** 2 o'r adroddiad yn amlygu nad yw cost gwasanaethau rheoli datblygu'n cael ei hadlewyrchu yn y taliadau a godir am y gwasanaethau hyn a bod cynnydd i ddatblygu ymatebion rhanbarthol i gryfhau cydnerthedd wedi bod yn araf. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:

- yn adolygu ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn; ac
- yn ystyried sut i ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) i gefnogi a gwella capasiti a chydnerthedd awdurdodau cynllunio lleol.

**A4** Mae **Rhan 3** o'r adroddiad yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau penderfynu awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn mesurau cenedlaethol. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy:

- adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod;
- diwygio templedi adroddiadau i sicrhau eu bod yn eglur a diamwys i helpu i roi arweiniad mewn prosesau penderfynu a lleihau lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi; a
- gorfodi safonau ymddygiad awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd.

**A5** Mae **Rhan 4** o'r adroddiad yn nodi rôl ganolog cynllunio i gyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol:

- yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol eglur sy'n dangos sut y mae cynllunio'n cyfrannu at wella llesiant;
- yn darparu hyfforddiant a chymorth llesant rheolaidd a phriodol ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach;
- yn pennu mesurau priodol ar gyfer y modd y maent yn gweinyddu'r system gynllunio ac effaith eu penderfyniadau cynllunio ar lesiant; ac
- yn cyhoeddi'r mesurau perfformiad hyn yn flynyddol i ffurfio barn ynglŷn ag effaith awdurdodau cynllunio ar lesiant.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi **adroddiad cryno** a **set ddata agored** sy'n crynhoi ein dadansoddiad o ddata perfformiad a pheth canfyddiadau o'n arolwg

Rhan 1

# Mae awdurdodau cynllunio’n ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng galwadau sy’n cystadlu â’i gilydd oherwydd cymhlethdodau’r system gynllunio



1.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio. Rydym yn ystyried y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol a sut y caiff hwn ei weithredu ar lefel leol gan nodi gwahanol gyfrifoldebau awdurdodau cynllunio lleol, a heriau ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid a'u cynnwys yn fwy effeithiol. Yn olaf, rydym yn nodi un o'r negeseuon cryfaf o'n hadolygiad – bod angen i awdurdodau cynllunio fod yn fwy uchelgeisiol a gweledigaethol.

## Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol weithio o fewn fframwaith cynllunio cymhleth ac aml-haen

1.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio'r system gynllunio fel system sy'n gyfrifol am reoli 'datblygu a defnydd tir er budd y cyhoedd, gan roi blaenoriaeth i fudd cyfunol tymor hir, gan gyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru'. Mae system gynllunio sy'n gweithio'n dda'n hanfodol i ddatblygu cynaliadwy a chreu lleoedd cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r system gynllunio'n gymhleth iawn gan ei bod yn seiliedig ar system gydgysylltiedig cynlluniau, polisïau, blaenoriaethau a phrosesau penderfynu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i lywodraethu defnydd tir.

1.3 Mae Arddangosyn 3 yn nodi'r agweddau allweddol ar y system gydgysylltiedig a chymhleth hon (mae'r manylion llawnach i'w cael yn Atodiad 2). Yn gryno, mae'r Fframwaith Cynllunio yng Nghymru'n cwmpasu:

a **Cenedlaethol** – ar lefel genedlaethol, caiff deddfwriaeth ei drafftio gan Lywodraeth Cymru, ac mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu arni ac yn ei mabwysiadu. Y ddeddfwriaeth gynllunio fwyaf diweddar yw Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Polisi Cynllunio Cymru sy'n creu'r cysylltiad rhwng deddfwriaeth[3] a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru – a ategir gan nodiadau cyngor technegol, cylchlythyrau a llythyrau gweinidogol – yn nodi'r polisi y mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gydymffurfio ag ef.


b **Rhanbarthol** – Cafodd Cynlluniau Datblygu Strategol eu cyflwyno'n ddiweddar ac maent yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddatblygu cynlluniau rhanbarthol sy'n cwmpasu ardaloedd nifer o awdurdodau lleol. Araf fu'r cynnydd o ran datblygu cynlluniau rhanbarthol hyd yn hyn.

3 Y darnau allweddol eraill o ddeddfwriaeth yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Cyflwynwyd y rhain gan Lywodraeth y DU.

c **Lleol** – islaw'r fframwaith rhanbarthol newydd ceir y Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r rhain yn pennu'r cyd-destun ar gyfer blaenoriaethau a gweithgarwch rheoli datblygu yn ardal awdurdod cynllunio lleol yn y dyfodol. Ategir Cynlluniau Datblygu Lleol gan bolisïau Rheoli Datblygu, canllawiau cynllunio atodol a chynlluniau lleol is-ardal, y cyfeirir yn aml atynt fel 'Cynlluniau Lleoedd'. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu'r fframwaith polisi lleol ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.

## Arddangosyn 3 – y fframwaith cynllunio yng Nghymru

Mae cynllunio yng Nghymru'n gymhleth gan ei fod yn seiliedig ar system gydgysylltiedig cynlluniau, polisïau, blaenoriaethau a phrosesau penderfynu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

1.4 Gall llywio datblygiad posibl neu gais trwy'r gwahanol haenau hyn fod yn gymhleth. Nid yw'n hawdd adnabod pa gynlluniau sy'n rheoli'r datblygiad, pa ganllawiau sy'n gymwys ac o ble y dylid ceisio awdurdod gan bod nifer o sefydliadau'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a bod gan bob un o'r rhain wahanol haenau o gyfrifoldeb. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol weithio o fewn y fframwaith polisi cynllunio hwn, gan gydymffurfio â'r canllawiau a'r cyfarwyddebau a bennir gan Lywodraeth Cymru.

## Mae rheoli dylanwadau a disgwyliadau sy'n cystadlu â'i gilydd wrth bennu blaenoriaethau defnydd tir a phenderfynu ar geisiadau'n gallu bod yn anodd i awdurdodau cynllunio

1.5 Mae natur aml-haen a chymhleth y system hon yn effeithio'n gynyddol ar awdurdodau cynlluniau lleol mewn nifer o ffyrdd pwysig. Gall mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol fod yn broses gostus. Yn 2015 fe amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod costau cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol rhwng £1.1 a £2.2 miliwn[4]. Gall mabwysiadu cynllun fynd â llawer o amser. Er enghraifft, dywedodd un rheolwr polisi cynllunio wrthym fod ei awdurdod ef wedi gorfod cwblhau 872 o gamau gweithredu ar wahân dros amryw gamau'r cytundeb cyflawni i gael cymeradwyaeth i'r Cynllun Datblygu Lleol[5]. O ganlyniad, nid yw'n anarferol bod mabwysiadu cynllun yn cymryd nifer o flynyddoedd[6].

1.6 Gall y broses o fabwysiadu cynllun datblygu, a thrwy estyniad o sefydlu'r polisïau a'r trefniadau penderfynu i oruchwylio gweithgarwch rheoli datblygu, fod yn ddadleuol hefyd. Gan bod y polisi cynllunio'n penderfynu pa fath o ddatblygu y caniateir iddo ddigwydd, ble a phryd, mae'n ennyn beirniadaeth a safbwyntiau croes i'w gilydd. Wrth bennu polisïau lleol, mae angen i awdurdodau cynllunio daro cydbwysedd rhwng pwysau sy'n gwrthdaro â'i gilydd gan ymgeiswyr, cymunedau, grwpiau buddiant, busnesau, grwpiau lobïo a phreswylwyr. Rhaid iddynt hefyd ystyried anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

4 Gweler y crynodeb o dystiolaeth ymchwil **Crynodeb o Fil Cynllunio (Cymru) 2015 gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol**.

5 Gweler enghraifft o'r camau yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol yng Nghaerdydd **Y broses o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol**.

6 Er enghraifft, tynnwyd Cynllun Datblygu Lleol cyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ôl ar gam yr archwiliad yn 2012 a chyflwynodd y Cyngor yr ail Gynllun adneuo drafft ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ym mis Ebrill 2018.

1.7 Hefyd, mae ar ddatblygwyr eisiau gwasanaethau rheoli datblygu cyson, amserol a phroffesiynol sy’n lleihau oedi ac yn cefnogi eu gweithgarwch mewn modd rhagweithiol. Mae gwasanaeth rheoli datblygu effeithiol yn hollbwysig iddynt gan eu bod yn aml yn cael benthyg symiau sylweddol o arian i gyllido datblygiadau, ac felly am i awdurdodau cynllunio lleol ddatrys materion yn gyflym ac yn derfynol i leihau eu colledion posibl a chynyddu elw. Hefyd, gall y tensiynau a achosir gan dirfeddianwyr lluosog, yr amryw fuddiannau mewn datblygiad a’r pwysau ar awdurdodau cynllunio lleol i agor cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu fod yn sylweddol. Gall gwerth tir sydd â chaniatâd cynllunio gynyddu’n aruthrol ac felly mae’r pwysau ar awdurdodau cynllunio lleol i roi caniatâd cynllunio’n sylweddol.

1.8 Mewn oes o alw cynyddol am dir i’w ddatblygu, ceir cwestiynau’n aml am ddylanwad datblygwyr, yn enwedig y rhai ag adnoddau mawr, y tybir eu bod yn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio. Mae’r diwydiant datblygu wedi’i drefnu’n dda ac yn arbenigol, fel y mae nifer cynyddol o grwpiau cadwraeth a grwpiau buddiant sy’n dod yn fwyfwy medrus a pherswadiol wrth gyfleu eu dadl. Ac er bod y cyhoedd yn deall pwysigrwydd datblygiadau newydd a’r angen amdanynt, maent hefyd yn rhoi gwerth ar gadwraeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol.

1.9 O ganlyniad, nid yw’n beth anarferol gweld cymunedau a grwpiau lobïo’n gwrthwynebu prosiectau tai newydd neu brosiectau seilwaith ar raddfa fawr. Mae Arddangosyn 4 yn crynhoi’r gwahanol flaenoriaethau i aelodau o bwyllgorau cynllunio, swyddogion cynllunio a’r cyhoedd. Er bod rhyw gydberthynas rhwng pob grŵp o ymatebwyr, roedd dinasyddion yn rhoi mwy o flaenoriaeth i gadwraeth a gwarchod na datblygiadau newydd.

Arddangosyn 4 – y prif flaenoriaethau datblygu i uwch swyddogion cynllunio, aelodau o bwyllgorau a dinasyddion

Ceir gwahaniaethau rhwng awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd lle mae blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn y cwestiwn.

| 5 prif flaenoriaeth Penaethiaid Cynllunio | 5 prif flaenoriaeth aelodau o bwyllgorau | 5 prif flaenoriaeth aelodau'r cyhoedd |
|---|---|---|
| 1 Cynyddu argaeledd tai | 1 Gwella seilwaith – ffyrdd, rheilffyrdd, beicio, band eang, ynni | 1 Gwella seilwaith – ffyrdd, rheilffyrdd, beicio, band eang, ynni |
| 2 Creu swyddi newydd a diogelu rhai presennol | 2 Cynyddu argaeledd tai | 2 Cadwraeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol |
| 3 Adfywio a gwella trefi a phentrefi presennol | 3 Adfywio a gwella trefi a phentrefi presennol | 3 Creu swyddi newydd a diogelu rhai presennol |
| 4 Gwella seilwaith – ffyrdd, rheilffyrdd, beicio, band eang, ynni | 4 Cadwraeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol | 4 Gwarchod a chadw ein cartrefi, pentrefi a chymunedau presennol |
| 5 Cadwraeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol | 5 Creu swyddi newydd a diogelu rhai presennol | 5 Gwella'r ddarpariaeth addysg |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg o aelodau pwyllgorau cynllunio, uwch swyddogion cynllunio, a dinasyddion, Ionawr 2019.

1.10 Mae ein gwaith maes a'n harolygon yn amlygu canfyddiad cynyddol ymhlith y cyhoedd am y newid parhaus yng nghydbwysedd y dylanwad (a'r grym) rhwng cynllunwyr a datblygwyr. Caiff dylanwad datblygwyr ei ysgogi'n rhannol gan y ffaith bod angen i awdurdodau cynllunio lleol roi cymorth i gyrraedd targedau cenedlaethol (megis targed Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy[7] rhwng mis Mai 2016 a mis Mai 2021) a chan botensial cynllunio i ysgogi twf economaidd, creu swyddi newydd a gwarchod swyddi presennol.

1.11 Dywedodd uwch swyddogion cynllunio ac aelodau o bwyllgorau cynllunio wrthym am y pwysau arnynt i beidio â gosod gormod o gyfyngiadau ar ddatblygwyr. Canfuom fod canfyddiad hefyd bod datblygwyr yn 'prynu' caniatâd cynllunio trwy gytundebau Adran 106[8] a thalu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol[9]. Nid yw hyn yn newydd ac mae'n un o symptomau dylanwad tybiedig lobïo proffesiynol a buddiannau pwerus. Mae sylwadau yn ein harolwg o'r cyhoedd yn cadarnhau hyn: 'Yn fy mhrofiad i mae datblygwyr ar y cyfan yn cael eu ffordd a diwedd y gân yw'r geiniog; nid fy mod yn awgrymu bod y broses yn llygredig, dim ond bod datblygwyr fel arfer yn meddu ar yr adnoddau i brocio'r awdurdod i gymeradwyo eu cynlluniau weithiau yn wyneb gwrthwynebiad lleol sydd heb lawer o adnoddau'.

7 **www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=4000&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings#C433962**

8 Gall awdurdod cynllunio lleol a datblygwr ymrwymo i gytundeb cyfreithiol i ddarparu seilwaith a gwasanaethau ar neu oddi ar safle'r datblygiad lle nad yw hyn yn bosibl trwy amodau cynllunio. Mae'r cytundeb hwn, a elwir hefyd yn gytundeb Adran 106, yn fecanwaith cyflawni ar gyfer y materion sy'n angenrheidiol i wneud datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. Mae cytundebau cynllunio wedi dod yn fwyfwy pwysig i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys priffyrdd, cyfleusterau hamdden, addysg, iechyd a thai fforddiadwy.

9 Tâl cynllunio yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 yng Nghymru a Lloegr i helpu i ddarparu seilwaith i gefnogi datblygiad ardal. Gall datblygiad fod yn agored i dâl dan yr Ardoll Seilwaith Cymunedol os yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi dewis codi tâl yn ei ardal. Gall y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd sy'n creu arwynebedd llawr ychwanegol net o 100 metr sgwâr neu fwy, neu sy'n creu annedd newydd, fod yn agored i'r ardoll. Ar hyn o bryd dim ond tri awdurdod cynllunio lleol sy'n defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

## Mae rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi gwasanaethau cynllunio ond maent yn pryderu nad yw awdurdodau'n dda am ymgysylltu â hwy a'u cynnwys, a bod ganddynt ddiffyg uchelgais

1.12 Er mwyn sicrhau tegwch, mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfleu sut a pham y gwneir penderfyniadau cynllunio, a sut y gall y cyhoedd fod yn rhan o'r broses. Ond canfuom fod y cyhoedd yn aml yn llai ymwybodol ble i gael gafael ar wybodaeth a sut y mae'r 'system' yn gweithio. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o gymhlethdod y prosesau polisi cynllunio a rheoli datblygu. Ond mae hefyd yn adlewyrchu pa mor dda y mae awdurdodau cynllunio lleol yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd, yn eu hysbysu ac yn eu cynnwys.

1.13 Mae awdurdodau cynllunio'n fwyfwy ymwybodol o'r angen i gryfhau gweithgarwch ymgysylltu a chynnwys, yn enwedig yng ngwaith pwyllgorau cynllunio. Yn gadarnhaol, mae tri awdurdod ar hugain yn darparu gwybodaeth ar-lein am geisiadau cynllunio (dim ond Blaenau Gwent ac Ynys Môn sydd ddim) ac mae gan 22 swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i ymgeiswyr (Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion a Gwynedd yw'r eithriadau)[10].

1.14 Canfuom hefyd fod awdurdodau cynllunio'n annog y cyhoedd i siarad yng nghyfarfodydd pwyllgorau cynllunio ac yn hybu'r arfer o'u gwe-ddarlledu. Fodd bynnag, er bod 24 o'r 25 pwyllgor cynllunio'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y pwyllgor (dim ond Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n peidio â gwneud hynny), dim ond 11 o'r 25 o bwyllgorau cynllunio sy'n gwe-ddarlledu cyfarfodydd[11]. Mae hefyd yn wir bod mynediad cyhoeddus at gyfarfodydd gormod o bwyllgorau cynllunio'n dal i fod yn gyfyngedig i'r rhai sy'n rhydd i fod yn bresennol yn ystod y dydd ac ychydig sy'n cynnal cyfarfodydd yn y lleoliadau y mae'r ceisiadau cynllunio'n ymwneud â hwy. Gall hyn arwain at bresenoldeb a diddordeb cyfyngedig gan y cyhoedd yng ngwaith awdurdodau cynllunio lleol.

10 **https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/planning-performance-framework-table-oct-2017-sep-2018.xlsx**

11 **https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/planning-performance-framework-table-oct-2017-sep-2018.xlsx**

1.15 Er enghraifft, dywedodd un dinesydd a ymatebodd i'n harolwg fod 'hyder y cyhoedd yn yr awdurdod cynllunio lleol yn cael ei danseilio'n ddifrifol gan ddiffyg tryloywder ac ymgynghori. Nid wneir nemor ddim i gynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau ynghylch cynllunio yn y dyfodol ac mae'r mater yn cael ei wleidyddoli'n fwyfwy'. Daeth ymatebydd arall i'r casgliad canlynol: 'nid yw beth bynnag y mae'r adran gynllunio'n ei wneud yn arwain at wneud fy nhref yn lle harddach na hapusach. Nid yw fy nghymuned erioed wedi ymddangos fel pe bai wedi'i phegynnu'n fwy, fel pe bai'n fwy ynysig ac yn fwy anghysurus â hi ei hun, ac nid yw'r ffordd y caiff ein lleoedd byw eu dylunio'n lleddfu pethau'.

1.16 Yn ddealladwy, mae'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio a rheoli datblygu yn deall yn well sut y mae'r system yn gweithio. Ond hyd yn oed yma mae ein canfyddiadau'n amlygu pryderon ynghylch ymgysylltu a chynnwys. Fe wnaeth dinasyddion a sefydliadau a arolygwyd ac a gyfwelwyd gennym sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio'n rheolaidd sylwadau ynghylch anawsterau awdurdodau cynllunio o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch cynigion cynllunio a'u goblygiadau posibl. Mae cyfathrebu'n aml yn seiliedig ar ddulliau traddodiadol megis hysbysebion yn y wasg leol, danfon llythyrau a gosod hysbysiadau ar bolion lamp, sy'n aml yn cael eu rhagnodi mewn canllawiau[12]. Nid yw'r rhain o anghenraid yn gyson â'r modd y mae llawer o ddinasyddion a rhanddeiliaid yn cael gwybodaeth yn yr oes ddigidol ac yn oes y ffonau clyfar.

1.17 Nododd dros hanner y dinasyddion a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn anfodlon ar eu hawdurdod cynllunio lleol o ran sut y gwnaethant ymdrin â sylwadau a gyflwynwyd ganddynt fel rhan o fabwysiadu'r cynllun datblygu, ac roedd traean yn anhapus gyda'r ffordd yr oedd awdurdodau wedi ymdrin â'u sylwadau ar geisiadau cynllunio eraill a oedd yn effeithio ar eu hamgylchedd lleol, eu cymuned leol neu eu cartref. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd i'n harolwg cyhoeddus, 'yn ôl eu natur, nid yw cynllunwyr yn gyfathrebwyr da. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl hŷn yn berchen ar gyfrifiadur, felly nid ydynt yn gallu gwirio sut y mae ceisiadau cynllunio sy'n effeithio arnynt hwy'n mynd rhagddynt... Mae angen i gynllunwyr uwchsgilio'u hymdrechion cyfathrebu'. Yn yr un modd, dywedodd ymatebydd arall, 'Fe gnociais ar 27 o dai ac nid oedd yr un deiliad tŷ'n gyfarwydd â'r ardaloedd ymgeisiol, yn ymwybodol o'r newid defnydd arfaethedig neu'n ymwybodol y gallent wrthwynebu'. Rydym yn cydnabod yr her y mae awdurdodau cynllunio lleol yn ei hwynebu o ran cyfathrebu gyda dinasyddion a'u cynnwys. Nid oes un ffordd gywir o wneud hyn ac mae angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr ystod lawn o opsiynau ar gyfer cynnwys sydd ar gael iddynt.

12 Mae Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 yn nodi'r gofyniad lleiaf o ran ymgysylltu y mae'n rhaid i awdurdod cynllunio lleol ei wneud.

1.18 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cyflwyno cysyniad Cynlluniau Lleoedd fel elfen allweddol i bennu defnydd, cadwraeth a datblygiad tir ar lefelau lleol iawn. Yng Nghymru, mae Cynlluniau Lleoedd yn wahanol i Loegr lle mae eu cynlluniau cyfatebol – Cynlluniau Cymdogaeth – yn ystyriaethau perthnasol ac yn rhan o fframwaith ehangach Cynlluniau Lleol. Mae Cynlluniau Lleoedd yn cael eu cyflwyno fesul tipyn gydag enghreifftiau da'n bodoli yn Aberhonddu[13], Yr Wyddgrug[14] ac Eryri[15]. Mae canllawiau o ansawdd da wedi cael eu datblygu ar gyfer Cynllunio Lleoedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog[16] ar sut i gynnwys rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynlluniau a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Ceir tystiolaeth dda sy'n dangos sut y mae hyn wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gwblhau eu dau Gynllun Lle cyntaf yng Nghrucywel a'r Gelli Gandryll, gyda chynnydd da'n cael ei wneud ar Gynlluniau Lleoedd newydd yn Aberhonddu a Thalgarth hefyd.

1.19 Er bod angen i awdurdodau cynllunio lleol daro cydbwysedd rhwng galwadau a dylanwadu sy'n cystadlu â'i gilydd, canfu ein gwaith maes a'n harolygon rai negeseuon cyson ynglŷn â ble y dylai dewisiadau a phenderfyniadau cynllunio orwedd. Yn bwysig, mae dinasyddion a chyrff sy'n gweithio'n gyson o fewn y system gynllunio'n cydnabod yr angen i gynllunio gadw ffocws lleol, ac awdurdodau cynllunio lleol sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni hyn.

1.20 Er bod atebolrwydd lleol yn cael ei werthfawrogi, mae canfyddiadau ein harolwg hefyd yn dangos bod cefnogaeth i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag awdurdodau cynllunio lleol ac i Lywodraeth y DU fod â mwy o ddylanwad a rheolaeth ar brosiectau datblygu mwy o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'r dull hwn yn gyson â Deddf 2015 sy'n cyflwyno proses gydsynio newydd ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol[17].

1.21 Er bod arnynt eisiau gweld penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud yn bennaf gan lywodraeth ar y lefel isaf bosibl, mae adborth hefyd yn dangos yn gyson nad yw defnyddwyr a buddiolwyr y system gynllunio'n credu bod awdurdodau cynllunio lleol yn ddigon uchelgeisiol i helpu i gyflawni'r gwelliannau y mae eu hangen yn eu cymuned. Mae dinasyddion yn teimlo rhwystredigaeth bod cynllunwyr yn canolbwyntio gormod ar geisiadau unigol ac yn peidio â chanolbwyntio digon ar roi anogaeth a chefnogaeth i greu cymuned fwy ffyniannus a chynaliadwy – Arddangosyn 5.

13 Gweler **Cynlluniau Lleoedd Aberhonddu**

14 Gweler **Cynllun Tref yr Wyddgrug**

15 Gweler **Cynllun Lle Partneriaeth Eryri**

16 Gweler **beacons-npa.gov.uk/strategy-and-policy/place-plans**

17 Mae Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol fel arfer yn ddatblygiadau ar raddfa fawr sy'n ymwneud ag ynni, trafnidiaeth, dŵr neu wastraff y mae Gweinidogion Cymru'n penderfynu yn eu cylch.

## Arddangosyn 5 – adborth dinasyddion ar ‘weledigaeth’ ac ‘uchelgais’ awdurdodau cynllunio lleol

Mae dinasyddion yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gall cynllunio’i wneud i lesiant ond maent yn pryderu nad oes digon o weledigaeth ac uchelgais gan awdurdodau cynllunio lleol.

> Mae’r system gynllunio bresennol yn ddiffygiol yn strwythurol ac yn ‘drafodiadol’ o ran dull; mae angen iddi fod yn fwy creadigol, arloesol a dynamig o ran ei dull ac yn fwy organig. Er mwyn i ni fod ag unrhyw siawns o gynllunio ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol a llesiant Cymru, dylid gwneud yn siŵr bod egwyddorion Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn dod yn realiti.

> Rwy’n meddwl bod y system gynllunio yn arbennig yn methu ag ystyried goblygiadau ei phenderfyniadau cynllunio ar gyfer y seilwaith yn y tymor hir – gyda datblygiadau tai mawr yn cael eu cytuno heb gynlluniau eglur, sy’n seiliedig ar ystyriaeth fanwl, ar gyfer ffyrdd, ysgolion ac ati yn yr ardal. Mae traffig a pharcio yn y ddinas eisoes yn broblem fawr ac mae’n ymddangos fel pe bai penderfyniadau cynllunio’n cael eu gwneud ar wahân i bob ystyriaeth arall.

> Mae angen gweledigaeth gliriach a chryfach…
> Mae lwc o blaid y dewr.

> Dylai fod a wnelo cynllunio â mwy na dim ond defnyddio llawer o eiriau i siarad am ddefnyddio tir. Mae cyfle yma i ysbrydoli pobl i wella’u hamgylchedd, cymell dylunio da, a hyrwyddo enghreifftiau o gynlluniau da. Caiff y system gynllunio yng Nghymru ei llywio gan ofn methu yn hytrach na gweledigaeth gyffredin ynglŷn â sut y gallai’r dyfodol edrych.

> … mae cynllunwyr yn canolbwyntio dim ond ar yr elfennau technocratig ar gynllunio defnydd tir, nid sut y bydd y lle’n edrych ac yn teimlo yn y tymor hir. Nid yw dylunio a thechnoleg ofodol, y cyfryngau cymdeithasol, a rhith-wirionedd yn cael eu defnyddio i ddangos i bobl beth sy’n bosibl.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg Cyhoeddus 2018-19.

1.22 Mae sylwadau yn yr arolwg yn dangos bod ar ddinasyddion eisiau gweld awdurdodau cynllunio lleol yn gwella’u ffordd o fynd ati ac yn dod yn fwy eofn, uchelgeisiol a gweledigaethol. Fodd bynnag, mae ein harolwg yn dangos nad oes gan awdurdodau cynllunio lleol y capasiti i fodloni’r dyheadau cynyddol hyn ac yn yr adran nesaf o’r adroddiad byddwn yn nodi rhai o’r anawsterau hyn.

Rhan 2

# Mae capasiti annigonol ac adnoddau sy’n mynd yn llai yn erydu cydnerthedd awdurdodau cynllunio




2.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn asesu cydnerthedd gwasanaethau cynllunio, gan edrych ar newidiadau mewn cyllid, incwm a gwariant. Rydym yn archwilio'r gostyngiad mewn cyllidebau dros y degawd diwethaf ac effaith y newidiadau hyn ar niferoedd a rolau staff. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae awdurdodau'n ymateb i'r her hon i sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Yn olaf, rydym yn ystyried sut y maent yn cydweithio i gryfhau eu cydnerthedd.

## Bu gostyngiad sylweddol yn adnoddau awdurdodau cynllunio

2.2 Mae gwariant awdurdodau cynllunio lleol wedi gostwng yn sylweddol yn y degawd diwethaf. Mewn termau real, mae gwariant net wedi gostwng 50% o £45.1 miliwn yn 2008-09 i £22.8 miliwn yn 2017-18 – Arddangosyn 6. Ym maes rheoli datblygu y gwelwyd y gostyngiad mwyaf, lle mae'r cyllid wedi gostwng 59%.

Arddangosyn 6 – gwariant net gan awdurdodau lleol ar wasanaethau cynllunio mewn termau real yng Nghymru rhwng 2008-09 a 2017-18.

Bu gostyngiad sylweddol mewn gwariant ar gynllunio yn y degawd diwethaf




Ffynhonnell: Data Alldro Refeniw (RO), StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru gan ddefnyddio datchwyddyddion 2009.

2.3 Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gafodd ei ystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth graffu ar y Ddeddf yn nodi mai cost cyflawni'r Ddeddf gyfan dros y pum mlynedd gyntaf fyddai £6.1 miliwn. Byddai'r gost hon yn cael ei gwrthbwyso gan gyfanswm arbedion o £7.9 miliwn, gan adael arbedion net sy'n weddill o £1.8 miliwn. Daeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r casgliad y byddai gweithredu'r Ddeddf yn arwain at gynnydd o £0.5 miliwn yng ngwariant Llywodraeth Cymru, cynnydd o ychydig dros £1 miliwn mewn gwariant gan y 25 awdurdod cynllunio lleol, ac arbedion o ychydig dros £3.5 miliwn ar gyfer y diwydiant datblygu ac eraill[18]. Dengys ein dadansoddiad bod gwariant net awdurdodau cynllunio lleol, ers 2014-15, wedi gostwng £3.9 miliwn, yn hytrach na chynyddu £0.9 miliwn.


## Ceir cyfleoedd i gynyddu incwm a lleihau cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau cynllunio

2.4 O ystyried yr angen i awdurdodau lleol leihau eu gwariant net yn unol â thoriadau mewn cyllid canolog, mae llawer o awdurdodau yn adolygu gwasanaethau i sicrhau, lle y bo'n briodol, eu bod yn gwneud y gorau o gyfleoedd i gynyddu incwm i'r eithaf. Er bod angen cymhorthdal ar yr holl awdurdodau cynllunio o hyd, rhwng 2008-09 a 2017-18, roedd gan 17 o'r 22 awdurdod lleol sefyllfa well o ran cymhorthdal gyda lefel y gwariant ar wasanaethau cynllunio'n gostwng a lefel yr incwm bellach yn talu am gyfran uwch o'r gost – Arddangosyn 7.

18 **Crynodeb o Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Bil Cynllunio (Cymru)**, Rhagfyr 2014

Arddangosyn 7 – incwm fel cyfran o wariant ar gyfer yr holl wasanaethau cynllunio fesul awdurdod lleol yn 2008-09 a 2017-18

Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau cynllunio awdurdodau lleol sefyllfa sy'n gwella o ran cymhorthdal.




Ffynhonnell: Data Alldro Refeniw (RO), StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru[19].

2.5 Mae dau faes gweithgarwch lle mae awdurdodau cynllunio lleol yn codi am y gwasanaethau y maent yn eu darparu – rheoli datblygu a rheoli adeiladu. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r ffioedd rheoli datblygu. Mae'r rhain yr un fath ar gyfer yr holl awdurdodau cynllunio yng Nghymru a chafodd y ffioedd eu diwygio ddiwethaf yn 2015[20].

19 Nid oes unrhyw ddata cenedlaethol wedi'i gyhoeddi ar gyfer y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol.

20 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 **www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1522/contents/made**

2.6 Dengys ein dadansoddiad, yn 2017-18, fod incwm mewn termau real fel cyfran o wariant wedi cynyddu'n sylweddol ar gyfer gwaith rheoli datblygu a'i fod bellach yn rhoi cyfrif am 70% o gyfanswm cost y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, er bod incwm yn cynyddu, ceir amrywiad eang mewn perfformiad. Mae dau awdurdod lleol – Ynys Môn a Chaerdydd – yn casglu mwy o incwm o weithgarwch rheoli datblygu nag y mae'n ei gostio i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae'r 20 awdurdod sy'n weddill i gyd yn gweithredu â lefelau amrywiol o gymhorthdal, sy'n amrywio o 6.7% i 65.7% o gost y gwasanaeth (gweler Atodiad 3).

2.7 Yn wahanol i reoli datblygu, caiff ffioedd gwasanaethau rheoli adeiladu eu pennu gan bob awdurdod lleol. Er bod incwm bellach yn 68% o gost gwasanaethau rheoli adeiladu, dengys ein hymchwil bod hyn wedi aros yn ddigyfnewid yn y blynyddoedd diwethaf ac nad yw'r un awdurdod yn adfer cost lawn ei wasanaeth rheoli adeiladu. Mae cymorthdaliadau'n amrywio o 0.2% i 76.2% o gost y gwasanaethau (gweler Atodiad 4 ar gyfer ein dadansoddiad manwl).

2.8 Darperir cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau yn aml oherwydd awydd i gynyddu i'r eithaf nifer y defnyddwyr ac i roi cymorth i gyflawni'r blaenoriaethau strategol ehangach. Mae gwasanaethau rheoli adeiladu hefyd mewn cystadleuaeth â'r sector preifat ac o ganlyniad mae angen iddynt sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu prisio'n gystadleuol. Fodd bynnag, mae angen hefyd i awdurdodau ystyried eu hamgylchedd gweithredu a nodi sut y gallant leihau lefel y cymhorthdal y maent yn ei roi i wasanaethau i wella cynaliadwyedd ariannol a chryfhau cydnerthedd.

2.9 Gan ddefnyddio data cyhoeddus a gasglwyd o wefannau awdurdodau, rydym yn nodi yn Arddangosyn 8 y gyfres o daliadau a godir am wasanaethau rheoli adeiladu i godi un annedd[21]. Mae'r gwahaniaeth rhwng y tâl rheoli adeiladu rhataf a drutaf yn sylweddol. Hyd yn oed wrth ystyried ffactorau lleol a'r gwahaniaeth posibl o ran darparu ac ansawdd gwasanaethau, mae graddfa ac ystod y costau'n eang iawn.

21 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau gynlluniau ffioedd ar-lein ac maent yn darparu canllawiau manwl i gynorthwyo ymgeiswyr. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod yn cyhoeddi cynllun ffioedd ar gyfer ei wasanaethau rheoli adeiladu. Mae ein dadansoddiad ni'n seiliedig ar wybodaeth a goladwyd o wefannau 12 awdurdod lleol.

Arddangosyn 8 – enghraifft o daliadau rheoliadau adeiladu awdurdodau lleol 2018-19

Ceir amrywiad eang o ran faint y mae gwasanaethau Rheoli Adeiladu'n ei godi am yr un gweithgaredd.

| Eitem | Tâl isaf | Tâl uchaf | Gwahaniaeth |
|---|---:|---:|---:|
| Cynlluniau Llawn Newydd – Ffi cynllun ar gyfer un annedd (A) | £140.74 | £241.20 | +71.4% |
| Cynlluniau Llawn Newydd – Archwiliad ar gyfer un annedd (B) | £225.72 | £532.00 | +135.7% |
| Ffi Hysbysiad Adeilad Newydd ar gyfer un annedd (C) | £383.04 | £785.22 | +105.0% |
| Taliad cyfansawdd ar gyfer A, B ac C ar gyfer un annedd | £732.00 | £1,098.00 | +50.0% |
| Tal unioni[22] ar gyfer un annedd | £510.72 | £948.75 | +85.8% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynlluniau Ffioedd Rheoli Adeiladu ar-lein.


2.10 Ar ddiwedd 2017-18, roedd y diffyg cyfunol rhwng incwm a gwariant rheoli datblygu ac adeiladu'n £11.1 miliwn. Mae'r canfyddiadau yn Arddangosyn 8, a'n dadansoddiad manylach a nodir yn Atodiadau 3 a 4 yn amlygu bod cyfle i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol adolygu cynlluniau ffioedd cyfredol i sicrhau eu bod yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost darparu'r gwasanaethau hyn, ac rydym wedi gwneud argymhellion i'r perwyl hwn[23]. Fodd bynnag, mae angen taro cydbwysedd rhwng cynyddu ffioedd a sicrhau bod unrhyw gynnydd yn cael ei adlewyrchu gan wasanaeth o ansawdd gwell. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan bod canfyddiadau ein gwaith arolwg yn amlygu nad yw llawer o'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio'n teimlo bod ffioedd cyfredol yn cynrychioli 'Gwerth Da am Arian' – Arddangosyn 9.

22 Gall gwasanaethau Rheoli Adeiladu gael eu darparu cyn i waith gael ei wneud neu eu cymhwyso'n ôl-weithredol ar ôl i waith ddigwydd. 'Unioni' yw'r enw ar waith a gymeradwyir ar ôl iddo gael ei wneud.

23 Pe bai'r holl awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru yn rhoi ein hargymhelliad ar waith yn llawn, byddai'r arbedion posibl yn gyfwerth â rhyw £11.1 miliwn. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cynyddu taliadau Rheoli Datblygu i dalu'r gost, yna byddai hyn yn arwain at arbedion o £7.7 miliwn. Pe bai'r holl awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'u diffyg Rheoli Adeiladu byddai hynny'n dwyn arbedion o £3.4 miliwn.

## Arddangosyn 9 – canfyddiadau'r arolwg wrth ystyried a yw ffioedd cynllunio awdurdodau lleol yn cynrychioli 'Gwerth am Arian'

Ceir gwahaniaeth barn rhwng y rhai sy'n gweinyddu ac yn defnyddio gwasanaethau cynllunio wrth ystyried a yw ffioedd yn cynrychioli 'Gwerth Da am Arian'




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygon pwyllgorau cynllunio, uwch swyddogion cynllunio, rhanddeiliaid a dinasyddion, Ionawr 2019.

## Nid yw'r capasiti'n ymestyn yn ddigon pell, ac mae awdurdodau cynllunio'n ei chael yn anodd cyflawni swyddogaethau allweddol, ond dim ond cynnydd cyfyngedig a fu o ran gwella cydnerthedd

2.11 Gweithlu awdurdod yw un o'i asedau gorau ac mae cyfran sylweddol o wariant yn mynd ar staffio. Fodd bynnag, yn y cyfnod cyfredol o gyni cyllidol hirfaith, mae awdurdodau'n aml yn mantoli cyllidebau trwy ostwng nifer eu staff. Mae canfyddiadau ein harolygon gydag uwch swyddogion cynllunio, aelodau o bwyllgorau cynllunio a sefydliadau sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio'n rheolaidd i gyd yn nodi bod gostyngiad sylweddol wedi bod mewn staff dros y degawd diwethaf. O ganlyniad, mae awdurdodau cynllunio lleol yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau, maent yn gorfod rheoli capasiti o un wythnos i'r llall, a dim ond o drwch blewyn y maent yn ymdopi. Hefyd, dros amser mae'r staff cynllunio mwy profiadol yn ymddeol ac nid oes staff yn cael eu penodi yn eu lle sy'n arwain at ddiffyg mewn sgiliau, profiad a 'gwybodaeth ymarferol arbennig'.

2.12 Er bod awdurdodau wedi ceisio gwarchod a chadw sgiliau a chapasiti menw meysydd allweddol, yn anad dim polisi cynllunio, bu gostyngiadau sylweddol mewn meysydd eraill. Ceir cryn dipyn o gysondeb hefyd o ran ble mae bylchau mewn adnoddau'n cael eu teimlo'n fwyaf difrifol – arbenigwyr dylunio, dadansoddwyr data, swyddogion ymchwil, arbenigwyr seilwaith a swyddogion cynllunio dan hyfforddiant (gweler Atodiad 5 ar gyfer canlyniadau manwl yr arolwg). Mae'r duedd hon yn adlewyrchu dyhead awdurdodau i warchod staff rheng-flaen a'r gwasanaethau a ddarperir hyd y gellir, ond mae'r gostyngiad yn nifer yr hyfforddeion yn achosi pryder. Fe wnaeth cyrff cynrychiadol, sefydliadau academaidd ac awdurdodau lleol y cyfwelom ni â hwy i gyd amlygu bod buddsoddiad mewn hyfforddeion cynllunio wedi gostwng, ac mae nifer yn ofni nad yw 'cynllunio' yn cael ei ystyried yn yrfa ddeniadol mwyach.

2.13 Mae ymchwil gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)[24] yn amlygu hefyd nad oes gan brif swyddogion cynllunio safle blaenllaw na strategol mewn awdurdodau lleol mwyach, a bod gwerth a dylanwad canfyddadwy'r proffesiwn yn dal i leihau. Timau rheoli corfforaethol sy'n darparu arweinyddiaeth, gweledigaeth ac yn pennu blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd gan bennu cyfeiriad strategol a gwneud penderfyniadau buddsoddi awdurdodau lleol. Mae goblygiadau penderfyniadau corfforaethol ar gyfer buddsoddiadau, seilwaith, gweithgarwch datblygu, gwasanaethau lleol a pholisïau newydd yn arwyddocaol, a gall prif swyddog cynllunio effeithiol a dylanwadol fod â rôl hollbwysig o ran cyrraedd y nodau polisi hyn a rhai ehangach. Fodd bynnag, canfu RTPI fod y swyddog cynllunio uchaf ei reng fel arfer ar y drydedd haen a bod 60% o'i gyfrifoldebau'n ymwneud â rheoli ystod o wasanaethau eraill. Er gwaethaf eu pwysigrwydd, mae gan wasanaethau cynllunio lai o adnoddau, amlygrwydd a dylanwad.

2.14 Mae ein dadansoddiad hefyd yn awgrymu bod awdurdodau cynllunio lleol yn ymdopi dim ond am bod nifer y ceisiadau y maent yn ymdrin â hwy wedi aros yr un fath heb unrhyw gynnydd sylweddol mewn niferoedd – Arddangosyn 10.

### Arddangosyn 10 – nifer y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt: cyfanswm ar gyfer Cymru a'r amrediad ar draws y 25 awdurdod cynllunio lleol

Mae nifer y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt wedi aros yr yn fath fwy neu lai ond ceir amrywiad eang yn yr ystod o geisiadau y mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymdrin â hwy.

| Blwyddyn | Cyfanswm Cymru | Nifer isaf | Nifer uchaf |
|---|---:|---:|---:|
| 2014-15 | 24,203 | 308 | 2,596 |
| 2015-16 | 25,247 | 362 | 3,053 |
| 2016-17 | 25,008 | 326 | 2,819 |
| 2017-18 | 24,098 | 307 | 2,636 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **llyw.cymru/adroddiadau-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio?_ga=2.110424133.1992295880.1558953899-160543906.1551187863**

24 **www.rtpi.org.uk/media/3164426/chiefplanningofficers.pdf**

2.15 Fe wnaeth rhanddeiliaid hefyd nodi materion ynglŷn â sgiliau cynllunwyr, yn enwedig y sgiliau y mae eu hangen i negodi cytundebau cymhleth. Fe wnaeth swyddogion cynllunio ac aelodau pwyllgorau cynllunio y siaradon ni gyda hwy nodi bod y diffyg capasiti yn eu hatal rhag cymryd gormod o risgiau am eu bod yn ofni cost colli apeliadau yn erbyn penderfyniadau cynllunio. Mae'r gostyngiad mewn adnoddau hefyd yn golygu bod awdurdodau cynllunio lleol yn aml yn methu â chystadlu â lefel yr arbenigedd cyfreithiol a ddefnyddir gan ddatblygwyr wrth apelio.

2.16 Mae natur cynllunio fel proffesiwn yn newid hefyd ac nid yw'n ymwneud â defnydd tir yn unig mwyach. Fel a nodwyd yn Adran 1, mae cynllunio'n gwneud cyfraniad pwysig at yr agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol a cheir disgwyliadau uwch o ran cynnwys rhanddeiliaid, dinasyddion a'r gymuned, ac nid dim ond ymgysylltu â hwy, yn fwy effeithiol. Mae'r dystiolaeth o'n hadolygiad yn amlygu'r ffaith nad yw awdurdodau lleol ar eu pen eu hunain, gyda llai o adnoddau, disgwyliadau cynyddol a chapasiti sy'n mynd yn llai, yn gallu ymatebi'r galw a osodir arnynt. Mae'n rhaid wrth ddull cydweithredol ac integredig gan weithio gydag eraill. Fodd bynnag, er bod uwch swyddogion ac aelodau o bwyllgorau cynllunio a ymatebodd i'n harolwg wedi amlygu eu bod yn cydweithio ac yn integreiddio gwasanaethau i leihau costau a meithrin capasiti, canfuom dystiolaeth gyfyngedig yn unig bod hyn yn digwydd. Yn hytrach na hynny, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio'n gwneud popeth â llai o adnoddau.

2.17 Canfu ein hadroddiad rai dulliau cadarnhaol o wella effeithlonrwydd a pherfformiad a lleihau costau. Er enghraifft, mae proses gofrestru a gwasanaeth cyngor a chanllawiau Cyngor Dinas Casnewydd yn helpu'r awdurdod i reoli ceisiadau'n well a rhyddhau capasiti. Mae gan Gyngor Sir Ceredigion un 'Tîm Datblygu', sy'n integreiddio polisi cynllunio â gwasanaethau rheoli datblygu ac adeiladu i ddod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithlon a chyfleus o ddarparu gwasanaethau cynllunio ar gyfer dinasyddion. Mae'r dull tîm datblygu hefyd yn helpu datblygwyr a phenseiri trwy'r broses gynllunio a rheoliadau adeiladu. Gall ethos tîm datblygu roi sicrwydd o ran y lefel o wasanaeth y gellir ei disgwyl a rhoi arweiniad a chyngor ynghylch yr wybodaeth sy'n ofynnol cyn ac yn ystod y broses cynllunio a rheoliadau adeiladu. Fodd bynnag, dim ond tri awdurdod cynllunio lleol sy'n hysbysebu'r gwasanaeth hwn ar eu gwefan ac yn cyfeirio ato mewn canllawiau cynllunio.

2.18 Mae'r broses Cynlluniau Datblygu yn Lloegr yn debyg i Gymru, a cheir rhai enghreifftiau da o'r modd y mae awdurdodau wedi ceisio datblygu eu cydnerthedd trwy gydweithio. Er enghraifft, mae Cyngor Dinas Plymouth, Cyngor Dosbarth De Hampshire a Chyngor Bwrdeistref Gorllewin Dyfnaint wedi datblygu, ac yn ddiweddar wedi mabwysiadu, Cyd-gynllun Lleol Plymouth a De Ddwyrain Dyfnaint. Mae gweithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Dartmoor a Bargen Ddinesig Penrhyn y De Orllewin hefyd wedi galluogi'r tri awdurdod lleol i wireddu arbedion o fwy nag £1.5 miliwn a chyflogi tri swyddog cynllunio dan hyfforddiant. Mae dulliau tebyg wedi cael eu datblygu rhwng y cynghorau sir a bwrdeistref yn Suffolk sydd wedi arwain at arbedion net o £2.2 miliwn a gostyngiad mewn canllawiau cynllunio atodol o 52 o ganllawiau i 12 .

2.19 Hyd yma, dim ond Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd sydd wedi datblygu Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ac sydd â thîm polisi cynllunio ar y cyd, er nad yw hyn yn cwmpasu nac yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a ddewisodd beidio â gweithio gyda hwy. Er bod gan weinidogion Llywodraeth Cymru y pwerau i orchymyn bod awdurdodau cynllunio lleol yn cydweithio ac yn uno, a/neu ei gwneud yn ofynnol iddynt gynhyrchu Cynlluniau Datblygu Lleol dan y Ddeddf, nid yw'r pwerau hyn wedi cael eu defnyddio eto.

2.20 Mae dinasyddion y gwnaethom ni eu harolygu'n cydnabod yr heriau y mae awdurdodau'n eu hwynebu ac roedd nifer yn teimlo bod cynllunwyr yn ceisio gwneud eu gorau â'r adnoddau sydd ganddynt. Fodd bynnag, dengys trwch ein tystiolaeth fod niferoedd staff sy'n gostwng, colli profiad, llai o hyfforddiant a hyfforddeion a rôl lai amlwg i gynllunio mewn strwythurau penderfynu strategol yn codi rhai pryderon gwirioneddol ynghylch cydnerthedd y gwasanaeth yn y dyfodol. Yn wir, roedd nifer o ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod lefel yr arbenigedd mewn awdurdodau cynllunio wedi erydu dros y blynyddoedd diwethaf ac nad yw'r gwasanaeth yn 'addas ar gyfer y diben' nac yn gallu darparu'r hyn y mae ei angen. Mae hyn yn codi rhai cwestiynau pwysig wrth ystyried pa mor gynaliadwy yw gwasanaethau cynllunio, a pha un a allant gyflawni'r rôl a ddisgwylir gan lawer yn y broses o lunio dyfodol Cymru.

Rhan 3

# Mae amseroldeb ac ansawdd prosesau penderfynu'n amrywio'n eang ac mae perfformiad o ran rheoli ceisiadau'n wael



3.1 Yn yr adran hon o’r adroddiad rydym yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau penderfynu awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn mesurau cenedlaethol.

## Mae ffocws prosesau penderfynu pwyllgorau cynllunio’n amrywio’n eang ac mae lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi’n dal i fod yn uchel

3.2 Er bod awdurdodau cynllunio lleol wedi sefydlu trefniadau a pholisïau llywodraethu eglur ar gyfer rheoli gwasanaethau cynllunio, canfuom fod cyfleoedd sylweddol i wella effeithiolrwydd pwyllgorau. Wrth edrych ar sampl o bwyllgorau cynllunio canfuom fod gwahaniaethau mawr rhwng ansawdd a threfniadau gweinyddu cyfarfodydd. Mae maint pwyllgorau cynllunio’n amrywio hefyd gan fod 20 aelod ar bedwar ohonynt. Gall hyn ei gwneud yn anodd rheoli cyfarfodydd. Er bod rhai cyfarfodydd yn cael eu cadeirio’n dda gyda rheolaeth eglur ac effeithiol ar fusnes, mae eraill yn canolbwyntio gormod ar faterion plwyfol a mân faterion a ddylai fod wedi cael eu dirprwyo i swyddogion.

3.3 Gwelsom hefyd rai swyddogion cynllunio mewn awdurdodau lleol yn dioddef ymddygiad amhriodol a phwysau gan aelodau’r pwyllgor cynllunio. Yn aml, mae angen i uwch swyddogion cynllunio a chyfreithiol ymyrryd i sicrhau bod y pwyllgor cynllunio’n aros ar y trywydd cywir ac yn deall terfynau a maint eu cyfrifoldebau i osgoi gwneud penderfyniadau gwael. Er gwaethaf hyn, nid yw’n anghyffredin ychwaith bod penderfyniadau’n cael eu gohirio neu fod oedi cyn eu gwneud, yn aml am gyfnodau hir.

3.4 Er bod y mwyafrif o aelodau pwyllgorau cynllunio ac uwch swyddogion a ymatebodd i’n harolygon yn credu bod eu pwyllgor cynllunio’n deall ei rôl a’i gyfrifoldebau ac yn cael argymhellion priodol a chlir, nododd trydydd o’u profiad fod eu pwyllgor yn aneffeithiol yn eu barn hwy. Roedd ychydig dros un rhan o bump o aelodau pwyllgorau cynllunio ac uwch swyddogion a ymatebodd i’n harolygon yn cydnabod gwendidau mewn systemau TGCh ac yn teimlo nad yw eu systemau cymorth ar gyfer pwyllgorau cynllunio mor effeithlon ac effeithiol ag y dylent fod. Nododd nifer ohonynt bryderon hefyd gydag ansawdd adroddiadau pwyllgorau sy’n aml yn rhy fanwl ac wedi’u hysgrifennu mewn jargon. Fe wnaeth sefydliadau yr arolygon ni ac y cyfwelom ni â hwy, sy’n defnyddio gwasanaethau cynllunio’n rheolaidd, godi pryderon yn yr un modd ynghylch gwneud penderfyniadau ac effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio.

3.5 Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer mân ddatblygiadau, y rhai nad ydynt yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar les y cyhoedd, neu'r rhai nad ydynt yn denu gwrthwynebiadau, yn cael eu penderfynu fel rheol gan swyddogion dan bwerau a ddirprwywyd iddynt. Yn 2013-14, cafodd llai na 0.25% o'r ceisiadau cynllunio a ystyriwyd gan y 25 awdurdod cynllunio lleol eu penderfynu gan bwyllgorau cynllunio gyda'r gweddill yn cael eu dirprwyo i swyddogion. Erbyn 2017-18, roedd y ceisiadau a gafodd eu hystyried gan bwyllgorau cynllunio wedi codi i 7% o'r holl benderfyniadau[25]. Roedd cyfanswm y penderfyniadau a wnaed gan bwyllgorau yn 2017-18 yn amrywio o 13 yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i 282 yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

3.6 Fodd bynnag, mae'r gyfran o argymhellion gan swyddogion sy'n cael eu gwrthdroi'n dal i fod yn uchel. Yn 2017-18 roedd canran y penderfyniadau a wnaed gan aelodau o bwyllgorau cynllunio yn groes i gyngor swyddogion yn 8.6% gyda pherfformiad yn amrywio o ddim penderfyniadau gan swyddogion yn cael eu gwrthdroi mewn nifer o awdurdodau cynllunio lleol i un awdurdod lleol – Cyngor Sir Ceredigion – yn cofnodi dros 60% o argymhellion gan swyddogion yn cael eu gwrthdroi (Arddangosyn 11). Mae gwrthdroi penderfyniadau a gwneud penderfyniadau'n groes i gyngor swyddogion yn golygu bod aelodau o bwyllgorau cynllunio'n gwyro oddi wrth y polisïau a fabwysiadwyd ganddynt, a gall hynny danseilio hygrededd y system seiliedig ar gynllun.

25 Gweler ffigur 27 ar dudalen 40: **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/adroddiad-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio-2017-hyd-2018_1.pdf**

Arddangosyn 11 – canran y penderfyniadau a wnaed gan aelodau yn groes i gyngor swyddogion – cyfartaledd Cymru a'r amrediad ar draws y 25 awdurdod cynllunio lleol

Mae perfformiad yn amrywio'n eang rhwng pwyllgorau cynllunio o ran dilyn cyngor swyddogion wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.

| Blwyddyn | Cyfartaledd Cymru | Y % isaf | Y % uchaf |
|---|---:|---:|---:|
| 2014-15 | 10.5% | 0% | 81.8% |
| 2015-16 | 7.1% | 0% | 39.5% |
| 2016-17 | 10.9% | 0% | 59.2% |
| 2017-18 | 8.6% | 0% | 60.7% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **llyw.cymru/adroddiadau-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio?_ga=2.234887105.1992295880.1558953899-160543906.1551187863**


## Mae perfformiad o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio'n wael

3.7 Dengys ein dadansoddiad o ddata cenedlaethol fod y galw o ran ceisiadau cynllunio a'r nifer ohonynt wedi aros yn sefydlog ond bod capasiti awdurdodau cynllunio lleol yn gorfod ymestyn yn rhy bell, ac na fydd awdurdodau'n gallu ymdopi â chynnydd yn y galw, yn enwedig am geisiadau cynllunio mawr. Er enghraifft, er bod yr amser a gymer i benderfynu ynghylch yr holl geisiadau cynllunio'n sefydlog, ar gyfer ceisiadau mawr mae'r amser a gymer yn mynd yn hwy ac mae'n sylweddol is na'r targedau statudol ar gyfer cyflymder penderfyniadau[26]. Yn 2017-18, dim ond 205 o'r penderfyniadau cynllunio mawr oedd 'ar amser' ac o fewn yr amserlen statudol – Arddangosyn 12. Mae hyn yn bwysig gan mai'r ceisiadau cynllunio mwyaf un o blith y rhai mawr yw'r rhai sy'n gallu cael yr effaith fwyaf a mwyaf uniongyrchol ar lesiant cymunedau, a bod perfformiad cynllunio gwael yn gallu effeithio ar benderfyniadau buddsoddi lle mae gan ddatblygwyr ddewis ble i adeiladu.

26 Dylai ceisiadau cynllunio gael eu penderfynu o fewn 8 wythnos. Rhoddir 16 wythnos i geisiadau cynllunio mawr, lle ceir Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, gan eu bod yn fwy cymhleth a bod angen mwy o ymgynghori a negodi fel arfer. Y diffiniad o 'ddatblygiadau mawr ar raddfa fawr' yw datblygiad o 200 o dai neu fwy, neu ag arwynebedd llawr o 10,000 metr sgwâr neu fwy, neu lle mae arwynebedd y safle'n 2 hectar neu fwy. Y diffiniad o 'ddatblygiad mawr ar raddfa fach yw rhwng 10 a 199 o dai, neu arwynebedd llawr rhwng 1,000 a 9,999 metr sgwâr neu lle mae arwynebedd y safle rhwng 1 a 2 hectar.

Arddangosyn 12 – yr amser a gymerodd awdurdodau cynllunio lleol ar gyfartaledd i benderfynu ar geisiadau cynllunio rhwng 2014-15 a 2017-18

Mae'r amser a gymer ar gyfartaledd i benderfynu ar geisiadau'n cynyddu ar gyfer ceisiadau mawr ac mae ymhell uwchlaw targedau Llywodraeth Cymru.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **llyw.cymru/adroddiadau-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio?_ga=2.169286625.1992295880.1558953899-160543906.1551187863.**

3.8 Mae hawl i apelio yn erbyn bron pob penderfyniad a wneir gan awdurdod lleol os gwrthodir caniatâd cynllunio, os cymerir camau gorfodi, os gosodir amod beichus neu amhriodol ar ganiatâd cynllunio a roddwyd, neu os yw'r awdurdod cynllunio wedi methu â phenderfynu ynghylch y cais mewn modd prydlon ('diffyg penderfyniad').

3.9 Mae Arddangosyn 13 yn crynhoi'r amrediad perfformiad ar draws y 25 awdurdod cynllunio lleol yn erbyn cyfartaledd Cymru. Mae ychydig yn llai na dwy ran o dair o'r apeliadau'n cael eu gwrthod, gyda'r perfformiad gwaethaf yn Sir Fynwy lle cafodd 64.3% o'r apeliadau eu cadarnhau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymharu nifer y penderfyniadau cynllunio lle gwrthodwyd caniatâd yn groes i gyngor swyddogion â chyfradd llwyddo apeliadau ar y cyfan. Er bod rhai awdurdodau cynllunio lleol yn mynd yn groes i'r duedd (megis Cyngor Sir Powys), yn nodweddiadol mae gan awdurdodau cynllunio lleol sy'n gwrthod caniatâd yn groes i gyngor swyddogion lefel is o apeliadau a wrthodwyd[27].

27 **llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio-2017-hyd-2018?_ga=2.161896700.1992295880.1558953899-160543906.1551187863**

Arddangosyn 13 – canran yr apeliadau a wrthodwyd – cyfartaledd Cymru a'r amrediad ar draws y 25 awdurdod cynllunio lleol

Mae perfformiad yn amrywio'n eang o ran awdurdodau cynllunio lleol yn gwrthod apêl yn erbyn ei benderfyniad cynllunio yn llwyddiannus.

| Blwyddyn | Cyfartaledd Cymru | Awdurdod â'r % isaf yn cael eu gwrthod | Awdurdod â'r % uchaf yn cael eu gwrthod |
|---|---:|---:|---:|
| 2013-14 | 65.3% | 47.6% | 100% |
| 2014-15 | 65.6% | 46.2% | 83.3% |
| 2015-16 | 66.5% | 6.0% | 90.5% |
| 2016-17 | 60.9% | 40.0% | 83.3% |
| 2017-18 | 62.6% | 35.7% | 100.0% |


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **gov.wales/planning-services-performance-reports**

3.10 Mae cymryd camau gorfodi'n gyflym, mewn modd penderfynol ac mewn modd teg yn agwedd allweddol ar atal datblygu gwael ac atal drwg rhag cael ei wneud. Dengys ein dadansoddiad o ddata a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fod yr amser a gymer i gwblhau ymchwiliadau gorfodi wedi aros yr un fath ond bod y perfformiad ledled Cymru'n amrywiol iawn, a bod camau cadarnhaol yn dilyn ymchwiliad yn wael. Yn 2017-18, 78.8 diwrnod oedd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodi. Fodd bynnag, roedd perfformiad yn amrywio o 4.3 diwrnod yn yr awdurdod gorau i 468 diwrnod yn yr awdurdod â'r perfformiad gwaethaf. Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol yn dilyn ymchwiliad oedd 184.6 diwrnod. Roedd yr awdurdod â'r perfformiad gorau'n cymryd camau gorfodi o fewn 8 diwrnod tra bo'r awdurdod gwaethaf yn cymryd 468 diwrnod.

3.11 Ceir gwahaniaeth barn sylweddol rhwng y rhai sy'n defnyddio'r system gynllunio a'r rhai sy'n ei gweinyddu hefyd, o ran cyflymder ac effeithiolrwydd prosesau penderfynu – Arddangosyn 14.

## Arddangosyn 14 – canfyddiadau'r arolwg o ran pa mor gyflym y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio

Ceir gwahaniaeth barn rhwng y rhai sy'n gweinyddu ac yn defnyddio gwasanaethau cynllunio ynghylch pa mor gyflym y mae awdurdodau cynllunio'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygon pwyllgorau cynllunio, uwch swyddogion cynllunio, rhanddeiliaid a dinasyddion, Ionawr 2019.

3.12 Mae staff awdurdodau cynllunio lleol y cyfwelom ni â hwy yn ystyried bod mesurau cenedlaethol yn rhy blaen ac yn canolbwyntio gormod ar gyflymder ac allbynnau, yn hytrach nag ar ddeilliannau ansawdd. Mae'r rhan fwyaf o Gynlluniau Datblygu Lleol ac Adroddiadau Monitro Blynyddol[28] yn adrodd ar nifer uchel o ddangosyddion perfformiad, ac mae awdurdodau cynllunio lleol yn adrodd ar nifer o ddangosyddion eraill mewn cynlluniau, cynlluniau gwaith a strategaethau amrywiol. Er enghraifft, mae gan Gasnewydd 83 o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, 22 o ddangosyddion ar gyfer polisi cynllunio lleol ac 20 o ddangosyddion ar gyfer polisi cenedlaethol. Ac wrth bod adrodd ar berfformiad yn dal i ganolbwyntio ar farnu pa mor dda y mae awdurdodau cynllunio'n rheoli ceisiadau, gall fod yn anodd dangos yr effaith ar lesiant. O ganlyniad, mae angen i awdurdodau cynllunio lleol wneud mwy i sicrhau y gallant gyfleu'r achos dros gynllunio.

28 Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol yn darparu'r sail ar gyfer monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Lleol a phenderfynu a oes angen diwygio'r cynllun. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu i ba raddau y mae amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni ac a yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithiol. Mae hefyd yn nodi unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

Rhan 4

# Mae angen gwaith pellach i gyflawni'r agweddau llesiant ar y Ddeddf Cynllunio (Cymru) a Pholisi Cynllunio Cymru



4.1 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cyflwyno diben statudol ar gyfer y system gynllunio ac yn bwysig mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfer eu swyddogaethau yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Atgyfnerthir hyn ym Mholisi Cynllunio Cymru ac mae cyfraniad cynllunio at wella lles pobl wedi'i nodi'n glir yn y diweddariad mwyaf diweddar ym mis Rhagfyr 2018[29]. Mae'r swyddogion, yr aelodau a'r rhanddeiliaid y siaradom ni gyda hwy yn ystyried bod y newid mewn ffocws ym Mholisi Cynllunio Cymru i gyd-fynd ag agenda cenedlaethau'r dyfodol yn gam cadarnhaol ac yn ffordd fwy effeithiol o gyflwyno polisi cynllunio.

4.2 Y system gynllunio sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi i reoli defnydd a datblygiad tir a gall felly wneud cyfraniad cadarnhaol at gyrraedd y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae cynllunio'n ysgogydd allweddol ar gyfer twf economaidd a llesiant ac mae'n ei gwneud yn bosibl ystyried y cyflenwad o dir a'r galw amdano i gefnogi datblygiadau newydd dros y tymor canolig a hir. Mae'r system gynllunio hefyd yn allweddol i wneud cadwraeth yn realiti gan bod ganddi rôl bwysig o ran gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol.

4.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn datgan bod angen i gyrff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol) ystyried a dangos sut y maent yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i danategu eu gwaith am mai 'dull a arweinir gan gynllun yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau datblygu cynaliadwy trwy'r system gynllunio'. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir bod rhaid i bob corff sy'n gwneud penderfyniadau ystyried, a dangos, sut y gall gyflawni'r uchelgeisiau hyn.

4.4 Mae ansawdd y broses gynllunio'n dechrau â phennu amcanion ar gyfer y gwasanaeth cynllunio. Rhaid i amcanion fod yn seiliedig ar adnabod anghenion defnydd tir cymunedau ac yna'u diwallu, a dylent integreiddio amcanion datblygu, a geir mewn Cynllun Datblygu Lleol, ag amcanion corfforaethol ehangach. Gall canllawiau cyhoeddedig, pennu a monitro safonau gwasanaeth, trafodaethau cyn ymgeisio a chyfathrebu effeithiol wella ansawdd y broses, os cânt eu rheoli'n dda.

29 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf**

4.5 Canfuom nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol wedi diffinio'n glir sut y mae eu gwasanaethau cynllunio'n cyfrannu at lesiant pobl a chymunedau ac mae ein canfyddiadau'n amlygu bod angen gwaith pellach i wireddu'r dyheadau hyn. Er enghraifft, canfuom fod gweledigaeth awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer y dyfodol yn aml yn aneglur ac nad yw wedi'i hintegreiddio â chynlluniau allweddol eraill. Ychydig o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n creu'r cysylltiad rhwng llesiant a chynllunio. Er enghraifft, dim ond pedwar Asesiad Llesiant sy'n croesgyfeirio ac yn integreiddio data â'u Cynllun Datblygu Lleol. Ychydig o Gynlluniau Datblygu Lleol mabwysiedig sy'n rhannu'r un datganiad o weledigaeth â Chynllun Llesiant yr awdurdod lleol neu sydd â datganiad o weledigaeth sy'n adlewyrchu'r un yn y cynllun hwnnw.

4.6 Yn yr un modd, mae ein hadolygiad o sampl o adroddiadau monitro blynyddol[30] yn canfod bod adroddiadau'n cyflwyno dealltwriaeth resymol am effeithiau amgylcheddol polisïau cynllunio, ond na roddir ystyriaeth dda ar y cyfan i lesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae canlyniadau ymgysylltu a chynnwys yn y broses gynllunio'n feysydd sy'n gyson yn wannach mewn adroddiadau monitro blynyddol. O ganlyniad, mae awdurdodau cynllunio lleol yn ei chael yn anodd dangos effaith ehangach eu polisïau yn systematig ac yn gyson ledled Cymru.

4.7 Er mai'r Ddeddf Cynllunio a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r prif ysgogyddion ar gyfer defnydd a datblygiad tir yn y dyfodol yng Nghymru, fe wnaeth cyflwyno'r ddwy ddeddf osod galwadau enfawr ar awdurdodau cynllunio lleol. Mae'n deg dweud mai derbyniad 'llugoer' a gafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan staff awdurdodau cynllunio lleol ac aelodau o bwyllgorau cynllunio yr ymgysylltom ni â hwy. Mae uwch swyddogion cynllunio'n nodi heriau gweithredu'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth ar yr un pryd a oedd yn gosod galwadau ychwanegol, gan roi gormod o faich ar wasanaeth sy'n profi anhawster gyda chapasiti.

4.8 O ystyried y newidiadau deddfwriaethol diweddar canfuom fod llawer o awdurdodau cynllunio lleol yn adolygu trefniadau llywodraethu i sicrhau bod eu trefniadau penderfynu a chymorth yn adlewyrchu disgwyliadau'r Ddeddf Cynllunio (Cymru) a'u bod yn cyd-fynd yn fwy â'u cyfrifoldebau ehangach am lesiant. Er enghraifft, mae ansawdd, hygyrchedd a chwmpas hyfforddiant i aelodau ar faterion cynllunio'n cyd-fynd yn fwyfwy â goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Canfuom hefyd rai enghreifftiau da o'r modd y mae pwyllgorau cynllunio'n ystyried materion llesiant; yn anad dim yn y tri awdurdod parc cenedlaethol, yng Nghyngor Dinas Casnewydd ac yng Nghyngor Sir y Fflint.

30 Mae adroddiadau monitro blynyddol yn asesu a yw polisïau yn cyflawni eu hamcanion, ac a yw datblygu cynaliadwy yn cael ei gyflawni.

4.9 Gall effaith gadarnhaol cynllunio gael ei dangos a'i theimlo mewn nifer o ffyrdd. O ystyried cyfyngiadau'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer adrodd ar berfformiad sy'n barnu mewnbynnau, allbynnau ac amseroldeb, mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn canolbwyntio ar y modd y mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni deilliannau llesiant ac yn dangos sut y mae'n gwneud hynny. Canfuom rai enghreifftiau da o awdurdodau cynllunio lleol sy'n dangos dealltwriaeth well am effaith ehangach eu penderfyniadau. Er enghraifft, gwaith Cyngor Dinas Abertawe i adnabod a meintioli mesurau llesiant economaidd, a'r mesurau llesiant amgylcheddol a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir y Fflint.

4.10 Mae rhai offer cenedlaethol ar gael i feintioli budd ac effaith ehangach penderfyniadau cynllunio hefyd. Mae RTPI Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth[31] sy'n mesur y gwerth a gaiff ei greu gan gynllunio. Mae offeryn RTPI Cymru yn dod i'r casgliad bod rhoi caniatâd cynllunio a galluogi datblygiadau i gael eu cwblhau yn 2016-17 wedi achosi i werthoedd tir gynyddu fwy na £2.2 biliwn a bod ychydig dros £125 miliwn mewn cyfraniadau gan ddatblygwyr wedi cael eu sicrhau i wella seilwaith ac amwynderau lleol. Fodd bynnag, canfuom mai dim ond tri awdurdod lleol sydd wedi cyflwyno cynlluniau Ardoll Seilwaith Cymunedol hyd yn hyn – Cynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf – a bod y swm a godwyd yn 2017-18 yn gymharol fach, yn llai na £0.5 miliwn. Serch hynny, gall meintioli gwerth ariannol cynllunio gan ddefnyddio dull RTPI Cymru yn lleol helpu i ddangos effaith a budd penderfyniadau cynllunio da.

4.11 Dengys ymchwil fod dylunio adeiladau a mannau gwyrdd o ansawdd da yn llesol i iechyd, ei fod yn gallu gwella llesiant a'i fod yn helpu i osod y sylfaen ar gyfer cymunedau mwy ffyniannus a chynhwysol[32]. O'n hadolygiad canfuom fod canllawiau dylunio yn aml yn weddol gyfyngedig ac nad ydynt yn rhoi anogaeth i arloesi neu arbrofi. Dim ond pum awdurdod cynllunio sydd wedi cyhoeddi canllawiau dylunio lleol ar-lein ac nid oedd adroddiadau pwyllgorau cynllunio a adolygwyd gennym yn cyfeirio'n gyson at safonau dylunio lleol, er bod rhai canllawiau dylunio cenedlaethol defnyddiol i'w cael[33]. Mae canllawiau da a adolygwyd gennym yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf[34] ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri. Y tu allan i Gymru, canfuom ganllawiau dylunio o ansawdd da yn Sheffield[35], Awdurdod Parc Cenedlaethol Dartmoor[36], ac Ynysoedd Sili[37] hefyd.

31 Gweler **RTPI the-value-of-planning-in-wales**

32 City Health Check: How design can save lives and money, RIBA, 2017; and Design Matters: Promoting Good Design Through the Planning System, RIBA, 2019.

33 Gweler **Nodyn Cyngor Technegol 12-Dylunio 2016**

34 Gweler **Canllawiau a Gwybodaeth Dylunio RhCT**

35 Gweler **Sheffield design guidance**

36 Gweler **Dartmoor Design Guide**

37 Gweler **Isles of Scilly Design Guide**

4.12 Gall dychmygu canlyniad penderfyniadau cynllunio fod yn ffordd dda o farnu a dangos effaith gadarnhaol penderfyniadau hefyd. Mae Cyngor Dinas Casnewydd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnal teithiau blynyddol ar gyfer y pwyllgor cynllunio i weld datblygiadau newydd er mwyn barnu effaith eu penderfyniadau a helpu i adnabod yr hyn sy’n gweithio’n dda a’r hyn y gellid ei wella o ran dyluniad, cynllun ac integreiddio ag adeiladau presennol, y dirwedd a’r seilwaith.

4.13 Efallai mai canlyniad penderfyniadau cynllunio ar gyfer dinasyddion a sut y mae datblygu’n cyfrannu at wella ac ychwanegu at eu llesiant yw’r mesur gorau i ddangos pa mor dda y mae awdurdodau cynllunio’n ymateb i agenda Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Er bod y rhan fwyaf o benaethiaid cynllunio ac aelodau o bwyllgorau cynllunio’n meddwl mai dim ond datblygiadau o ansawdd da y mae’r awdurdod cynllunio lleol yn eu caniatáu, dengys ein harolwg fod llai na thraean o’r dinasyddion (29%) yn meddwl hynny, a bod ychydig dros un rhan o bump (22%) yn meddwl bod eu hawdurdod cynllunio lleol yn gallu datblygu a chefnogi’r hyn y mae ar eu cymuned ei angen yn y dyfodol.

4.14 Mae hyn yn cyferbynnu â gwaith rhai awdurdodau cynllunio yn Lloegr sy’n cydnabod bod eu gwasanaethau cynllunio’n fodd iddynt allu gweithio gyda’r sector preifat i greu incwm a chreu cyfleoedd i ddinasyddion. Er enghraifft, mae Cyngor Dinas Newcastle wedi rhoi blaenoriaeth i greu dinas fwy cynaliadwy gan ysgogi buddsoddiad o fwy nag £1 biliwn trwy ei bartneriaeth gyda Legal and General ar safle Helix, ac mae ei Ardaloedd Datblygu Cyflymach yn galluogi’r Cyngor i adfywio canol y ddinas a threchu tlodi.

4.15 Mae casgliadau ein harolwg dinasyddion yn amlygu’r her allweddol sy’n wynebu awdurdodau cynllunio lleol – ar y naill law mae’n rhaid iddynt daro cydbwysedd rhwng rheoli llif y ceisiadau cynllunio, a gwaith beunyddiol gwasanaethau rheoli datblygu ac adeiladu, a phennu gweledigaeth fwy uchelgeisiol a hirdymor sy’n cyfoethogi ac yn gwella llesiant eu cymunedau. Mae ein hadolygiad wedi amlygu bod gwasanaethau cynllunio’n allweddol i helpu i gyflawni dyheadau agenda cenedlaethau’r dyfodol, ond ar hyn o bryd oherwydd cymhlethdod y system gynllunio, capasiti sy’n mynd yn llai a phrosesau penderfynu amrywiol, mae ganddynt dipyn o ffordd i fynd er mwyn gwneud y newid sylweddol y mae ei angen.

# Atodiadau

Atodiad 1 – methodoleg yr astudiaeth

Atodiad 2 – y fframwaith cynllunio yng Nghymru

Atodiad 3 – cost net gwasanaethau rheoli datblygu awdurdodau lleol 2017-18

Atodiad 4 – cost net gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol 2017-18

Atodiad 5 – canfyddiadau’r arolwg



# Atodiad 1 – methodoleg yr astudiaeth

## Adolygiad o lenyddiaeth

Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys dogfennau polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru; cynlluniau a strategaethau awdurdodau lleol; ac ymchwil a chanllawiau perthnasol eraill gan y Llywodraeth, awdurdodau lleol, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a chyrff ymchwil.

## Dadansoddi data ac ystadegau

Rydym wedi coladu a dadansoddi ystod eang o ddatganiadau dangosyddion perfformiad a data ar gyllidebau sydd ar gael ar-lein ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, StatsCymru ac adroddiadau ar berfformiad gwasanaethau cynllunio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Gwaith maes cenedlaethol

Fe gynhaliom ni gyfweliadau gyda chynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, Cyfarwyddwr y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fe wnaethom hefyd drafod ein harolwg a'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Fforwm Datblygu Cartrefi Cymunedol Cymru.

## Gwaith maes lleol

Fe ymwelom ni ag wyth awdurdod cynllunio lleol yn 2018-19. Roedd yr awdurdodau a ddetholwyd yn cynrychioli cymysgedd o awdurdodau dinesig, trefol, gwledig ac yn y cymoedd, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Gwynedd, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Fe wnaethom waith maes gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri hefyd. Fe wnaethom hefyd ymweld â Chyngor Dinas Newcastle er mwyn cael cyferbyniad ac i ddysgu sut y maent yn cyflawni llesiant trwy eu gwasanaethau cynllunio.

## Arolygon

Fe gynhaliom ni ystod o arolygon ar-lein gyda phrif swyddogion cynllunio, aelodau o bwyllgorau cynllunio a chyrff proffesiynol sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio'n rheolaidd.

Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd i glywed am faterion cynllunio gan aelodau'r cyhoedd yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol ac fe ategwyd y gwaith ymgysylltu uniongyrchol hwn gan arolwg ar-lein ar gyfer y cyhoedd. Cawsom 627 o arolygon wedi'u cwblhau a'r rheiny'n cynnwys ymatebion gan drigolion sy'n byw yn ardal pob awdurdod cynllunio lleol.

# Atodiad 2 – y fframwaith cynllunio yng Nghymru

## Polisi Cynllunio Cenedlaethol

### Polisi Cynllunio Cymru

Polisi Cynllunio Cymru sy’n darparu’r polisi cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru. Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio’n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ategir Polisi Cynllunio Cymru gan 21 o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) seiliedig ar destunau sy’n rhoi cyngor cynllunio manwl a rhaid i’r rhain gael eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi cynlluniau datblygu. Ategir Nodiadau Cyngor Technegol gan ganllawiau gweithdrefnol mewn cylchlythyrau a llythyrau egluro polisi. Dros y pum mlynedd ddiwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynhyrchu un cylchlythyr ac un llythyr egluro polisi bob mis.

### Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Mae’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi sut y gall y system gynllunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol fod o gymorth i ateb y gofynion hyn trwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae’r ymgynghoriad ynghylch drafft cyntaf y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd i fod i ddod i ben yn haf 2019. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi fframwaith defnydd tir dros 20 mlynedd ar gyfer Cymru gyfan a bydd yn cyfarwyddo’r cynlluniau datblygu oddi tano – Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Bydd hefyd yn cefnogi penderfyniadau ynghylch prosiectau seilwaith ar raddfa fawr trwy’r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

## Polisi Cynllunio Rhanbarthol

### Ardaloedd Cynllunio Strategol a Chynlluniau Datblygu Strategol

Mae’r Ddeddf yn cynnwys pwerau i weinidogion Cymru adnabod ‘ardaloedd cynllunio strategol’ sy’n fwy nag awdurdodau cynllunio lleol ac i ‘banelau cynllunio strategol’ gael eu sefydlu ar gyfer yr ardaloedd hyn. Bydd y panelau hyn yn cynnwys aelodau etholedig o’r awdurdodau cynllunio lleol yn y rhanbarth. Os oes panel wedi’i sefydlu ar gyfer ardal, bydd hwnnw wedyn yn cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol a fydd yn rhan o’r cynllun datblygu ffurfiol ar gyfer yr ardal honno. Bydd Cynllun Datblygu Strategol yn cynnwys materion trawsffiniol megis tai a thrafnidiaeth. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol a chynllunio datblygu ar lefel ranbarthol yn newydd iawn o hyd a de-ddwyrain Cymru sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf tuag at baratoi Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol.

## Polisi Cynllunio Lleol

### Cynlluniau Datblygu Lleol

Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod cynllunio yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru. Rhaid iddynt baratoi cynllun lleol sy’n nodi polisïau cynllunio yn eu hardal. Mae’r rhain yn bwysig iawn wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Unwaith y mae’r awdurdod cynllunio lleol wedi paratoi’r Cynllun Datblygu Lleol, ceir archwiliad gan arolygydd cynllunio annibynnol i ystyried ‘cadernid’ y cynllun, gyda gwrandawiadau a gynhelir yn gyhoeddus. Mae ymgysylltu â’r gymuned yn hollbwysig i’r broses o baratoi cynllun. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn cyhoeddi Cytundeb Cyflawni ar ddechrau’r broses a hwnnw’n nodi’r camau allweddol a phryd y gall pobl chwarae rhan. Rhaid penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio yn unol â’r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall. Mae 24 o Gynlluniau Datblygu Lleol i’w cael a’r rheiny i gyd ar gamau amrywiol. Mae gan Wynedd ac Ynys Môn Gynllun Datblygu ar y cyd ac mae dau awdurdod yn y broses o fabwysiadu eu cynllun.

### Rheoli datblygu

Mae’r awdurdod cynllunio lleol hefyd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid caniatáu bwrw ymlaen â datblygiad arfaethedig. Caniatâd cynllunio yw’r enw ar hyn. Mae angen y caniatâd hwn ar y rhan fwyaf o adeiladau newydd, addasiadau mawr i adeiladau presennol a newidiadau sylweddol i ddefnydd adeilad neu ddarn o dir. Rheoli Datblygu yw’r enw ar y gwasanaethau hyn. Swyddogion awdurdod lleol sy’n ymdrin â’r rhan fwyaf o fân geisiadau cynllunio a cheisiadau cynllunio annadleuol a hynny dan bwerau penderfynu a ddirprwywyd iddynt. Mae datblygiadau sy’n fwy o faint ac yn fwy dadleuol yn cael eu penderfynu’n aml gan bwyllgor cynllunio, ar sail argymhellion swyddogion. Mae cynigion datblygu mwy sydd o bwysigrwydd mwy na lleol yn cael eu ‘galw i mewn’ i gael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru yn lle’r awdurdod cynllunio lleol. Dan rai amgylchiadau gall Llywodraeth y DU alw cynigion datblygu i mewn hefyd. Caiff taliadau eu pennu’n genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gall awdurdodau cynllunio lleol godi tâl am gyngor cyn ymgeisio hefyd a chodir am y gwasanaeth hwn yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol.

## Polisi Cynllunio Lleol (parhad)

### Rheoli adeiladu

Mae'r 22 awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau rheoli adeiladu i wirio bod gwaith adeiladu'n cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu. Mae hwn yn wasanaeth pwysig i sicrhau iechyd a diogelwch pobl yn ac o amgylch adeilad. Mae'r rheoliadau hefyd yn hybu effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau ac yn cyfrannu at ddiwallu anghenion pobl anabl. Mae gwasanaethau rheoli adeiladu hefyd yn gyfrifol am ymdrin â strwythurau peryglus, achosion o dorri rheolau a safleoedd dymchwel. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer y rhan fwyaf o waith adeiladu. Mae hyn yn cynnwys adeiladau newydd, addasu'r atig, estyniadau ac addasiadau. Ers 1985 mae gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol wedi bod mewn cystadleuaeth ag 'Arolygwyr Cymeradwy' sy'n gweithredu ar sail elw ac yn gweithio'n genedlaethol ar draws ffiniau awdurdodau. Caiff taliadau rheoli adeiladu eu pennu gan bob awdurdod lleol y mae'n rhaid iddynt fabwysiadu cynllun ffioedd. Mae ystod a chymhlethdod y ffioedd yn amrywio'n eang. Nid yw awdurdodau parciau cenedlaethol yn darparu gwasanaethau rheoli adeiladu.

### Gorfodaeth cynllunio

Mae gorfodaeth cynllunio yn ymdrin ag achosion o dorri rheolaethau cynllunio, gan gynnwys lle gwneir gwaith adeiladu y mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer heb gael caniatâd o'r fath, lle na chydymffurfir ag amodau sy'n gysylltiedig ag amod cynllunio, neu lle caiff defnydd adeilad neu safle ei newid heb ganiatâd cynllunio. Eu dyletswyddau craidd o ran gorfodaeth cynllunio yw:

- ymchwilio i honiadau ac ymholiadau;
- ysgrifennu at achwynwyr a thramgwyddwyr;
- negodi camau unioni;
- cynnal cyswllt ag adrannau eraill y cyngor i sicrhau dull cyson;
- gwneud argymhellion ynghylch doethineb cymryd camau gorfodi;
- gwirio cydymffurfiaeth â hysbysiadau gorfodi ac erlyn am ddiffyg cydymffurfio; ac
- ymddangos fel tyst ar ran yr awdurdod cynllunio lleol mewn llys ynadon.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 3 – cost net gwasanaethau rheoli datblygu awdurdodau lleol 2017-18

| Awdurdodau Lleol | Gwariant (£'000) | Incwm (£'000) | Cost Net £'000 (mae swm negatif yn golygu gwarged) | Cyfran o gymhorthdal (mae % gadarnhaol uwch yn well) |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 767 | 812 | -45 | 5.9% |
| Gwynedd | 1,097 | 528 | 569 | -51.9% |
| Conwy | 884 | 503 | 381 | -43.1% |
| Sir Ddinbych | 952 | 457 | 495 | -52.0% |
| Sir y Fflint | 1,177 | 905 | 273 | -23.1% |
| Wrecsam | 687 | 583 | 104 | -15.1% |
| Powys | 1,702 | 1,372 | 330 | -19.4% |
| Ceredigion | 793 | 375 | 418 | -52.7% |
| Sir Benfro | 1,105 | 648 | 457 | -41.4% |
| Sir Gâr | 2,272 | 1,150 | 1,122 | -49.4% |
| Abertawe | 2,897 | 2,370 | 527 | -18.2% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,277 | 438 | 839 | -65.7% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 659 | 464 | 195 | -29.6% |
| Bro Morgannwg | 1,311 | 864 | 447 | -34.1% |
| Rhondda Cynon Taf | 1,682 | 936 | 746 | -44.4% |
| Merthyr Tudful | 409 | 263 | 146 | -35.7% |
| Caerffili | 987 | 653 | 334 | -33.8% |
| Blaenau Gwent | 683 | 240 | 444 | -64.9% |
| Torfaen | 629 | 587 | 42 | -6.7% |
| Sir Fynwy | 1,079 | 430 | 649 | -60.1% |
| Casnewydd | 936 | 600 | 336 | -35.9% |
| Caerdydd | 1,209 | 2,312 | -1,102 | 91.2% |

Ffynhonnell: Data Alldro Refeniw (RO), StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru


# Atodiad 4 – cost net gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol 2017-18

| Awdurdodau Lleol | Gwariant (£'000) | Incwm (£'000) | Cost Net £'000 (mae swm negatif yn golygu gwarged) | Cyfran o gymhorthdal (mae % gadarnhaol uwch yn well) |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 455 | 454 | 1 | -0.2% |
| Gwynedd | 642 | 403 | 239 | -37.2% |
| Conwy | 332 | 173 | 159 | -47.9% |
| Sir Ddinbych | 328 | 165 | 163 | -49.7% |
| Sir y Fflint | 524 | 238 | 286 | -54.6% |
| Wrecsam | 392 | 347 | 45 | -11.5% |
| Powys | 673 | 622 | 51 | -7.6% |
| Ceredigion | 437 | 229 | 208 | -47.6% |
| Sir Benfro | 463 | 333 | 130 | -28.1% |
| Sir Gâr | 751 | 456 | 295 | -39.3% |
| Abertawe | 626 | 516 | 110 | -17.6% |
| Castell-nedd Port Talbot | 630 | 298 | 332 | -52.7% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 326 | 238 | 88 | -27.0% |
| Bro Morgannwg | 494 | 468 | 26 | -5.3% |
| Rhondda Cynon Taf | 490 | 292 | 198 | -40.4% |
| Merthyr Tudful | 218 | 141 | 77 | -35.3% |
| Caerffili | 297 | 187 | 110 | -37.0% |
| Blaenau Gwent | 441 | 105 | 336 | -76.2% |
| Torfaen | 245 | 185 | 60 | -24.5% |
| Sir Fynwy | 543 | 388 | 155 | -28.5% |
| Casnewydd | 345 | 201 | 144 | -41.7% |
| Caerdydd | 843 | 678 | 165 | -19.6% |


Ffynhonnell: Data Alldro Refeniw (RO), StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 5 – canfyddiadau'r arolwg

## Arddangosyn 14 – barn aelodau o bwyllgorau cynllunio wrth ystyried a yw eu hawdurdod cynllunio'n trefnu bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y canlynol:



Arddangosyn 15 – Arddangosyn 16: barn uwch swyddogion cynllunio wrth ystyried a yw eu hawdurdod cynllunio'n trefnu bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y canlynol:




Ffynhonnell: Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2019.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

# Adolygiad o Reoli Datblygu a Gorfodaeth Cynllunio – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3520A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gallai hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


**Mae'r Cyngor wedi cryfhau capasiti a diwylliant ei wasanaeth cynllunio ond mae arno angen mwy o gydnerthedd i oresgyn ansicrwydd yn y dyfodol**

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 8

Mae gan y Cyngor drefniadau corfforaethol sydd wedi hen ennill eu plwyf i fonitro a dysgu o brofiadau blaenorol, ac mae wedi buddsoddi yn y gwasanaeth cynllunio i fynd i'r afael â pherfformiad gwael 8

Mae'r Cyngor wedi gwella capasiti a morâl o fewn y gwasanaeth, ond mae angen iddo ddatblygu a chadw ei weithlu er mwyn cynnal y cynnydd hwn 10

Mae heriau sylweddol yn creu risg o danseilio cydnerthedd y gwasanaeth yn y tymor canolig a hir 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fel rhan o raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2022-23 fe wnaethom adolygu'r gwasanaeth rheoli datblygu a gorfodaeth cynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor).[1]

2 Mae gwasanaethau cynllunio'n effeithio ar bawb. Maent yn gwneud cyfraniad mawr at gefnogi datblygiad cartrefi newydd, gwarchod asedau naturiol, creu cyfleoedd cyflogaeth, ysgogi adfywio a datblygu economaidd, a gwella seilwaith lleol. Felly mae'r penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cynllunio lleol yn effeithio'n uniongyrchol ar ein cymunedau – gan drefnu ein llesiant a'n hansawdd bywyd, yn awr ac yn y dyfodol. I'r gwrthwyneb, gall gwasanaethau cynllunio â pherfformiad gwael danseilio sut y mae lleoedd yn edrych ac yn teimlo a hynny'n sylweddol.

3 Mae gwasanaethau cynllunio Ynys Môn wedi bod trwy ychydig o flynyddoedd anodd. Roedd perfformiad yn erbyn metrigau allweddol mewn perthynas ag amseroldeb ac ansawdd penderfyniadau cynllunio'n adlewyrchu gwasanaeth a oedd dan bwysau. Ac roedd gorfodaeth cynllunio – swyddogaeth allweddol i gynnal uniondeb y system gynllunio – yn cael trafferth ymdopi.

4 Diben yr adolygiad hwn oedd asesu sut y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau o ran perfformiad a chydnerthedd yn ei wasanaeth rheoli datblygu a gorfodaeth cynllunio.

5 Mae dwy ran i gefndir yr adolygiad hwn:

- yn gyntaf, yn 2019 fe gyhoeddom ni adroddiad cenedlaethol ar y system gynllunio yng Nghymru.[2] Fe ganolbwyntiodd yr adolygiad cenedlaethol ar bob agwedd ar awdurdodau cynllunio lleol ac fe wnaeth asesu'r cynnydd o ran rhoi Deddf Cynllunio (Cymru) 2014 (y Ddeddf) ar waith. Ar y cyfan, amlygodd system gynllunio a oedd yn cael trafferth gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf a rhoi polisi cenedlaethol ar waith.[3] Yn benodol o ran rheoli datblygu, canfuom fod capasiti dan bwysau, fod awdurdodau cynllunio'n cael trafferth cyflawni swyddogaethau allweddol, a bod cynnydd cyfyngedig wedi cael ei wneud i wella cydnerthedd. Fe wnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion a oedd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn.

[1] Rheoli datblygu yw'r swyddogaeth gynllunio sy'n ymwneud â phenderfynu a yw ceisiadau cynllunio'n cael eu cymeradwyo. Mae gorfodaeth cynllunio'n ymdrin ag achosion o dorri rheolaeth gynllunio.

[2] Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2019

[3] Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn disgrifio polisïau defnydd tir Llywodraeth Cymru.

- yn ail, fe gynhaliodd y Cyngor adolygiad mewnol o'i wasanaeth cynllunio rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019 mewn ymateb i berfformiad gwael ar draws ystod o ddangosyddion cenedlaethol. Yn dilyn ei adolygiad, argymhellodd adroddiad y Cyngor fod cynllun gwella ar gyfer y swyddogaeth gynllunio'n cael ei baratoi i fynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog yn y gwasanaeth cynllunio. Roedd y cynllun gwella hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad cenedlaethol Archwilio Cymru yn 2019.

6 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2022 a mis Ionawr 2023. Roedd ein methodoleg yn cynnwys:

- adolygiad o ddogfennau allweddol
- dadansoddiad o ddata ar berfformiad
- cyfweliadau gyda swyddogion ac Aelodau Etholedig yn y Cyngor, a chyda chynrychiolwyr o Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru.

## Yr hyn a ganfuom

7 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A oes gan y Cyngor wasanaeth rheoli datblygu a gorfodaeth cynllunio effeithiol a chydnerth?**

8 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **Mae'r Cyngor wedi cryfhau capasiti a diwylliant ei wasanaeth cynllunio ond mae arno angen mwy o gydnerthedd i oresgyn ansicrwydd yn y dyfodol**. Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro'n seiliedig ar ein casgliadau ategol:

- mae gan y Cyngor drefniadau corfforaethol sydd wedi hen ennill eu plwyf i fonitro a dysgu o brofiadau blaenorol, ac mae wedi buddsoddi yn y gwasanaeth cynllunio i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.
- mae'r Cyngor wedi gwella capasiti a morâl o fewn y gwasanaeth, ond mae angen iddo ddatblygu a chadw ei weithlu er mwyn cynnal y cynnydd hwn.
- mae heriau sylweddol yn creu risg o danseilio cydnerthedd y gwasanaeth yn y tymor canolig a hir.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
|---|
| **Gwella'r gwasanaeth**<br>**A1:** Mae Rhan 1 o'r adroddiad hwn yn amlygu cynnydd cymysg o ran cyflawni camau gweithredu allweddol o fewn cynllun gwella'r gwasanaeth sydd wedi'u bwriadu i feithrin cydnerthedd. Rydym yn argymell:<br>• bod y Cyngor yn gwerthuso cynllun gwella'r gwasanaeth i adnabod meysydd allweddol y mae'n dal heb gyflawni'r camau gweithredu ynddynt, gan sicrhau bod cyfleoedd i wella perfformiad, cydnerthedd ac enw da'n cael eu cymryd a'u hymgorffori mewn ffyrdd o weithio yn y dyfodol.<br>Bydd hyn hefyd yn galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â'r cyfleoedd ar gyfer gwella a amlygir yn yr adroddiad hwn, gan helpu i wella cydnerthedd y gwasanaeth. |
| **Monitro risg**<br>**A2:** Mae Rhan 3 o'r adroddiad hwn yn amlygu cyfleoedd i wella sut y mae'r Cyngor yn adnabod ac yn lliniaru risgiau penodol i'r gwasanaeth. Rydym yn argymell:<br>• bod y Cyngor yn cryfhau ei drefniadau sganio'r gorwel, gan sicrhau ei fod yn cydnabod yr heriau yn y tymor byr, canolig a hir sy'n wynebu'r gwasanaeth cynllunio yn ei gofrestr risgiau.<br>Bydd hyn yn gwella gallu'r Cyngor i liniaru rigiau ac ymateb iddynt. |
| **Cynllunio adnoddau**<br>**A3:** Yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn rydym yn amlygu cyfleoedd i wella sut y mae'r Cyngor yn darparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau a arweinir gan y galw. Rydym yn argymell:<br>• bod y Cyngor yn defnyddio data ar y galw a chyllid yn awr ac yn y dyfodol i oleuo penderfyniadau ynglŷn â'r adnoddau a ddyrennir i'r gwasanaethau rheoli datblygu a gorfodaeth cynllunio.<br>Bydd hyn yn gwella sut y mae'r Cyngor yn ystyried risgiau wrth ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau. |

**Argymhellion**

**Meithrin sgiliau a phrofiad**

**A4:** Mae rhannau 1 a 2 o'r adroddiad hwn yn cyfeirio at ddibyniaeth y Cyngor ar nifer fach o rolau arbenigol mewn meysydd allweddol o fewn y gwasanaeth cynllunio. Rydym yn argymell:

- bod y Cyngor yn cynnal archwiliad o sgiliau i adnabod arbenigaethau allweddol y mae eu hangen yn y gwasanaeth, i oleuo'i strategaeth rheoli'r gweithlu, gan gynnwys darpariaeth barhaus o ran hyfforddiant a datblygiad. Lle mae'r sgiliau hyn yn perthyn i grŵp bach o staff ar hyn o bryd, dylai'r Cyngor ystyried rhoi'r cyfle i eraill eu caffael i ddatblygu eu profiad.

Bydd hyn yn cryfhau trefniadau parhad busnes y Cyngor ac yn gwella cydnerthedd.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi cryfhau capasiti a diwylliant ei wasanaeth cynllunio ond mae arno angen mwy o gydnerthedd i oresgyn ansicrwydd yn y dyfodol

### Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â pherfformiad gwael

9 Mae gan y Cyngor drefniadau corfforaethol sydd wedi hen ennill eu plwyf i fonitro a dysgu o brofiadau blaenorol, ac mae wedi buddsoddi yn y gwasanaeth cynllunio i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.

10 Mae'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru[4] yn adrodd ar eu perfformiad yn erbyn 19 o fesurau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cofnodi perfformiad mewn perthynas â phum maes eang: llunio polisïau, effeithlonrwydd prosesau penderfynu, ansawdd penderfyniadau, ymgysylltu a gorfodaeth. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau'n darparu darlun o berfformiad ledled Cymru ac yn ei gwneud yn bosibl cymharu rhwng awdurdodau.[5]

11 Dengys y data cymharol diweddaraf i gael ei gyhoeddi fod y Cyngor, yn 2018-19, yn perfformio'n waeth na'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio eraill, ar lawer o'r dangosyddion perfformiad allweddol. Mae dadansoddiad meincnodi a grynhoir yn **Arddangosyn 2** yn dangos safle'r Cyngor mewn perthynas â'r 24 o awdurdodau cynllunio lleol eraill yn 2018-19.

**Arddangosyn 2: perfformiad y Cyngor yn erbyn dangosyddion cenedlaethol allweddol yn 2018-19**

Mae'r tabl isod yn nodi safle'r Cyngor yn 2018-19 ar ôl meincnodi ei berfformiad yn erbyn yr awdurdodau cynllunio lleol eraill yng Nghymru, ar gyfer saith dangosydd allweddol. At ddiben y dadansoddiad hwn, mae'r safle cyntaf yn adlewyrchu'r un â'r perfformiad gorau a'r 25ain safle yw'r un â'r perfformiad gwaethaf.

| Dangosydd perfformiad allweddol | Safle Ynys Môn /25 yn 2018-19 |
|---|---|
| Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 20fed |
| Canran yr apelau a gafodd eu gwrthod | 5ed |
| Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | 25ain |

[4] Mae'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru'n cynnwys y 22 o awdurdodau unedol a'r tri awdurdod Parc Cenedlaethol.

[5] Fframwaith Perfformiad Cynllunio, Llywodraeth Cymru

| Dangosydd perfformiad allweddol | Safle Ynys Môn /25 yn 2018-19 |
|---|---|
| Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau | 19eg |
| Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | 19eg |
| Canran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt dan bwerau wedi'u dirprwyo | 22ain |
| Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 17eg |

**Ffynhonnell:** Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru ar berfformiad[6]

12 Ar hyn o bryd, cyfyngedig yw gallu awdurdodau cynllunio lleol i feincnodi eu perfformiad. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ailddechrau cyhoeddi data ar berfformiad gwasanaeth-benodol eto ers iddi roi'r gorau i hynny yn ystod y pandemig, gyda'r data cymharol diweddaraf sydd ar gael yn gyhoeddus yn ddata ar gyfer 2018-19. Er bod hyn yn cyfyngu ar y gallu i gymharu ag awdurdodau eraill, mae uwch swyddogion ac Aelodau Etholedig Ynys Môn yn pwysleisio gwerth cymharu yn erbyn data lleol hanesyddol ac yn defnyddio gwybodaeth o'r fath yn rheolaidd i fonitro perfformiad.

13 Mae gan y Cyngor systemau da i adnabod gwasanaethau sydd dan bwysau. Trwy ei fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad, cydnabu'r Cyngor yr angen i gael dealltwriaeth well am faterion a oedd yn ymwneud â pherfformiad gwael y gwasanaeth cynllunio ac i fynd i'r afael â'r materion hynny. Mae cerdyn sgorio corfforaethol y Cyngor yn cynnwys tri o'r 19 o ddangosyddion perfformiad cynllunio cenedlaethol ac fe'i hadolygir yn chwarterol gan y Pwyllgor Gwaith[7].

14 Gweithredodd y Cyngor mewn modd pendant i fynd i'r afael â pherfformiad gwael y gwasanaeth cynllunio. Ac yntau wedi canfod bod y gwasanaeth dan bwysau, yn 2019 fe gynhaliodd y Cyngor adolygiad manwl o'r swyddogaeth gynllunio. Fe wnaeth yr adolygiad amlygu materion o ran capasiti, morâl, systemau a phrosesau monitro. Arweiniodd yr adolygiad mewnol at ddatblygu cynllun gwella ar gyfer y gwasanaeth.

15 Cymysg fu cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r cynllun gwella ar waith. Roedd y mwyafrif o'r 24 o gamau gweithredu penodol yn y cynllun i fod i ddigwydd cyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20. Er gwaethaf hyn, cyfyngedig oedd y cynnydd a wnaed gan y Cyngor gyda llawer o'r camau gweithredu hyn cyn cyhoeddi'r cyfyngiadau symud tuag at ddiwedd mis Mawrth 2020. Wedi hynny, rhoddwyd blaenoriaeth i'r newid i weithio o bell a'r pwysau digynsail ar y Cyngor i ymateb i'r pandemig a

[6] Adroddiadau blynyddol ar berfformiad gwasanaethau cynllunio, Llywodraeth Cymru

[7] Manylion Pwyllgor: Pwyllgor Gwaith, Cyngor Sir Ynys Môn

chefnogi cymunedau, gan gwtogi ar unrhyw gynnydd sylweddol o ran rhoi'r cynllun gwella ar waith.

16 Fodd bynnag, roedd rai datblygiadau allweddol yn golygu bod y gwasanaeth cynllunio mewn sefyllfa dda i addasu i weithio o bell yn ystod y pandemig. Yn 2018-19 roedd y Cyngor wedi gwneud gwelliannau i systemau llif gwaith y gwasanaeth cynllunio, a helpodd dimau i reoli llwythi achosion swyddogion yn well. Mae'r systemau ar-lein yn welliant mawr yn y ffordd y mae'r timau cynllunio'n rheoli eu gwaith gan alluogi swyddogion i gael mynediad at eu llwythi achosion a chanlyn arni â hwy o bell, a brofodd yn hanfodol yn ystod y pandemig.

17 Mae'r gwasanaeth cynllunio'n dal i gael ei gefnogi'n dda gan Isadran TGCh y Cyngor ac fe amlygodd swyddogion yn gyson pa mor bwysig yw hi o ran datblygu a hwyluso systemau allweddol. Mae'r dangosfyrddau a systemau llif gwaith presennol wedi dod yn hanfodol i redeg y gwasanaeth cynllunio, gan gyfrannu at lefel dda o gydnerthedd byrdymor o ran parhad busnes. Fodd bynnag, canfuom mai dim ond un neu ddau o swyddogion allweddol sydd â'r medrusrwydd sy'n ofynnol i ddatblygu a chynnal a chadw'r systemau hyn. Gallai'r Cyngor wneud mwy i uwchsgilio eraill yn y maes yma i wella cydnerthedd ymhellach.

## Mae'r Cyngor wedi gwella capasiti a morâl o fewn y gwasanaeth, ond mae angen iddo ddatblygu a chadw ei weithlu er mwyn cynnal y cynnydd hwn

### Rheoli datblygu

18 Mae'r Cyngor wedi sefydlogi'r gwasanaeth yn dilyn ei adolygiad mewnol. Yn dilyn trosiant sylweddol, erbyn hydref 2022 roedd y timau rheoli datblygu a gorfodaeth cynllunio ill dau wedi recriwtio'n llwyddiannus i bob swydd am y tro cyntaf mewn mwy na dwy flynedd. Fe wnaeth y Cyngor fuddsoddi'r £75,000 a ddyrannwyd fel cyllid i gyflawni'r cynllun gwella trwy greu dwy rôl 'Swyddog Cynllunio' am gyfnod penodedig o ddwy flynedd yn ei dîm rheoli datblygu. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi hefyd mewn rôl Hyfforddai Cynllunio.

19 Mae llenwi swyddi gwag a chapasiti ychwanegol wedi golygu bod swyddogion yn teimlo dan gryn dipyn yn llai o bwysau a'u bod mewn sefyllfa well i allu cyflawni yn erbyn llwyth gwaith mwy dichonadwy. Mae hyn yn helpu timau i ganolbwyntio ar broses ceisiadau'n fwy effeithlon ac ar wneud penderfyniadau o ansawdd gwell. Mae'r cynnydd mewn capasiti'n helpu'r Cyngor i wneud cynnydd yn erbyn rhai, ond nid pob un, o'r meysydd gwella strategol a nodwyd yng nghynllun gwella'r gwasanaeth.

20 Fodd bynnag, trwy'r newidiadau hyn mewn personél, mae llawer o swyddogion profiadol wedi gadael y gwasanaeth. Yr her allweddol sy'n wynebu'r Cyngor yn awr yw cadw staff a chanolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a phrofiad swyddogion.


21 Mae'r rolau Swyddogion Cynllunio newydd yn 'gam' rhwng rolau Cynorthwyydd Cynllunio ac Uwch Swyddog Cynllunio ac yn darparu cyfleoedd i staff gamu

ymlaen yn eu gyrfa. Mae cadw staff a darparu cyfleoedd iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa'n heriau allweddol sy'n wynebu'r proffesiwn yn ei gyfanrwydd, fel a amlygwyd yn ein hadroddiad cenedlaethol yn 2019. [8] Mae uwch swyddogion yn hyderus y bydd buddsoddi yn y swyddi newydd hyn yn arwain at newid sylweddol ym mherfformiad y gwasanaeth. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor ystyried y galw yn awr ac yn y dyfodol, a dangos effaith y broses ailstrwythuro dros dro hon i gyfiawnhau unrhyw fuddsoddiad parhaus.

22 Fe brofodd swyddogion ar draws y timau rheoli datblygu a gorfodaeth bwysau sylweddol o ran eu llwyth gwaith yn ystod y pandemig. Roedd hyn i'w briodoli i gynnydd sylweddol yn y galw ar y gwasanaeth cynllunio, ar y cyd â'r ffaith bod nifer o swyddi gwag yn y gwasanaeth ar adegau. Dywedodd rhai swyddogion fod ganddynt hyd at 60-70 o geisiadau yn eu llwythi achosion ar adegau – mwy na dwbl eu llwyth achosion arferol. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos nifer y ceisiadau cynllunio a'r cwynion gorfodaeth a gafwyd ers 2014-15.

**Arddangosyn 3: Y galw ar dimau rheoli datblygu a gorfodaeth y Cyngor rhwng 2014-15 a 2022-23**

Mae'r graff hwn yn dangos nifer y ceisiadau rheoli datblygu a'r cwynion gorfodaeth y mae'r Cyngor wedi'u cael ers 2014-15.





**Ffynhonnell:** Adroddiadau blynyddol ar berfformiad gwasanaethau cynllunio, Llywodraeth Cymru (hyd at 2018-19) a data'r Cyngor (ar ôl 2018-19)

[8] Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2019

23 Yng nghyd-destun galw cynyddol, fe arhosodd perfformiad yn erbyn metrigau effeithlonrwydd allweddol, megis cyfran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y graddfeydd amser gofynnol, yn ystyfnig o sefydlog rhwng 2020-21 a 2021-22. Fodd bynnag, gyda lleihad yn y galw a gwasanaeth sy'n sefydlogi, mae **Arddangosyn 4** yn dangos bod perfformiad yn 2022-23 wedi gwella.

**Arddangosyn 4: Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol, rhwng 2013-14 a 2022-23**

Mae'r graff hwn yn dangos cyfran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod perfformiad yn 'dda' os penderfynwyd ar 80% neu ragor o geisiadau o fewn y cyfnodau amser gofynnol. Mae'r Cyngor wedi mynd ymhellach trwy sefydlu targed lleol, sef penderfynu ar 90% neu ragor o fewn y cyfnodau amser gofynnol. Cyrhaeddodd y targed perfformiad hwn yn 2022-23.




**Ffynhonnell:** Adroddiadau blynyddol ar berfformiad gwasanaethau cynllunio, Llywodraeth Cymru (hyd at 2018-19) a data'r Cyngor (ar ôl 2018-19)

24 Mae ffocws o'r newydd ar effeithlonrwydd a gwella perfformiad yn y gwasanaeth cynllunio. Ysgogir y diwylliant hwn gan reolwyr yn y gwasanaeth sy'n cynorthwyo swyddogion i reoli eu llwythi achosion yn well a phrosesu ceisiadau mewn modd amserol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- cyfathrebu eglur gydag asiantau cynllunio lleol i ofyn iddynt gyflwyno ceisiadau gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol, i sicrhau eu bod yn gallu cael eu prosesu mor effeithlon â phosibl gan y Cyngor.

- mwy o ffocws ar sicrhau ‘estyniadau amser’[9] ar gyfer ceisiadau perthnasol.
- camau sicrhau ansawdd a chymeradwyo eglur ar gyfer yr holl geisiadau, a ategir gan lifoedd gwaith sydd wedi gwreiddio’n dda, gyda hynny’n cael ei hwyluso gan waith i foderneiddio a gwneud gwelliannau i systemau TGCh. Mae hyn yn cynnwys cyngor a chymorth i gynorthwywyr cynllunio, swyddogion cynllunio ac uwch swyddogion cynllunio wrth brosesu ceisiadau
- gwreiddio diwylliant o ddysgu – mae timau’n cynnal cynadleddau achosion wythnosol i drafod ceisiadau ar y cyd a goleuo penderfyniadau allweddol, gan helpu swyddogion i ddysgu ‘yn y swydd’. Mae swyddogion hefyd yn cael y cyfle i weithio ar geisiadau cymhleth ac weithiau rhai mawr fel rhan o’u datblygiad.

25 Mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella morâl a datblygu ethos ‘un tîm’. Er enghraifft, mae’r tîm rheoli datblygu wedi’i strwythuro’n ddau is-dîm, sy’n adlewyrchu ardaloedd. Mewn blynyddoedd blaenorol roedd yr is-dimau hyn yn tueddu i weithredu mewn seilos heb ryw lawer o rannu gwybodaeth a chapasiti rhwng y ddau. Mewn cyferbyniad, er bod ceisiadau’n dal i gael eu prosesu gan yr is-dimau yn ôl yr un ffiniau daearyddol, fe wnaeth swyddogion amlygu’n gyson sut y mae ethos un tîm yn cael ei wreiddio ac yn helpu i greu mwy o gydnerthedd – er enghraifft, gyda swyddogion yn rhannu beichiau’r llwythi achosion ac yn cefnogi datblygiad ei gilydd. Ceir cefnogaeth a chydnabyddiaeth i bwysigrwydd strategol cynllunio ar lefel arweinyddiaeth gorfforaethol hefyd.

26 Mae’r Cyngor yn rheoli’r galw ar y gwasanaeth. Yn ddiweddar mae wedi datblygu porth cynllunio ar-lein i leihau’r galw ar amser swyddogion trwy ddarparu mynediad rhwyddach at wybodaeth i ddinasyddion am geisiadau cynllunio. Er ei fod yn un o’r awdurdodau cynllunio lleol olaf yng Nghymru i wneud hyn[10], mae lansio Map Môn bellach yn galluogi ymgeiswyr a dinasyddion i weld gwybodaeth sy’n ymwneud â chynllunio a rheoli adeiladu ar gyfer eu hardaloedd. Fe wnaeth swyddogion ac Aelodau amlygu effaith gadarnhaol hyn, o ran rhyddhau amser swyddogion rhag gorfod ymateb i ymholiadau ac o ran trefnu bod rhagor o wybodaeth ar gael yn agored i’r cyhoedd. Mae’r Cyngor hefyd yn rheoli’r galw trwy flaenoriaethu cyngor cyn ymgeisio i ymgeiswyr posibl. Mae’r cyngor hwn yn canolbwyntio ar wella ansawdd ceisiadau y mae’r Cyngor yn eu cael wedi hynny, gan ei gwneud yn bosibl eu prosesu’n gyflymach ac yn fwy effeithlon.

27 Mae’n anorfod bod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (y Pwyllgor) yn gallu effeithio ar amseroldeb prosesu ceisiadau. Mae cynllun dirprwyo’r Cyngor yn nodi’r sail ar gyfer y mathau o geisiadau y mae swyddogion yn penderfynu arnynt dan

[9] Pan fo angen gwybodaeth ychwanegol i brosesu cais, gall y ‘cloc’ sy’n mesur nifer y diwrnodau a gymerir i brosesu ceisiadau gael ei atal i adlewyrchu’r amser a gymerir gan bartïon allanol i ymateb i’r ceisiadau hyn. Rhaid i hyn gael ei gytuno gan yr holl bartïon ac nid oedd wastad yn cael ei sicrhau mewn blynyddoedd blaenorol.


[10] Fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad yn 2019 bod y Cyngor yn un o ddau awdurdod cynllunio lleol yn unig yng Nghymru nad oeddent yn darparu gwybodaeth ar-lein am geisiadau cynllunio ar y pryd.

bwerau wedi'u dirprwyo. Pan fo ceisiadau'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor mae angen rhagor o waith gan swyddogion – er enghraifft, drafftio adroddiadau sy'n disgrifio cefndir y cais a'r penderfyniad arfaethedig. Yn Ynys Môn, oddeutu 90% fu cyfran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt gan swyddogion dan bwerau wedi'u dirprwyo dros y saith mlynedd ddiwethaf.[11] Mae **Arddangosyn 5** yn dangos yr amrywiadau chwarterol dros amser, a sut y gall gwahanol ffactorau ddylanwadu ar nifer y ceisiadau a gaiff eu hystyried gan y Pwyllgor. Mae hyfforddiant rheolaidd a pharhaus i Aelodau Etholedig yn bwysig i sicrhau dealltwriaeth gyson am eu rôl mewn perthynas â chynllunio, ac i helpu i sicrhau bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y mathau mwyaf priodol o geisiadau – h.y. ar raddfa fawr, cymhleth neu ddadleuol.

[11] Adroddiadau blynyddol ar berfformiad gwasanaethau cynllunio, Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 5: cyfran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt gan Bwyllgor Cynllunio a Gorchmynion y Cyngor, fesul chwarter ers 2014-15**

Mae'r graff hwn yn dangos sut y gall gwahanol ffactorau, megis trosiant yn aelodaeth y Pwyllgor, effeithio ar nifer y ceisiadau y mae'n eu hystyried. Ni chafodd unrhyw geisiadau eu hystyried gan y Pwyllgor yn ystod chwarter cyntaf 2020-21 oherwydd y pandemig.




**Ffynhonnell:** Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r Cyngor

## Gorfodaeth cynllunio


28 Mae'r Cyngor wedi ceisio cynyddu capasiti a meithrin ethos 'un tîm' cadarnhaol yn ei wasanaeth cynllunio; fodd bynnag, mae'r gwelliannau hyn yn gyfyngedig gan mwyaf i'r tîm rheoli datblygu. Mae perfformiad y Cyngor o ran gweithgarwch gorfodi wedi bod yn arbennig o wael mewn blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, mae **Arddangosyn 2** yn dangos mai'r Cyngor oedd yr awdurdod cynllunio lleol â'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru yn 2018-19 lle'r oedd effeithlonrwydd wrth ymdrin ag achosion gorfodi yn y cwestiwn, ac roedd hyn o bell ffordd.[12] Cafodd swyddi gwag a chyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch effaith sylweddol ar allu'r tîm bach i ymdrin â phwysau llwythi achosion.

[12] Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Gwasanaethau Cynllunio 2018-19, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2019

29 Fodd bynnag, gyda phrosesau recriwtio diweddar a phob swydd yn y tîm bellach wedi'i llenwi, mae'r tîm gorfodi wedi gallu mabwysiadu dull Gorchwyl a Gorffen i flaenoriaethu ôl-groniad o achosion cymhleth, gan arwain at welliant sylweddol mewn perfformiad. Mae'r gwelliant hwn hefyd wedi digwydd yn erbyn cefnlen o gynnydd yn y galw, fel a ddangosir yn **Arddangosyn 3**. Mae **Arddangosyn 6** yn dangos y data ar berfformiad sy'n adlewyrchu effeithlonrwydd y Cyngor wrth ymdrin ag achosion gorfodi o fewn y cyfnodau amser gofynnol.

**Arddangosyn 6: Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod, ers 2013-14**

Mae'r graff hwn yn dangos gwelliant sylweddol mewn perfformiad ers 2018-19, pan oedd perfformiad y Cyngor yn waeth nag unrhyw awdurdod cynllunio lleol arall yng Nghymru mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod unrhyw beth uwch nag 80% yn berfformiad gorfodi 'da'.




**Ffynhonnell:** Adroddiad blynyddol ar berfformiad gwasanaethau cynllunio, Llywodraeth Cymru (hyd at 2018-19) a data'r Cyngor (ar ôl 2018-19)

30 Er gwaethaf gwelliannau mewn perfformiad, mae diffyg cydnerthedd gan y tîm gorfodi. Mae gorfodaeth cynllunio'n weddol ddatgysylltiedig oddi wrth y tîm rheoli datblygu ac yn nodweddiadol mae'r gwaith yn galw am sgiliau ychydig yn wahanol, sy'n adlewyrchu natur y gwaith sydd â phwyslais ychydig bach yn wahanol ac sydd weithiau'n arwain at wrthdaro. Er gwaethaf hyn, byddai meithrin cysylltiadau agosach â'r tîm rheoli datblygu a gadael i swyddogion ehangach wneud gwaith gorfodi i helaethu eu profiad, yn helpu i wella cydnerthedd y tîm gorfodi.

31 Mae tri swyddog yn gwneud gwaith gorfodaeth cynllunio yn y Cyngor, ni waeth faint o alw sydd. Er bod perfformiad wedi gwella, gall pwysau o ran llwythi gwaith gael effaith ar staff. Nid yw'r her hon yn unigryw i Ynys Môn – mae ymchwil a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yn amlygu bod llwythi gwaith annichonadwy a dim digon o staff yn gallu arwain hefyd at analllu i ateb y galw o du'r cyhoedd.[13] Fe wnaeth ymchwil bellach gan RTPI Cymru ganfod bod bron i dri chwarter y cynllunwyr mewn awdurdodau cynllunio lleol yn teimlo'u bod dan ormod o bwysau sawl gwaith neu fwy yr wythnos.[14] Yn allanol, mae galw heb ei ateb am wasanaeth gorfodi yn creu risg o danseilio uniondeb y system gynllunio.

## Mae heriau sylweddol yn creu risg o danseilio cydnerthedd y gwasanaeth yn y tymor canolig a hir

32 Er bod gan y Cyngor gapasiti gwell yn ei wasanaeth cynllunio, mae heriau mawr ar y gorwel sy'n bygwth dadsefydlogi'r swyddogaeth. Caiff rhai o'r risgiau hyn eu rhestru isod.

- dirwyn yr uned bolisi ar y cyd â Chyngor Gwynedd i ben, a'r angen wedi hynny i gynhyrchu cynllun datblygu lleol (CDLl) newydd ar gyfer Ynys Môn. Mae'r cynllun datblygu lleol ar y cyd presennol i fod i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2026[15] ac mae cynhyrchu CDLl newydd yn broses faith sy'n cymryd o leiaf dair blynedd a hanner. Felly mae'r Cyngor yn wynebu amserlen sy'n gryn her, ac ar adeg ein gwaith maes nid oedd wedi sefydlu uned bolisi i wneud y gwaith yma eto. Roedd swyddogion ac Aelodau'n hyderus y byddai tîm newydd yn cael ei sefydlu'n gyflym ac y byddai CDLl newydd yn cael ei gynhyrchu a'i fabwysiadu yn y ffrâm amser fer hon. Roeddent yn hyderus er bod cofrestrau risgiau'r Cyngor yn amlygu nifer o swyddi gwag, a bod anawsterau cyffredinol o ran recriwtio a chadw ar draws y gyfarwyddiaeth. Mae effaith bosibl hyn ar reoli datblygu a gorfodaeth yn sylweddol. Nod Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 oedd cryfhau'r dull sy'n dilyn cynllun ac yn amlwg, heb gynllun a fabwysiadwyd yn llawn, mae'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau da'n cael ei thanseilio'n llwyr.
- mae gan Ynys Môn hanes o geisio denu diddordeb datblygiadau ar raddfa fawr, genedlaethol a rhyngwladol sydd â'r potensial i drawsnewid rhagolygon economaidd yr ynys a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru. Mae'r ffocws hwn yn parhau fel thema yng Nghynllun newydd y Cyngor 2023-2028. Mae prosiectau mawr o'r natur hon yn cynnig y potensial i effeithio ar reoli

[13] Planning Enforcement Resourcing, RTPI, Tachwedd 2022

[14] The Big Conversation – Understanding the well-being of planners in Wales, RTPI Cymru, Ionawr 2023

[15] Dyddiadau y bydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn dod i ben: llythyr i awdurdodau lleol, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Medi 2020

datblygu, pe bai pwysau recriwtio'n golygu bod gofyn ailflaenoriaethu llwythi gwaith swyddogion er mwyn sicrhau'r siawns orau o sicrhau'r datblygiadau hyn. Mae'r Cyngor yn amcanu at sicrhau cytundebau perfformiad cynllunio[16] i helpu i ariannu'r beichiau ychwanegol o ran llwythi gwaith sy'n gysylltiedig â datblygiadau o'r fath, ond gall fod yn anodd recriwtio'n briodol i ôl-lenwi rolau gwag.

- un enghraifft o ddatblygiad ar raddfa ryngwladol a sicrhawyd yn ddiweddar yw'r Statws Porthladd Rhydd ar gyfer Ynys Môn.[17] Mae porthladdoedd rhydd yn dileu rhwystrau i fasnach ac yn darparu hawddfreintiau sy'n symleiddio'r ffordd y gall busnesau weithredu. Mae rhoi'r trefniadau cynllunio gwlad a thref gofynnol ar waith, trwy Orchmynion Datblygu Lleol, yn flaenoriaeth i'r Cyngor a bydd yn broses sy'n mynd â llawer o amser ac adnoddau.
- mae cynllunio'n wasanaeth sy'n creu incwm.[18] Gan hynny, gall llai o alw am y gwasanaeth cynllunio effeithio ar y Cyngor yn ariannol. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth cynllunio'n cael 15% o'r incwm y mae'n ei greu. Gall yr incwm hwn fynd yn llai os yw'r hinsawdd economaidd sydd ohoni'n arwain at lai o alw. Mae hyn yn risg i reoli datblygu yn arbennig, pan fo llawer o'r gwelliannau mewn capasiti a morâl dros y blynyddoedd diwethaf wedi digwydd o ganlyniad i'r buddsoddiadau byrdymor mewn rolau newydd am gyfnod penodedig.
- gall newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio[19] i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ail gartrefi arwain at gynnydd yn y galw ar y tîm gorfodi, sydd eisoes dan bwysau hyd eithaf ei gapasiti, os nad y tu hwnt i hynny.

33 Mae cyfle i'r Cyngor wella'i ddealltwriaeth am arwyddocâd yr heriau hyn a'u heffaith bosibl ar y gwasanaeth cynllunio. Er enghraifft, er bod y Cyngor yn dangos ymwybyddiaeth o'r datblygiadau allweddol hyn a'r cyfleoedd a gyflwynir ganddynt, nid oedd ei gofrestrau risgiau'n adlewyrchu dadansoddiad o'r heriau uchod ar adeg ein hadolygiad. Gallai trefniadau'r Cyngor ar gyfer sganio'r gorwel gael eu gwella i'w helpu i adnabod risgiau gwasanaeth-benodol ac i gynllunio'n briodol trwy sefydlu camau gweithredu lliniarol.

[16] Prif ddiben CPC yw darparu fframwaith, y cytunwyd arno rhwng yr ACLl a'r ymgeisydd neu ymgeisydd posibl, ar gyfer y broses i ystyried cynnig datblygu mawr.

[17] Datganiad i'r Wasg: Cais Porthladd Rhydd llwyddiannus yn cynnig hwb economaidd i Ogledd Cymru, gwefan Cyngor Sir Ynys Môn, Mawrth 2023

[18] Caiff ffioedd cynllunio'u pennu'n genedlaethol gan Lywodraeth Cymru

[19] Datganiad Ysgrifenedig: Newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gosod tymor byr, Y Gweinidog Newid Hinsawdd, Medi 2022

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tindall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# Ymateb y sefydliad

**Teitl yr adroddiad:** Adolygiad o Reoli Datblygu a Gorfodi Cynllunio – Cyngor Sir Ynys Môn

**Dyddiad cwblhau:** Ebrill 2023

**Cyfeirnod y ddogfen:** 3520A2023

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y caiff y camau gweithredu arfaethedig eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | **Gwella gwasanaethau**<br><br>Mae'r Cyngor yn gwerthuso'r cynllun gwella gwasanaethau i nodi meysydd rhagorol allweddol, gan sicrhau bod cyfleoedd i wella perfformiad, gwytnwch ac enw da yn cael eu gweithredu a'u hymgorffori mewn ffyrdd o weithio yn y dyfodol.<br><br>Bydd hyn hefyd yn galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â'r cyfleoedd ar gyfer gwella a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, gan helpu i wella gwytnwch gwasanaethau. | **Cytuno**<br><br>Bydd y Cynllun Gwella presennol yn cael ei adolygu i nodi meysydd a blaenoriaethau rhagorol.<br><br>Bydd cynllun diwygiedig i fynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth hyn yn cael ei gynhyrchu. | **Rhagfyr 2023** | **Prif Swyddog Cynllunio** |
| **A2** | **Monitro risg**<br><br>Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau sganio gorwelion, gan sicrhau ei fod yn cydnabod yr heriau tymor byr, canolig a hirdymor sy'n wynebu'r gwasanaeth cynllunio yn ei gofrestr risg.<br><br>Bydd hyn yn gwella gallu'r Cyngor i liniaru ac ymateb i risgiau | **Cytuno**<br><br>Mae'r Gwasanaeth yn paratoi Cofrestr Risg a fydd yn cael ei diweddaru a'i fonitro'n rheolaidd. | **Monitro a diweddaru bob chwarter.** | **Prif Swyddog Cynllunio** |
| **A3** | **Cynllunio adnoddau.** | **Cytuno** | **Monitro a diweddaru bob chwarter.** | **Prif Swyddog Cynllunio** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Cyngor yn defnyddio data ar alw nawr ac yn y dyfodol i lywio penderfyniadau ar adnoddau a ddyrennir i'r gwasanaethau rheoli datblygu a gorfodi cynllunio. | Byddwn hefyd yn ystyried adnoddau ariannol. | | |
| **A4** | **Datblygu sgiliau a phrofiad.**<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnal archwiliad sgiliau i nodi arbenigeddau allweddol sy'n ofynnol o fewn y gwasanaeth, er mwyn llywio'r ddarpariaeth hyfforddi a datblygu. Lle mae'r sgiliau hyn yn gorwedd gyda grŵp bach o staff ar hyn o bryd, dylai'r Cyngor ystyried datgelu eraill i adeiladu eu profiad. | **Cytuno**<br><br>Derbynnir yr egwyddor, fodd bynnag, mewn gwirionedd o ystyried y pwysau sylweddol sy'n wynebu Awdurdodau Lleol bydd yn heriol. | **Monitro a diweddaru'n flynyddol** | **Prif Swyddog Cynllunio** |

This page is intentionally left blank

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn

## Diweddariad Chwarterol: 30 Mehefin 2023

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.** | Rhagfyr 2023 | Drafft i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2022-23 y Cyngor** | I roi barn ar 'gywirdeb a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. | Tachwedd 2023 | Cafwyd y Datganiad o Gyfrifon ar 30 Mehefin 2023 ac mae'r gwaith maes archwilio yn mynd rhagddo. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio ffurflenni grantiau:**<br><br>Cyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor ar y diwrnod gwaith olaf ym mis Mai 2023.<br>Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2023. | Heb gael y ffurflen eto. |
| **Ardystio ffurflenni grantiau:**<br>Ardrethi Annomestig 2022-23 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Mehefin 2023.<br>Dyddiad cau ardystio 17 Tachwedd 2023. | Cafwyd y ffurflen ar 13 Mehefin 2023. Disgwylir i'r archwiliad ddechrau'n fuan. |
| **Ardystio ffurflenni grantiau:**<br><br>Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2020-21 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2021.<br><br>Dyddiad cau ardystio 28 Chwefror 2022. | Cafwyd y ffurflen ar 28 Ebrill 2023.<br>Mae'r llythyr amodi drafft gyda'r Cyngor i'w adolygu. |
| **Ardystio ffurflenni grantiau:**<br><br>Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2021-22 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2022.<br><br>Dyddiad cau ardystio 31 Ionawr 2023. | Cafwyd y ffurflen ar 29 Ebrill 2022.<br>Mae'r gwaith profi cychwynnol yn ddatblygedig iawn. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio ffurflenni grantiau:**<br><br>Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2022-23 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau 30 Ebrill 2023.<br>Dyddiad cau ardystio 31 Ionawr 2024 (i'w gadarnhau). | Heb gael y ffurflen eto. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith archwilio perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | | |
| | • Sefyllfa ariannol | Monitro'r sefyllfa ariannol yn barhaus | Mynd rhagddo |
| | • Rheoli'r rhaglen gyfalaf | Medi – Rhagfyr 2023 | Cwmpasu |
| | • Defnyddio gwybodaeth am berfformio – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau | Chwefror – Medi 2023 | Ar y gweill – cam drafftio'r adroddiad |
| | • Gosod amcanion llesiant | Chwefror – Medi 2023 | Ar y gweill – adolygiad o'r ddogfen yn mynd rhagddo |

| Gwaith archwilio perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Thematig – Gofal Heb ei Drefnu** | Adolygiad traws-sector sy’n canolbwyntio ar lif cleifion yn allan o’r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi rhyddhau cleifion o’r ysbyty, yn ogystal ag atal derbyniadau i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hwy. | Awst 2022 – Gorffennaf 2023 | Gwaith maes bron â chael ei gwblhau, adrodd o fis Mehefin 2023 ymlaen. |
| **Adolygiad thematig – Digidol** | Adolygiad o ddull gweithredu strategol cynghorau o ran digidol, ac i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau cynghorau. | Ionawr – Medi. | Ar y gweill – cam drafftio’r adroddiad. |
| **Adolygiad o Reoli Datblygu a Gorfodaeth Gynllunio** | Bydd yr adolygiad yn ceisio cadarnhau:<br>A oes gan y Cyngor wasanaeth rheoli datblygu a gorfodaeth gynllunio effeithiol a chadarn? | Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023 | Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Ebrill 2023. |

| Gwaith archwilio perfformiad 2023-24 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 | Mynd rhagddo |
| **Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol** | Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau gan gynnwys canolbwyntio ar y gweithredoedd, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau mewn cyllid a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. | I'w gadarnhau | Cwmpasu |
| **Adolygiad thematig – comisiynu a rheoli contractau** | Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | I'w gadarnhau | Cwmpasu |
| **Prosiect lleol – Gwaith dilynol ar SATC 2018** | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Diogelwch Adeiladau** | Adolygiad o ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran diogelwch adeiladau | Medi 2022 – Awst 2023 | Adrodd – diwedd Gorffennaf 2023 | Ie – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor ac arolwg. |
| **Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio tir llwyd** | Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo a galluogi defnyddio anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd yn well. | Hydref 2022 – Medi 2023 | Adrodd – Medi 2023 | Ie – cyfweliad gyda swyddog enwebedig mewn saith cyngor ac arolwg. |
| **Llywodraethiant awdurdodau diben arbennig – Parciau Cenedlaethol** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant | Tachwedd 2022 – Medi 2023 | Casglu tystiolaeth – gwaith maes i'w gwblhau ddiwedd Mehefin 2023 | Na |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Cyd-bwyllgorau Corfforedig** | Asesu cynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth iddynt ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithio rhanbarthol. | Medi 2022 – Awst 2023 | Mae adroddiad drafft wedi'i gyhoeddi i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd llythyrau at y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig unigol hefyd yn cael eu cyhoeddi. Mae disgwyl i adroddiad cryno wedi'i ddiweddaru gael ei gyhoeddi ym mis Awst. | Ie – Fe wnaethom archwilio safbwynt y Cyngor trwy ein cyfarfodydd cyswllt arferol. Roedd y gwaith maes yn cynnwys cyfweliadau gyda'r prif weithredwr, cyfarwyddwr cyllid a chadeirydd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. |

## Estyn

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol. Mae awdurdod lleol Wrecsam yn dal i fod mewn categori sy'n peri pryder, a byddwn yn cynnull cynhadledd cynnydd ym mis Gorffennaf i werthuso cynnydd o'i gymharu ag argymhellion yr arolygiad craidd. Gwnaethom hefyd ymgymryd â gwaith cyswllt â chanolbwynt penodol ym Mhowys ym mis Mai i ystyried agweddau ar eu gwaith ar wella ysgolion, yr agenda trawsnewid a rheolaeth ariannol mewn ysgolion. Byddwn yn arolygu Gwynedd yn yr wythnos sy'n dechrau 26 Mehefin a Sir Gaerfyrddin yn yr wythnos sy'n dechrau 10 Gorffennaf.

Mae gwaith maes sy'n cael ei wneud ar draws awdurdodau lleol yn ystod tymor yr haf yn cynnwys canolbwyntio ar ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn cefnogi anghenion addysgol ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg. Ein nod yw disgrifio, cydnabod a gwerthuso profiadau'r grwpiau hyn wrth iddynt ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen 2022-23** | Rydym wedi cyhoeddi ein Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar gyfer ein gweithgaredd arolygu awdurdodau lleol \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru | Mai 2023 | Wedi'i gyhoeddi |
| **Gwaith ar y cyd** | Rydym yn cwblhau ein rhaglen waith adolygiadau thematig ar gyfer 2023-2026. Mae'r meysydd i'w hystyried yn cynnwys, diogelu oedolion, gofalwyr, y Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol a CAMHS. | Cyfredol | Ar y gweill |

| **Gwaith arfaethedig AGC 2022-23** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| | Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid, rhannu gwybodaeth a deallusrwydd gan gynnwys cwblhau adolygiadau ar y cyd. | Cyfredol | Ar y gweill |
| | Rydym yn gweithio ar y cyd ag AGIC i gynnal adolygiad cenedlaethol o'r llwybr strôc. Bydd adroddiad cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn yr haf. | Cyfredol | Ar y gweill |
| | Rydym yn parhau i weithio ar y cyd ag AGIC i gynnal arolygiadau y Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol. | Cyfredol | Ar y gweill |
| | Mae AGC yn gweithio gyda phartneriaid i gwblhau adolygiad cyflym. Amcan cyffredinol yr adolygiad cyflym yw penderfynu i ba raddau y mae'r strwythurau a'r prosesau presennol yng Nghymru yn sicrhau bod plant sydd angen gofal, cymorth ac amddiffyniad yn cael eu gosod yn briodol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a'u tynnu oddi yno, pan fo digon o dystiolaeth yn dangos ei bod yn ddiogel gwneud hynny. Mae hwn yn adolygiad cydweithredol. | Canfyddiadau interim – Cyhoeddi 22 Mehefin 2023<br><br>Adroddiad cenedlaethol – Medi 2023 | Ar y gweill |

| Gwaith arfaethedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**<br>**Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-23** | Cyhoeddwyd adroddiad 2020-21 ar 7 Chwefror 2021<br><br>Mae adroddiad 2021-2022 ar y gweill | Wedi'i gyhoeddi<br><br>I'w gadarnhau | Wedi'i gyhoeddi<br><br>Yn cael ei baratoi |
| **Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | Diben yr adolygiad<br>Rhoi proses graffu allanol ar waith, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd arferion mewn cysylltiad â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.<br>I ystyried i ba raddau y mae arferion wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus' a chyhoeddi adroddiad gweithgor amlinelliad cyfraith gyhoeddus 2021 gan gynnwys canllawiau arferion gorau. | Cyhoeddi adroddiad cenedlaethol Hydref 2023 | Ar y gweill |
| **Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)** | Dull traws-arolygiaeth. Meysydd i'w penderfynu. Byddwn yn cwblhau pedwar arolygiad aml-asiantaeth arall ar y cyd. Bydd pob awdurdod lleol yn cael llythyr cyhoeddedig ar ôl yr arolygiadau.<br>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol ddiwedd gwanwyn 2023. | Ebrill 2023 – Ebrill 2024 | Cyflawni |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers mis Mehefin 2022

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig | Mehefin 2023 |
| Cynhwysiant Digidol yng Nghymru (gan gynnwys cwestiynau allweddol i gyrff cyhoeddus) | Mawrth 2023 |
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros | Mawrth 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd | Chwefror 2023 |
| Pryniant Llywodraeth Cymru o Fferm Gilestone | Ionawr 2023 |
| Gyda'n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau | Ionawr 2023 |
| Darlun o Reoli Perygl Llifogydd | Rhagfyr 2022 |
| ‘Cyfle Wedi’i Golli’ – Mentrau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 |
| Offeryn Data ar Dlodi | Tachwedd 2022 |
| ‘Amser am newid’ – Tlodi yng Nghymru | Tachwedd 2022 |
| Dysgu o ymosodiadau seiber | Hydref 2022 (dosbarthwyd yn breifat i gyrff archwiliedig) |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21 | Hydref 2022 |
| Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Hydref 2022 |
| Taliad i Gyn-ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth | Medi 2022 |
| Hwyluso Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio? | Medi 2022 |
| Pennu amcanion llesiant – Llywodraeth Cymru | Medi 2022 |
| Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru | Medi 2022 |
| Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at fis Mawrth 2022 | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 | Gorffennaf 2022 |
| Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru | Gorffennaf 2022 |
| Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Gorffennaf 2022 |
| Dilyniant System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru – diweddariad a'r offeryn data | Gorffennaf 2022 |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru (gwaith sy'n mynd rhagddo/wedi'i gynllunio)[1, 2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Diweddariad offeryn data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Gorffennaf 2023 |
| Offeryn data cyllido'r GIG – hyd at 31 Mawrth 2023 | Gorffennaf/Awst 2023 |
| Llamu Ymlaen: Rheoli asedau a'r gweithlu mewn llywodraeth leol | Gorffennaf/Awst 2023 |
| Ymdrin ag absenoldeb athrawon – dilyniant | Awst 2023 |
| Llywodraethu ansawdd y GIG | Awst/Medi 2023 |
| Cynllunio gweithlu'r GIG (briff ar ddata) | Awst/Medi 2023 |
| Sero net (trosolwg y DU gyfan) | Medi 2023 |
| Gwasanaethau ffoaduriaid o Wcráin | Hydref/Tachwedd 2023 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio lleol eraill lle rydym o'r farn bod rhagoriaeth mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath. Er enghraifft, rydym wedi bod yn olrhain datblygiadau wrth gwblhau prosiect gwella ffyrdd adran 2 yr A465 yn dilyn ein hadroddiad canfyddiadau interim ym mis Chwefror 2020.

[2] Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur ar ein gwefan – Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026 – sy'n rhoi manylion ychwanegol am ein gwaith cenedlaethol (gan gynnwys adolygiadau thematig lleol). Yn ogystal â'r gwaith newydd y byddwn yn ei wneud yn 2023-24, mae'r papur yn cynnwys manylion am bynciau dangosol i'r gwaith ddechrau yn 2024-24 neu 2025-26.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Adolygiad o strategaeth ddigidol llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | Hydref 2023 |
| Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, canlyniadau a phersbectif defnyddwyr gwasanaethau – crynodeb cenedlaethol | Hydref 2023 |
| Tai fforddiadwy | Ionawr/Chwefror 2024 |
| Rheoli rhaglenni cyfalaf llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | I’w gadarnhau |
| Teithio llesol | I’w gadarnhau |
| Gwasanaethau canser | I’w gadarnhau |
| Cynllunio a rheoli rhaglenni | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Heriau i'r sector diwylliannol | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Digartrefedd | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth (y sector cyhoeddus cyfan ac yn Cyfoeth Naturiol Cymru) | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Ailgydbwyso gofal a chymorth | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Yr uwch wasanaeth cyhoeddus | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |

## Digwyddiadau ac adnoddau’r Gyfnewidfa Arfer Da

| Teitl | Dolen i’r adnodd |
|---|---|
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu:** Wedi'i ysbrydoli gan daith Cymdeithas Bêl-droed Cymru dros y degawd diwethaf, bydd y digwyddiad hwn yn archwilio ac yn trafod sut mae mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau yn creu agwedd gynhwysol a chadarnhaol sy'n dod yn hunangyflawnol.<br>Gan weithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg, bydd y digwyddiad hwn yn cynorthwyo ac yn ysbrydoli cyrff cyhoeddus, a'r trydydd sector i gofleidio amrywiaeth ddiwylliannol y Gymru fodern a gweithio y tu hwnt i gydymffurfio ac at ragoriaeth. | Mae'r holl adnoddau bellach ar gael ar ein gwefan.<br>Blog |
| **Gyda'n gilydd fe allwn ni – creu'r amodau i rymuso ein cymunedau i ffynnu:** Bydd y digwyddiad dysgu ar y cyd hwn yn dod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth. Byddwn yn rhannu canfyddiadau ein hadroddiadau ar fentrau cymdeithasol a chydnerthedd cymunedol, gan gynnwys ein hargymhellion wrth symud ymlaen. | 20 Mehefin 2023 – 10:00 – 12:00 – Ar-lein. **Bydd y recordiad ar gael ar ein gwefan mewn wythnos neu ddwy.** |
| **Podlediad: Tlodi a Chydnerthedd Cymunedol** Mae ein podlediad diweddaraf yn dilyn ein hadroddiadau a'n digwyddiadau diweddar ar dlodi, mentrau cymdeithasol, a chydnerthedd cymunedol. | Podlediad |
| **Strategaeth Ddigidol:** Mae pandemig Covid wedi dangos pwysigrwydd technoleg ddigidol wrth ddarparu gwasanaethau modern yn ddi-oed. Rydym wedi gweld bod technoleg ddigidol yn gweithredu fel catalydd mawr wrth addasu i'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu. Mae angen i wasanaethau cyhoeddus barhau â'r meddwl ystwyth ac ymatebol hwn a osodwyd fel y norm ac nid yr eithriad. Bydd y digwyddiad hwn yn helpu i arfogi gwasanaethau cyhoeddus â'r offer a'r wybodaeth ymarferol sydd eu hangen arnynt i weithredu Strategaeth Ddigidol yn llwyddiannus o fewn eu sefydliadau. | **21 Medi 09:00 – 13:00 – Caerdydd – I gofrestru ar gyfer Caerdydd**<br>**27 Medi 09:00 – 13:00 – Gogledd Cymru – I gofrestru ar gyfer Gogledd Cymru** |

## Blogiau Diweddar Archwilio Cymru

| Teitl | Dyddiau cyhoeddi |
|---|---|
| Helpu pobl i helpu eu hunain | 15 Chwefror 2023 |
| Storm berffaith – yr argyfwng costau byw a cham-drin domestig | 21 Tachwedd 2022 |
| Mae mynd i'r afael â thlodi yn golygu mynd i'r afael â'r data ar dlodi | 11 Tachwedd 2022 |
| Costau byw a rhoi'r fidog i gadw | 21 Medi 2022 |
| Mae pethau'n poethi i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd | 18 Awst 2022 |
| Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru | 15 Mehefin 2022 |
| Gofal heb ei drefnu yng Nghymru – system dan bwysau cynyddol | 21 Ebrill 2022 |
| Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | 18 Chwefror 2022 |
| Seibergadernid – blwyddyn ymlaen | 9 Chwefror 2022 |
| Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rhifau<br>(Offeryn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol) | 3 Chwefror 2022 |
| Galw am wybodaeth gliriach ynglŷn â gwariant ar newid yn yr hinsawdd | 2 Chwefror 2022 |
| Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau<br>(Adeiladu cydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau) | 14 Ionawr 2022 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **21 MEDI 2023** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2022/23** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **JEMMA ROBINSON** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a gyda Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23 (Atodiad 8 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna'r Cyngor llawn ar ôl i'r Pwyllgor hwn graffu arno.

## 1. Cyflwyniad

Yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adolygiad rheoli trysorlys blynyddol o'i weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2022/23. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus).

Yn ystod 2022/23, y gofynion adrodd sylfaenol oedd y dylai'r Cyngor llawn dderbyn yr adroddiadau a ganlyn:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 10 Mawrth 2022);
- adroddiad diweddaru canol blwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 9 Mawrth 2023);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgareddau o gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu ar bolisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Côd bod rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu ymlaen llaw ar bob un o'r adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau ar faterion rheoli'r trysorlys ar 14 Medi 2022 er mwyn cefnogi rôl sgriwtini yr aelodau.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y benthycwyd ac na aethpwyd y tu hwnt i'r terfyn benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig).

Hefyd, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2022/23:-

- Ffactorau allanol – gan gynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn ac effaith Covid19;
- Ffactorau mewnol – gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC);

- Y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn 2022/23 – gan gynnwys rheoli dyledion y Cyngor, gweithredu'r polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) newydd, a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheoli'r Trysorlys – beth yw'r Dangosyddion Darbodus a sut y cânt eu mesur;
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus – cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn;
- Edrych ymlaen at 2023/24 a thu draw i hynny; a'r
- Casgliad.

## 2. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

**2.1 Cyfraddau Llog –** Erbyn mis Mawrth 2022, roedd Cyfradd y Banc wedi gorffen ar 0.75%. Cynyddodd Cyfradd y Banc yn gyson trwy gydol 2022/23, gan ddechrau ar 0.75% a gorffen ar 4.25%.

**2.2 Yr Economi - y Deyrnas Unedig -** Yn erbyn cefndir o bwysau chwyddiant ystyfnig, llacio cyfyngiadau Covid yn yr economïau mwyaf datblygedig, ymosodiad Rwsia ar Wcráin, ac amryw o bolisïau gwahanol Llywodraeth y DU, nid yw'n syndod bod cyfraddau llog y DU wedi bod yn gyfnewidiol ar draws y gromlin, o Gyfradd y Banc i gynnyrch gilt 50 mlynedd, ar gyfer y cyfan o 2022/23.

Yn Chwarter 2 2022, gwelwyd twf o + 0.1% q/q yng Nghynnyrch Gros Domestic (GDP) y DU ond cafodd hyn ei wyrdroi'n gyflym yn y trydydd chwarter, er y gellir dweud mai Gŵyl y Banc ychwanegol yn sgil marwolaeth y Frenhines sydd i gyfri am rywfaint o'r gostyngiad yn y GDP. Roedd GDP Chwarter 4 yn gadarnhaol ar 0.1% q/q. Yn fwy diweddar, ym mis Ionawr gwelwyd cynnydd o 0.3% m/m mewn GDP wrth i nifer y streiciau leihau o'i gymharu â mis Rhagfyr. Hefyd, roedd y gwytnwch o ran gweithgaredd ar ddiwedd 2022, yn rhannol, oherwydd cynnydd o 1.3% q/q mewn incwm gwario gwirioneddol cartrefi. Roedd rhan fawr o hynny yn adlewyrchu'r taliadau gwerth £5.7bn a dderbyniwyd gan aelwydydd oddi wrth y llywodraeth o dan y Cynllun Cymorth Biliau Ynni.

Serch hynny, cododd chwyddiant CPI i'r hyn a ddylai fod yn ddarlleniad brig o 11.1% ym mis Hydref, er y bydd y gobaith am ostyngiadau sylweddol o'r lefel hon yn dibynnu'n fawr ar symudiadau yn y marchnadoedd nwy a thrydan, yn ogystal â'r ffactorau yn ymwneud â'r cyflenwyr sy'n effeithio ar brisiau bwyd. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o sylwebyddion yn disgwyl i'r mesur CPI o chwyddiant ostwng i tua 4% erbyn diwedd 2023. Ym mis Chwefror 2023, roedd y CPI yn 10.4%.

Bu gostyngiad yng nghyfradd diweithdra'r DU trwy gydol 2022 i'r lefel isaf ers 48 mlynedd, sef 3.6%, a hyn er gwaethaf cynnydd net o tua 500k o ran ymfudo. Fodd bynnag, erys y ffaith, gyda llawer o gyfranogwyr economaidd wedi'u cofrestru'n sâl yn y tymor hir, bod gweithlu'r DU wedi crebachu tua 500k yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin. Heb gynnydd yng nghyfradd cyfranogiad y gweithlu llafur, mae'n anodd gweld sut y bydd economi'r DU yn gallu tyfu a ffynnu, a gyda chynnydd cyflogau ar gyfartaledd dros 6% bydd yr MPC yn pryderu y bydd chwyddiant cyflog yr un mor anwadal â chyflenwadau bwyd (i fyny 18.3% y/y ym mis Chwefror 2023) ac ynni sy'n cael ei effeithio ers ymosodiad Rwsia ar Wcráin ar 22 Chwefror 2022.

Yn y cyfamser, yn dilyn y gystadleuaeth am arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol, daeth Liz Truss yn Brif Weinidog am saith wythnos gythryblus trwy fis Medi a Hydref. Yn syml, nid oedd y marchnadoedd yn hoffi'r polisïau torri trethi a gwariant trwm heb eu cyllido a gyflwynwyd gan ei Changhellor, Kwasi Kwarteng, a pharhaodd eu teyrnasiad prin saith wythnos cyn i'r Prif Weinidog Rishi Sunak a'r Canghellor Jeremy Hunt gymryd eu lle. Fe wnaeth Datganiad yr Hydref ar 17 Tachwedd arwain at dynhau cyllidol net o £55bn, er bod llawer o'r "gwaith penodol" wedi'i adael i'r Senedd nesaf ei gyflawni. Fodd bynnag, roedd y marchnadoedd yn hoffi'r hyn a glywsant, ac mae cynnyrch gilt y DU wedi gwyrdroi'r cynnydd a welwyd o dan denantiaid blaenorol Rhif 10/11 Stryd Downing, er eu bod yn parhau i fod yn uwch, yn unol ag economïau datblygedig yn gyffredinol.

Fel y nodwyd uchod, nid oedd y GDP yn uchel trwy gydol 2022/23, er bod y Mynegeion Rheolwr Prynu Cyfansawdd diweddaraf ar gyfer y DU, yr UD, EZ a China i gyd wedi synnu ar yr ochr orau, gan gofrestru sgoriau arolwg ychydig yn uwch na 50 (mae is yn awgrymu bod economïau'n crebachu, ac mae uwch yn awgrymu eu bod yn ehangu). Mae'n dal yn aneglur p'un a yw hynny'n golygu y bydd dirwasgiad bas, neu waeth, yn cael ei osgoi. Yn y pen draw, bydd yr MPC eisiau gweld tystiolaeth berthnasol o ostyngiad mewn pwysau chwyddiant a llacio mewn marchnadoedd llafur. Yn realistig, mae hynny'n ganlyniad annhebygol heb fod diweithdra'n codi a setliadau cyflog yn gostwng o'u lefelau presennol. Ar hyn o bryd, roedd y cynnydd mwy mewn cyflogaeth yn cadw'r gyfradd ddiweithdra ILO yn ddisymyd ar 3.7% ym mis Ionawr. Hefyd, er bod nifer y swyddi gwag wedi gostwng am y nawfed mis yn olynol ym mis Chwefror, fe wnaethant aros tua 40% yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

Mae ein dadansoddwyr economaidd, Capital Economics, yn disgwyl i GDP gwirioneddol grebachu oddeutu 0.2% q/q yn Chwarter 1 a rhagwelir dirwasgiad eleni sy'n cynnwys cwymp o'r brig i'r gwaelod o 1.0% mewn GDP go iawn. Mae'r £ wedi aros yn gadarn yn ddiweddar, gan godi o'r lefel isaf erioed o $1.035, ar y dydd Llun yn dilyn "digwyddiad cyllidol" llywodraeth Truss, i $1.23. Er gwaethaf perfformiad gwell y £ yn ddiweddar, yn 2023 mae'n debygol y bydd newid sylweddol o ran tai gan fod morgeisi cyfradd sefydlog wedi symud dros 4.5% ac mae fforddiadwyedd wedi'i wasgu er bod toriadau Treth Stamp arfaethedig yn dal yn eu lle.

## 3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

**3.1 Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2022/23 –** Mae'r Cyngor yn mynd i wariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Gellir cyllido'r gweithgareddau hyn naill ai:-

- Ar unwaith trwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Trwy fenthyca: os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthyca.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn un o'r dangosyddion darbodus angenrheidiol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwir wariant cyfalaf a sut y cyllidwyd hyn:-

| | **Amcangyfrif 2022/23 (£'m)** | **Gwirioneddol 2022/23 (£'m)** |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol | 40 | 30 |
| Gwariant Cyfalaf o'r CRT | 15 | 11 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **55** | **41** |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 19 | 19 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 3 | 4 |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 8 | 3 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 10 | 7 |
| **Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd trwy fenthyca** | **13** | **8** |
| **Gwariant cyfalaf o'r CRT a gyllidwyd trwy fenthyca** | **2** | **0** |

Y prif reswm am y tanwario oedd y tanwariant mawr yn erbyn y prosiectau a restrir isod:-

| Cynllun | Tanwariant £’m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adnewyddu adeiladau ysgol | 1.186 | Yn rhan olaf 2022/23, dyfarnwyd £1.189m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido gwariant cyfalaf ar adeiladau addysg yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedir gan yr Awdurdod o'r grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith cyfalaf ysgolion yn 2023/24. |
| Prydau Ysgol am Ddim | 0.600 | Yn rhan olaf 2022/23, dyfarnwyd £0.832m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer ysgolion ar gyfer cyflwyno’r cynllun paratoi prydau ysgol am ddim. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a benderfynwyd yn lleol yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Roedd £0.013m o wariant hefyd yr oedd yr Awdurdod yn ystyried yn wariant refeniw, er ei fod yn gymwys yn unol â thelerau'r grant, felly, trosglwyddwyd £0.013m o'r cyllid hwn i refeniw, oedd yn golygu bod y gyllideb gyfalaf yn £0.819m. Bydd y cyllid a arbedir gan yr Awdurdod o'r grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith paratoi prydau ysgol am ddim yn 2023/24. |
| Grant Ysgolion Bro | 0.451 | Yn 2022/23, dyfarnwyd £0.476m o gyllid grant i'r Awdurdod i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion y tu allan i'r oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ac agor ysgolion yn ddiogel y tu allan i oriau traddodiadol, er mwyn i gymuned allu defnyddio’r cyfleusterau presennol. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23 ac, oherwydd amseriad y cyllid, roedd disgwyl i'r cynllun danwario yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol.<br><br>Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a benderfynwyd yn lleol yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Roedd £0.025m o wariant hefyd yr oedd yr Awdurdod yn ystyried yn wariant refeniw, er ei fod yn gymwys yn unol â thelerau'r grant, felly, trosglwyddwyd £0.025m o'r cyllid hwn i refeniw, oedd yn golygu bod y gyllideb gyfalaf yn £0.451m. Bydd y cyllid a arbedir gan yr Awdurdod o'r grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido prosiectau Ysgolion Bro yn 2023/24. |
| Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 0.436 | Yn 2022/23, dyfarnwyd £0.476m o gyllid grant i'r Awdurdod i gefnogi dysgwyr ag ADY. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23 ac, oherwydd amseriad y cyllid, roedd disgwyl i'r cynllun danwario yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol.<br><br>Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a benderfynwyd yn lleol yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedir gan yr Awdurdod o'r grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido prosiectau ADY yn 2023/24. |

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adeilad Addysg Mynediad i'r Anabl | 0.145 | Mae hyn oherwydd bod addasiadau i'r anabl wedi'u cwblhau ym mhob ysgol uwchradd ac eithrio un. Mae'r ysgol uwchradd sy'n weddill wedi'i gohirio hyd nes ceir canlyniad yr astudiaethau dichonoldeb. Mae gwaith i ysgolion cynradd yn cael eu cwblhau yn ôl yr angen.<br><br>Er bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud, efallai y bydd angen rhagor o waith yn y dyfodol i fynd i'r afael ag anghenion unigolion nad ydynt yn hysbys i ni eto ac, felly, mae'n ofynnol i'r tanwariant lithro i 2023/24. |
| Cynlluniau Llifogydd amrywiol | 1.198 | Mae rhai cynlluniau yn parhau ac yn cynnwys gwahanol flynyddoedd ariannol. Yn achos eraill, bu oedi a chaniatawyd estyniadau amser i'w cwblhau gyda sêl bendith Lywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen y cyllid, ac mae cynlluniau eraill wedi eu cwblhau. |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol – Gwelliannau i'r isadeiledd | 0.416 | Oherwydd natur y gwaith a'r amser a gymerir i ddarparu isadeiledd, mae estyniad amser wedi'i sicrhau tan fis Mehefin 2023. |
| Isadeiledd Morwrol | 0.178 | Mae gwaith yn Amlwch yn cael ei flaenoriaethu ac, er bod gwaith cefndir wedi dechrau ac ymgynghorwyr wedi eu penodi, mae angen y gyllideb lawn o hyd, a bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd yn 2023/24. |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 0.199 | Yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol, roedd disgwyl i'r cynllun hwn lithro, a rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd yn 2023/24. |
| Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu – Band B | 1.191 | Bu oedi o 18 wythnos oherwydd bod y ddaear yn hynod wlyb. Bu'n rhaid gwneud gwaith draenio ychwanegol. Mae'r gwaith o agor ffosydd a chreu sylfeini concrit wedi cychwyn. Aros am gadarnhad o gynnydd mewn costau oherwydd oedi, gwaith draenio, amodau gwael y ddaear a sylfeini concrit dyfnach. |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 0.466 | Mae'r broses atgyfeirio gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi arafu, yn sgil y pandemig, ynghyd â phrinder contractwyr. Roedd mwy o atgyfeiriadau wedi'u cymeradwyo ond, gyda chronfa lai o gontractwyr, nid yw'r gwaith yn cael ei gwblhau mor gyflym. Mae'r mater hwn yn cael sylw yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 0.491 | Roedd y prisiau tendro cychwynnol a dderbyniwyd yn uwch na'r cyllid oedd ar gael. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailgynllunio'r cynllun i leihau'r costau i gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael. |
| Gwaith cyfalaf i asedau presennol | 0.476 | Mae'r gyllideb sy'n weddill wedi ymrwymo i waith sy'n cynnwys 2022/23 a 2023/24. Mae'r gwaith yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yng Nghanolfannau Hamdden Caergybi ac Amlwch. |

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Uwchraddio Cyfleusterau Cyhoeddus | 0.361 | Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella cyfleusterau cyhoeddus, a fydd yn rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf yn y flwyddyn ariannol nesaf. Rhagwelir hefyd y gallai cyllid grant pellach ar gyfer gwaith cyfalaf i gyfleusterau cyhoeddus ddod yn y flwyddyn ariannol nesaf, a gellid defnyddio rhan o'r gyllideb hon eto fel cyllid cyfatebol os bydd y cyfle yn codi. |
| Cerbydau | 0.510 | Mae cynllun yn cael ei roi ar waith i ddarparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y safle, fodd bynnag, nid ydynt wedi'u cwblhau eto a, hyd nes y cyflawnir y broses derfynol, gohiriwyd archebion ar gyfer cerbydau trydan. Mae cerbydau eraill wedi'u harchebu cyn diwedd y flwyddyn, fodd bynnag, oherwydd yr amser a gymerir i'w cyflenwi, byddant yn cael eu derbyn ar ôl diwedd y flwyddyn ac, felly, bydd yn ofynnol i'r gyllideb lithro i'r flwyddyn ariannol 2023/24. |
| Cronfa Gofal Integredig (ICF) | 0.694 | Hawliwyd £0.852m drwy'r ICF yn y flwyddyn flaenorol a thrwy gyllid a ddadleolwyd, i'r prosiectau lithro i 2022/23 i'w cwblhau. Bydd rhai o'r prosiectau'n parhau yn 2023/24 a chytunwyd gyda'r tîm rhanbarthol y gellir dwyn ymlaen y cyllid i gyllido'r gwaith o'u cwblhau yn 2023/24. |

3.2 **Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau Arian Parod** – Mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau refeniw a chyfalaf a chyllid ar gyfer llif arian. Roedd adnoddau arian parod craidd y Cyngor fel a ganlyn:-

| **Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau y gellir eu defnyddio** | **Drafft 31 Mawrth 2023 £'m** | **Terfynol 31 Mawrth 2022 £'m** |
|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn gyffredinol Cronfa'r Cyngor | 13.967 | 12.278 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 19.637 | 23.181 |
| Cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 12.107 | 12.333 |
| Cronfeydd wrth gefn ysgolion | 6.716 | 7.827 |
| Cronfeydd wrth gefn derbyniadau cyfalaf | 1.908 | 2.381 |
| Grant Cyfalaf heb ei Ddefnyddio | 0.407 | 0.000 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** | **54.742** | **58.000** |
| | | |
| **Darpariaethau** | **5.037** | **4.915** |
| | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a'r darpariaethau** | **59.779** | **62.915** |

**3.3 Allanoli benthyca –** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r GCC yn deillio o weithgareddau cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2022/23 a gyllidwyd drwy fenthyca, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei ad-dalu gyda refeniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthyca hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gyfer y cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthyca gan gyrff allanol (megis y Llywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian) neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. Ni fenthycwyd unrhyw gyllid allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

**3.3.1 Benthyca Gros a'r GCC -** Er mwyn sicrhau bod y lefelau benthyca'n ddarbodus dros y tymor canol ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrif o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth fenthyca fewnol bellach wedi bod ar waith yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyca gros o £123.8m ar 31 Mawrth 2023 yn llai na'r GCC a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf:-

| | **Gwirioneddol 2022/23 £'m** | **Amcangyfrif 2023/24 £'m** | **Amcangyfrif 2024/25 £'m** |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 144.1 | 173.9 | 202.7 |

**3.3.2 Benthyca mewnol -** yw pan ddisgwylir, dros y tymor canol, i'r cyfraddau buddsoddi barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid cael gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn sicrhau'r arbedion tymor byr gorau. Y ffigwr benthyca mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r Sefyllfa Benthyca Gros. Fel y gwelir o'r tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn, y sefyllfa fenthyca fewnol oedd £12.5m. Nid oedd unrhyw fenthyciadau PWLB newydd yn ystod y flwyddyn ac roedd oedd angen ad-dalu £2.285m, a derbyniwyd benthyciad di-log o £1.123m yn ystod y flwyddyn (yn unol â 3.4 a 3.5 isod). Mae hyn yn golygu bod y sefyllfa benthyca mewnol ar 31 Mawrth 2023 yn £20.3m:-

| | **31 Mawrth 2022 Gwirioneddol £'m** | **31 Mawrth 2023 Gwirioneddol £'m** |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyca gros | 125.3 | 123.8 |
| GCC | 137.8 | 144.1 |
| (Tangyllido / Gorgyllido'r GCC | (12.5) | (20.3) |

**3.4 Benthyciadau eraill -** Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor gymryd unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill. Derbyniwyd benthyciad di-log o £1.123m yn ystod 2022/23 i gyllido gwariant cyfalaf ar brosiectau arbed ynni a bydd yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau blynyddol.

**3.5** **Ad-dalu Dyledion** - Roedd tri benthyciad PWLB yn aeddfedu yn ystod y flwyddyn. Roedd £1m yn aeddfedu ar 19 Awst 2022. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Gorffennaf 2007 ar sail cyfradd llog o 5.35%. Roedd £1.0m wedi'i aeddfedu ar 16 Ionawr 2023. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Mai 1995 ar sail cyfradd llog o 8.5%. Roedd £0.285m wedi'i aeddfedu ar 31 Mawrth 2023. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Mai 1995 ar sail cyfradd llog o 8.5%. Nid oes benthyciadau tymor byr yn weddill.

**3.6** **Buddsoddiadau –** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er y cedwid y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy. Roedd disgwyl i falansau arian parod fod hyd at £65m, yn amrywio rhwng £38m a £65m. Roedd y gyllideb llog o £5k a osodwyd ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar y llog a dderbyniwyd y flwyddyn flaenorol, gan ystyried y cyfraddau llog isel, buddsoddiadau cyfyngedig mewn Awdurdodau Lleol eraill a'r ffaith bod enillion ar fuddsoddiadau yn parhau i fod yn agos at sero ar adeg paratoi'r gyllideb y gellir derbyn llog arni ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, gyda chyfraddau llog yn codi'n uwch na'r hyn a ragwelwyd ar adeg paratoi cyllideb 2022/23 ac, felly'n darparu mwy o gyfleoedd i fuddsoddi arian dros ben, mae balansau cyfartalog o £55.8m wedi sicrhau £0.86m ar gyfradd llog gyfartalog o1.55%.

Bu gwelliant o ran adenillion buddsoddiadau yn ystod 2022/23 wrth i fanciau canolog, gan gynnwys Banc Lloegr, sylweddoli nad oedd pwysau chwyddiant yn rhywbeth dros dro, a bod galw am bolisi ariannol tynnach. Gan ddechrau ym mis Ebrill ar 0.75%, cynyddodd y Gyfradd Banc yn raddol naill ai 0.25% neu 0.5%, gan gyrraedd 4.25% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r potensial am un neu ddau gynnydd pellach yn 2023/24.

Roedd rhai o adneuon y Cyngor mewn cyfrifon nad oes angen rhoi rhybudd ar gyfer tynnu arian allan ac maent yn talu llog ar gyfraddau sy'n agos i'r gyfradd sylfaenol ar y pryd, £11.521m ar 1.25% ar 31 Mawrth 2023 (31 Mawrth 2022 £38.616m ar 0.05%). Roedd pedwar buddsoddiad tymor byr arall ar 31 Mawrth 2023 - £30.0m ar gyfradd llog o 3.96% (£7.5m ar 0.77% ar 31 Mawrth 2022). Roedd pob buddsoddiad am lai na blwyddyn.

Ar 22 Gorffennaf 2022, aeddfedodd buddsoddiad o £7.5m gyda Goldman Sachs (oedd yn daladwy ar 31 Mawrth 2022), ac fe'i hail-fuddsoddwyd ar yr un dyddiad. Ceir manylion am yr holl fuddsoddiadau newydd yn y flwyddyn, gyda'u cyfraddau llog, yn y tabl isod:-

| Gwrth Barti | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Dod i ben | Cyfradd Llog % | Swm £ |
|---|---|---|---|---|
| Banc y National Westminster | 11/04/2022 | 11/10/2022 | 1.30 | 10,000,000 |
| Santander | 10/05/2022 | 10/11/2022 | 1.47 | 7,500,000 |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | 17/05/2022 | 17/08/2022 | 0.97 | 7,500,000 |
| Goldman Sachs | 22/07/2022 | 22/12/2022 | 2.18 | 7,500,000 |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | 17/08/2022 | 17/11/2022 | 1.87 | 7,500,000 |
| Banc y National Westminster | 11/10/2022 | 11/01/2023 | 2.70 | 10,000,000 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 25/10/2022 | 25/04/2023 | 3.80 | 5,000,000 |
| Santander | 10/11/2022 | 10/02/2023 | 3.24 | 7,500,000 |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | 17/11/2022 | 17/02/2023 | 3.03 | 7,500,000 |
| Cyngor Cernyw | 25/11/2022 | 27/02/2023 | 3.06 | 5,000,000 |
| Goldman Sachs | 22/12/2022 | 22/06/2023 | 3.83 | 7,500,000 |
| Banc y National Westminster | 11/01/2023 | 11/07/2023 | 4.10 | 10,000,000 |
| Santander | 10/02/2023 | 10/05/2023 | 4.00 | 7,500,000 |
| Cyngor Cernyw | 27/02/2023 | 24/03/2023 | 3.90 | 5,000,000 |

**3.7 Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2023** – Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor yn cael ei threfnu gan y Gwasanaeth Rheoli Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer y gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy gyflwyno'r adroddiadau a nodir yn y crynodeb i Aelodau, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23. Nid aethpwyd tu hwnt i'r terfynau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthyca a buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23 fel a ganlyn: -

| | **31 MAWRTH 2022** | | | **31 MAWRTH 2023** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **Cyfradd Gyfartalog (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog (blynyddoedd)** | **£'m** | **Cyfradd Gyfartalog (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog (blynyddoedd)** |
| Dyled i'r PWLB<br>Dyledion Eraill<br>**Cyfanswm** | 121.9<br>3.4<br>**125.3** | 4.58<br>0 | 29.58<br>4.03 | 119.6<br>4.2<br>**123.8** | 4.54<br>0 | 29.15<br>3.73 |
| GCC | 137.8 | | | 144.1 | | |
| Gor / (tan) fethyca | (12.5) | | | (20.3) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (pob un < 1 blwyddyn, wedi eu rheoli yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog)<br><br>Buddsoddiadau di-rybudd (pob un wedi ei reoli yn fewnol) | 7.500<br><br>38.616 | 0.765<br><br>0.05 | | 30.000<br><br>11.521 | 3.96<br><br>1.25 | |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **46.116** | **0.17** | | **41.521** | **3.21** | |

Dadansoddiad pellach o'r benthyca yn ôl y cyfnod aeddfedu:-

| | **31 MAWRTH 2022** | | **31 MAWRTH 2023** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **% o'r cyfanswm** | **£'m** | **% o'r cyfanswm** |
| Cyfanswm benthyca | 125.3 | 100 | 123.8 | 100 |
| Llai na 12 mis | 2.7 | 2.2 | 2.3 | 1.9 |
| 1 – 3 blynedd | 3.4 | 2.7 | 3.3 | 2.7 |
| 4 – 6 blynedd | 4.5 | 3.6 | 5.6 | 4.5 |
| 7 – 10 mlynedd | 4.9 | 3.9 | 3.8 | 3.1 |
| 10 mlynedd a mwy | 109.8 | 87.6 | 108.8 | 87.8 |

Ni chymerwyd benthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn (tymor hir neu fyr), gyda benthyciad di-log yn cael ei dderbyn yn y flwyddyn fel y nodir yn 3.4 uchod. Mae ad-daliadau dyled wedi cael eu disgrifio ym mhwynt 3.5 uchod. Felly, mae'r symudiadau yn y categorïau uchod yn unol â dyddiadau aeddfedu'r benthyciadau yn unig.

## 4. Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2022/23

**4.1 Aildrefnu Dyledion –** Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthyca newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu.

4.2 **Benthyca cyn bod angen –** Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor fenthyg mwy nag yr oedd ei angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa ar fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.

4.3 **Polisi Buddsoddi** – Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cael ei reoli gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru, a roddwyd ar waith yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2022. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi, ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddyfarnwyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd ac ar ddata ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis rhagolygon ar gyfer cyfraddau, cyfnewidiadau diffyg credyd, prisiau cyfranddaliadau banc ac ati). Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, ac yna pa mor hawdd yw cael gafael ar arian parod pe bai'r Cyngor ei angen ac wedyn canran y llog y bydd y Cyngor yn ei dderbyn am y buddsoddiad. Y strategaeth ar fuddsoddi arian parod dros ben fyddai benthyca tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf mewn ffordd ddiogel.

4.4 **Strategaeth fenthyca a rheoli risg cyfraddau llog** – Yn ystod 2022/23, cynhaliodd y Cyngor sefyllfa o danfenthyca. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthyca cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn â dyled benthyciadau, gan fod arian parod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cam dros dro. Roedd y strategaeth hon yn un ddarbodus gan fod enillion ar fuddsoddiadau yn isel iawn ac roedd angen ystyried lleihau risg gwrthbartïon wrth fuddsoddi hefyd.

4.5 **Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)** – Yn 2022/23, rhoddodd y Cyngor bolisi MRP newydd ar waith ar ôl gofyn am gyngor gan ei gynghorwyr Trysorlys. Mae'r polisi newydd yn ddull mwy darbodus, gyda'r tâl MRP yn adlewyrchu'r newid yng ngwerth asedau. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023.

## 5. Rheoli'r Trysorlys

Mae'r dangosyddion Darbodus canlynol wedi'u cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 yr adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd ar gyfer 2022/23.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf** – Dyma'r rhagolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2022/23 a 2025/26, ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

- **Angen y Cyngor i Fenthyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)** - Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) y Cyngor. Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill na thalwyd amdano eto, naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n cyfateb i angen benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf uwch na hynny, ac na thalwyd amdano'n syth drwy adnoddau refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu'r GCC. Nid yw'r GCC yn cynyddu am gyfnod amhenodol, gan fod y ddarpariaeth refeniw isaf (MRP) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn fras, yn lleihau'r angen i fenthyca yn unol â hyd oes pob ased ac, felly, codir tâl am yr asedau cyfalaf fel y byddant yn cael eu defnyddio.

- **Doethineb Ariannol – Dyledion Gros a'r GCC** – Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddyledion gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrif o unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2022/23 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol. Mae hyn yn golygu bod peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cyfyngedig cynnar ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ond mae'n sicrhau na fenthycir at ddibenion refeniw.

- **Dyledion Allanol - Y trothwy awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol** - Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn cyfyngu lefel y benthyca i uchafswm penodol. Mae'n uchafswm na fedrir benthyca'n allanol y tu draw iddo, ac mae angen i'r uchafswm hwn gael ei osod neu ei adolygu gan y Cyngor llawn. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol, er nad yn ddelfrydol, y gellir ei chynnal yn y tymor byr, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hir. Dyma'r cyfyngiad statudol y penderfynir arno o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai cynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad yw'r pŵer hwn wedi'i roi ar waith hyd yma. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adrodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol ac nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r safbwynt hwn yn ystyried yr ymrwymiadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad ar y gyllideb. Mae'r Uchafswm Awdurdodedig yn cael ei osod yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Y terfyn gweithredol** – Dyma'r terfyn na ddisgwylir i ddyledion allanol fod yn uwch nag ef fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hwn yn ffigwr tebyg i'r GCC, ond gallai fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r dyledion gwirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthyciadau drwy adnoddau ariannol eraill. Mae'n dderbyniol cael cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai o dan neu uwchben y terfyn gweithredol ar yr amod nad eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig. Gosodir y Terfyn Gweithredol yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Fforddiadwyedd – Y gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrwd refeniw net** – Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill net o incwm o fuddsoddiadau) yn erbyn y llif refeniw net.

## 6. Y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol o gymharu â'r Rhai a Ddisgwyliwyd

**6.1** Yn ystod 2022/23, cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddio. Mae'r data allweddol ar gyfer y dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol, sy'n nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys Gwirioneddol | 2021/22 Gwirioneddol £'m | 2022/23 Gwreiddiol £'m | 2022/23 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf** | | | |
| • Dim CRT | 23.734 | 17.177 | 29.510 |
| • CRT | 9.723 | 18.784 | 11.180 |
| • **Cyfanswm** | **33.457** | **35.961** | **40.690** |
| **Cyfanswm Gofynion Cyllido Cyfalaf:** | | | |
| • Dim CRT | 99.387 | 107.867 | 105.824 |
| • CRT | 38.415 | 43.646 | 38.287 |
| • **Cyfanwm** | **137.802** | **151.513** | **144.111** |
| **Benthyca Gros** | 124.348 | 144.335 | 123.800 |
| **Dyledion Allanol** | 124.348 | 144.335 | 123.800 |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| • Mwy nag 1 flwyddyn | 0 | 0 | 0 |
| • Llai nag 1 flwyddyn | 46.116 | 15.000 | 41.522 |
| • **Cyfanswm** | **46.116** | **15.000** | **41.522** |
| Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net – Cronfa'r Cyngor | 4.50% | 4.40% | 2.78% |
| Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net - CRT | 9.12% | 13.40% | 7.18% |

**6.2** Y Dangosydd Darbodus cyntaf yn y tabl uchod yw'r Gwariant Cyfalaf. Y Gwariant Cyfalaf a ragwelwyd ar adeg paratoi'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2022/23 oedd £35.961m. Fodd bynnag, y gwir wariant oedd £40.690m. Roedd y dangosydd darbodus yn seiliedig ar y gyllideb gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2022/23 (£35.961m). Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb hon yn cynnwys unrhyw symiau ar gyfer llithriad o'r flwyddyn flaenorol a, hefyd, y ffaith fod cynlluniau ychwanegol wedi'u hychwanegu i'r rhaglen gyfalaf drwy gydol y flwyddyn - dyna pam fod gwariant cyfalaf nad yw'n ymwneud â'r CRT yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Dylid cyfeirio at baragraff 3.1 yn yr adroddiad hwn i weld y gyllideb gyfalaf derfynol nad yw'n ymwneud â'r CRT o gymharu â'r gwariant gwirioneddol a'r rhesymau am y tanwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb. Mae tanwariant sylweddol ar wariant cyfalaf y CRT, yn bennaf oherwydd gwaith annisgwyl, oedi o ran cynllunio, materion yn ymwneud â thendro a / neu anawsterau wrth gael cymeradwyaeth asiantaethau allanol ar gyfer rhai agweddau o gynllun.

**6.3** Yr ail ddangosydd Darbodus yn y tabl uchod yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Ni chaniateir i angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca (GCC) godi am gyfnod amhenodol. Mae rheolaethau statudol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn cael eu codi yn fras yn erbyn refeniw yn ystod oes yr ased. Mae angen i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol, y cyfeirir ato fel y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP), er mwyn lleihau'r GCC. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, yw ad-daliad o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian parod ar gael ar gyfer ymrwymiadau cyfalaf. Gall dyledion allanol hefyd gael eu benthyca neu eu had-dalu ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y GCC. Gellir hefyd leihau cyfanswm y GCC drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- codi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) bob blwyddyn drwy'r Ddarpariaeth Refeniw Gwirfoddol (VRP).

Y GCC a ragwelwyd ar adeg paratoi'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2022/23 oedd £151.513m. Fodd bynnag, roedd y GCC gwirioneddol yn sylweddol is ar £144.111m. Y rheswm am y gostyngiad yng GCC y CRT yw tanwariant yn erbyn cyllideb y CRT, gan olygu na chymerwyd unrhyw fenthyciadau yn 2022/23 ar gyfer y CRT. Un rheswm bod y GCC nad yw'n ymwneud â'r CRT yn is oedd gostyngiad yn swm y Benthyca Digefnogaeth yr oedd ei angen mewn perthynas â'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn 2022/23. Cyllidwyd y gwariant gan grantiau yn bennaf, gan leihau'r angen i fenthyca. Rheswm arall oedd bod grantiau ychwanegol wedi'u dyfarnu yn ystod y flwyddyn i sybsideiddio ffynonellau cyllido eraill megis Benthyca â Chefnogaeth. Roedd hyn yn golygu bod angen llai o Fenthyca â Chefnogaeth, gan ostwng y ffigwr GCC. Serch hynny, yn y dyfodol, defnyddir y ffynhonnell gyllido hon wedi'i sybsideiddio i gyllido Gwariant Cyfalaf yn 2023/24 a bydd yn cynyddu'r GCC.

**6.4** Nid aethpwyd tu hwnt i'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig (£185m) na'r Terfyn Gweithredol (£180m) yn ystod y flwyddyn, gyda swm y ddyled Allanol yn cyrraedd uchafswm o ddim ond £125.273m.

**6.5** Roedd y costau Cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (2.78%), yn is na'r cyfanswm a ragwelwyd (4.40%) a hynny oherwydd bod costau cyllido yn is, a briodolir i'r newid yng nghyfrifiad MRP, gan arwain at dâl MRP is, a llog ychwanegol a gafwyd yn uwch na'r disgwyl na phan baratowyd y dangosydd darbodus ar gyfer 2022/23. Roedd y costau cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y CRT (7.18%) yn is na'r cyfanswm disgwyliedig (13.40%), oherwydd bod y costau cyllido'n sylweddol is na'r disgwyl ar adeg paratoi'r dangosydd arfaethedig ar gyfer 2022/23 (priodolir hyn i'r newid yng nghyfrifiad MRP, gan arwain at dâl MRP is, a llai o ofynion benthyca). Golygodd y tanwariant ar CRT fod swm y cyfraniadau Refeniw sydd eu hangen i gyllido'rr rhaglen gyfalaf yn 2022/23 wedi gostwng o £10.1m i £7.4m.

## 7. Edrych ymlaen at 2023/24 a thu draw i hynny

**7.1** Ar 9 Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24. Roedd y Datganiad ar y Strategaeth yn seiliedig ar y Strategaeth Gyfalaf, a rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthyca £26.1m yn ychwanegol yn 2023/24 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a'r CRT, cyfanswm o £30.7m yn 2024/25 a chyfanswm pellach o £21.4m yn 2025/26 i gyllido ei Raglen Gyfalaf, gan nodi y rhagwelir y bydd mwyafrif y benthyca hwn yn cyllido rhaglen gyfalaf y CRT. Bydd y benthyca ychwanegol yn effeithio ar yr MRP a godir i gyllido'r costau cyllido cyfalaf. Yn 2023/24, rhagwelir y bydd yr MRP yn £1.6m, £2.0m yn 2024/25 a £2.1m yn 2025/26.

**7.2** Ar 6 Ebrill 2023, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda Chymdeithas Adeiladu Nationwide gyda chyfradd llog o 4.17%. Aeddfedodd y buddsoddiad ar 6 Gorffennaf 2023, a chafodd ei ddwyn ymlaen am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 5.47%.

**7.3** Ar 25 Ebrill 2023, aeddfedodd buddsoddiad o £5m gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a chafodd ei ddwyn ymlaen am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 4.3%

**7.4** Ar 10 Mai 2023, aeddfedodd buddsoddiad o £7.5m gyda Santander a chafodd ei ddwyn ymlaen am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 4.76%.

**7.5** Ar 22 Mehefin 2023, aeddfedodd buddsoddiad o £7.5m gyda Goldman Sachs a chafodd ei ddwyn ymlaen am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 5.52%.

**7.6** Ar 11 Gorffennaf 2023, aeddfedodd buddsoddiad o £10m gyda NatWest a chafodd ei ddwyn ymlaen am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 5.88%.

**7.7** Hyd yma, ni fu unrhyw brif ad-daliadau o fenthyca PWLB gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae disgwyl i £1.854m gael ei ad-dalu yn ddiweddarach ym mlwyddyn ariannol 2023/24.

**7.8** Roedd y gyllideb ar gyfer llog o £1.424m a osodwyd ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar y cynnydd mewn cyfraddau llog, ac felly'n darparu mwy o gyfleoedd i fuddsoddi arian dros ben. Y llog a dderbyniwyd hyd at chwarter 1 2023/24 oedd £379k, a rhagwelir y gellir sicrhau'r llog o'r gyllideb yn 2023/24.

**7.9** Gellir gweld y gyfradd llog diweddaraf a ragwelir gan Link Group (ar 18 Gorffennaf 2023) yn y tabl isod:-

| Rhagolygon Cyfradd Llog | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Graddfa'r Banc | Medi 2023 | Rhagfyr 2023 | Mawrth 2024 | Mehefin 2024 | Medi 2024 | Rhagfyr 2024 | Mawrth 2025 | Mehefin 2025 |
| Link | 5.50% | 5.50% | 5.50% | 5.25% | 4.75% | 4.25% | 3.75% | 3.25% |

## 8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel / enillion isel a dull benthyca a gynlluniwyd i leihau taliadau llog gymaint â phosibl.

Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.

Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2022/23 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn;
**(ii)** Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2022/23 yn yr adroddiad hwn;
**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol ar gyfer 2022/23 a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith gydag unrhyw sylwadau.

**Papurau Cefndir:-**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23
Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys 2022/23
Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2022/23
Adroddiad Alldro Cyfalaf 2022/23

**R MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 21 Medi 2023 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod.<br><br>Mae hefyd yn cyflawni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022 i ystyried y trefniadau sydd ar waith i sicrhau sicrwydd digonol ar draws ystod lawn o weithrediadau'r corff a'i gydweithrediad ag endidau eraill, yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio fewnol yr awdurdod i oruchwylio ei annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a chydymffurfio â safonau proffesiynol; cefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer archwilio mewnol ac i hyrwyddo'r defnydd effeithiol o archwilio mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd. | |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 13 Medi 2023 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 31 Mawrth 2023, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

## Medi 2023





**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**




# Cynnwys


Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf ___ 1

Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Dilyn i Fyny am yr Ail Dro) ______ 2

Rheoli Trwyddedau Meddalwedd TG (Dilyn i Fyny am y Tro Cyntaf) ____ 2

Cardiau Tanwydd ______ 3

Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu (Risg Strategol YM5) _______ 3

Rheoli'r Risg o Dwyll Tenantiaeth Tai ______ 4

Adennill Dyledion Treth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a Mân Ddyledion ______ 4

Archwiliad Grant Adfywio Gogledd Môn ______ 5

Gwaith ar y Gweill ______ 5

Camau Gweithredu sy'n Weddill ______ 6

Blaenoriaethau ______ 6

Capasiti Presennol ______ 6

Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig ______ 6

Blaenoriaethau Tymor Hwy ______ 6




# Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Ebrill 2023, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.

2. Rydym wedi cwblhau **saith** darn o waith archwilio sicrwydd mewnol yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod a cheir trafodaeth fanylach arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|
| Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Dilyn i Fyny) | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli Trwyddedau Meddalwedd TG (Dilyn i Fyny) | **Rhesymol** | 0 | 0 | 1 |
| Cardiau Tanwydd | **Rhesymol** | 0 | 0 | 6 |
| Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu (Risg Strategol YM5) | **Rhesymol** | 0 | 0 | 5 |
| Rheoli'r Risg o Dwyll Tenantiaeth | **Rhesymol** | 0 | 1 | 4 |
| Adennill Dyledion Treth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a Mân Ddyledion | **Cyfyngedig** | 0 | 3 | 5 |
| Ymchwiliad Grant Adfywio Gogledd Môn | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

## Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Dilyn i Fyny am yr Ail Dro)

| | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Rhesymol | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

**A yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r materion/risgiau sy'n weddill a godwyd yn wreiddiol yn ein hadroddiad Sicrwydd Cyfyngedig ar Barhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) ym mis mai 2021?**

4. Daeth ein hadolygiad dilyn i fyny i'r casgliad fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cryfhau ei fesurau rheoli yn y maes hwn yn dilyn ein hadolygiad gwreiddiol.

5. Mae'r Tîm TG wedi gwneud nifer o welliannau technegol a gweithdrefnol sy'n helpu i liniaru'r risg o ymosodiad gwe-rwydo llwyddiannus a threfnwyd rhaglen barhaus o brofion gwe-rwydo i sicrhau fod staff yn parhau i fod yn ymwybodol o risgiau gwe-rwydo a risgiau seibr.

6. I grynhoi, mae canlyniadau ein hadolygiad yn parhau i fod yn gadarnhaol ac ni newidiwyd y radd sicrwydd 'rhesymol'. Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r holl risgiau a oedd yn weddill yn dilyn ei hadolygiad dilyn i fyny diwethaf ac felly mae'r cynllun gweithredu wedi'i gwblhau.

7. Fel y nodwyd yn flaenorol serch hynny, mae'n hanfodol fod y Cyngor yn parhau i hyrwyddo arferion seibr-ddiogel a sicrhau fod staff yn gallu adnabod unrhyw ymgais gwe-rwydo. Mae sawl achos yn ymwneud â chynghorau yn Lloegr sydd wedi cael eu heffeithio'n sylweddol gan ymosodiadau llwyddiannus wedi derbyn llawer o gyhoeddusrwydd ac mae'n amlygu difrifoldeb y risg yn y maes hwn.

## Rheoli Trwyddedau Meddalwedd TG (Dilyn i Fyny am y Tro Cyntaf)

| | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Rhesymol | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 1 | Cymedrol |

8. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

**A yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd yn wreiddiol yn ein hadroddiad Sicrwydd Cyfyngedig ar Reoli Trwyddedau Meddalwedd TG ym mis Ionawr 2022?**

9. Daeth ein hadolygiad dilyn i fyny i'r casgliad fod y Tîm TG wedi gwneud cynnydd da o ran cryfhau mesurau rheoli yn y maes hwn a'u bod wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion/risgiau a nodwyd yn ystod ein hadolygiad gwreiddiol a'r casgliad oedd bod canlyniadau ein hadolygiad yn gadarnhaol.

10. Mae'r Tîm TG wedi mynd i'r afael a naw o'r deg risg a nodwyd yn ystod ein hadolygiad gwreiddiol ac mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r un risg sy'n weddill.

11. Rydym yn fodlon fod trefniadau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau meddalwedd wedi gwella erbyn hyn ac felly gallwn gynyddu'r lefel sicrwydd i 'Rhesymol'.

12. Byddwn yn parhau i fonitro'r un weithred y cytunwyd arni sy'n weddill fel rhan o'n system fonitro fewnol i sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus a bod y risgiau cysylltiedig yn cael eu lliniaru.

## Cardiau Tanwydd

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 6 | Cymedrol |

13. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

    **A oes trefniadau effeithiol ar waith gan y Cyngor i reoli ei gardiau tanwydd, amddiffyn rhag y risg o dwyll a lladrata a sicrhau gwerth am arian yn y maes hwn?**

14. Cynhaliom yr adolygiad yn dilyn digwyddiad ym mis Ionawr 2023 pan ddefnyddiwyd cerdyn tanwydd un o gerbydau'r Cyngor, a oedd wedi'i ddat-gofrestru'n ddiweddar, yn dwyllodrus.

15. Yn gyffredinol, roedd ein hadolygiad yn nodi fod y Cyngor yn rheoli ei gardiau tanwydd yn effeithiol, ond serch hynny mae rhai cyfleoedd i gryfhau mesurau rheoli a gwella prosesau.

16. Nodwyd chwe 'Risg/Mater' gennym, ac maent yn cynnwys datblygu polisi tanwydd a pholisi cardiau tanwydd sy'n nodi cyfrifoldebau defnyddwyr cerbydau, tystiolaeth fod gweithwyr yn cydnabod, yn deall ac yn derbyn eu cyfrifoldebau o ran tanwydd a defnyddio cardiau tanwydd, proses gysoni i fesur effeithiolrwydd tanwydd, contractau sydd wedi dod i ben a diffyg profi'r farchnad.

17. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr er mwyn rhoi sylw i'r materion hyn erbyn mis Rhagfyr 2023 ac felly, o fewn sgôp ei hadolygiad, roeddem yn gallu darparu sicrwydd rhesymol ynghylch llywodraethiant, rheoli risg a mesurau rheoli yn y maes hwn.

## Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu (Risg Strategol YM5)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 5 | Cymedrol |

18. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

    **A oes mesurau llywodraethu a rheoli ar waith gan y Cyngor i reoli'r risg strategol yn gysylltiedig â gwireddu'r strategaeth moderneiddio cymunedau dysgu?**

19. Gan mai dim ond megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu, rydym wedi ein cyfyngu o ran lefel y sicrwydd y gallwn ei roi.

20. Serch hynny, daeth ein hadolygiad i'r casgliad fod cynnydd rhesymol yn cael ei wneud i sefydlu'r mesurau llywodraethu a rheoli angenrheidiol. Mae hyn yn golygu gwella'r trefniadau a roddwyd ar waith yn flaenorol ar gyfer y Rhaglen Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif (Band A a B). Roedd ein hadolygiad yn amlygu rhai meysydd i'w gwella ac mae swyddogion wedi ymateb i'n mewnbwn a'n cyngor.

21. Roeddem felly'n gallu darparu sicrwydd rhesymol ynglŷn â datblygiad a chymeradwyaeth y strategaeth, a fframwaith lywodraethu'r rhaglen, sef dau fesur rheoli allweddol i reoli'r risg strategol. Codwyd pump 'Mater/Risg' gennym mewn perthynas â hyfforddiant rheoli rhaglen a phrosiect, methodoleg ac arferion a chawsom sicrwydd fod rheolwyr yn bwriadu mynd i'r afael â'r holl 'Faterion/Risgiau' a godwyd erbyn mis Ebrill 2024.

## Rheoli'r Risg o Dwyll Tenantiaeth Tai

| | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Rhesymol | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 4 | Cymedrol |

22. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

**A oes trefniadau addas ar waith gan y Cyngor i reoli'r risg o dwyll tenantiaeth tai?**

23. Roedd canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan a daeth i'r casgliad fod trefniadau digonol ar waith gan y Gwasanaeth Tai i reoli'r risg o dwyll tenantiaeth, ac mae mesurau rheoli sylfaenol i atal a lliniaru'r risg o dwyll ar waith yn ei bolisïau a'i gontractau. Fodd bynnag, mae lle i wella rhai mesurau llywodraethu a rheoli cymedrol.

24. Codwyd pump 'Mater/Risg' gennym, sydd yn cynnwys cynnal archwiliadau tenantiaeth, codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a thenantiaid ynglŷn ag effeithiau ariannol a chymdeithasol twyll tenantiaeth, hyfforddiant a chanllawiau yn gysylltiedig â thwyll i hysbysu a chyfarwyddo swyddogion y Gwasanaeth Tai, polisi atal twyll tenantiaeth a chynnwys dangosydd unigryw yn y system dai i wella ansawdd yr ymarfer baru fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol.

25. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr ac felly, o fewn cwmpas ein hadolygiad, gallwn ddarparu sicrwydd ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a mesurau rheoli yn y maes hwn.

## Adennill Dyledion Treth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a Mân Ddyledion

| | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Cyfyngedig | 0 | Critigol |
| | 3 | Sylweddol |
| | 5 | Cymedrol |

26. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

**A oes gweithdrefnau cadarn ar waith gan y Cyngor i adennill dyledion treth gyngor, trethi annomestig cenedlaethol a mân ddyledion?**

27. Mae gan y Gwasanaeth Refeniw drefniadau adennill statudol sydd wedi gwreiddio'n dda ar gyfer adennill y Dreth Gyngor. Mae'r Gwasanaeth Refeniw yn defnyddio proses ffurfiol y llysoedd a'r sancsiynau cysylltiedig i fynd ar ôl dyledion y Dreth Gyngor, er bod yr opsiynau sydd ar gael i'r Tîm Adennill yn gyfyngedig ac felly nid oes fawr o obaith o adennill y dyledion hyn, gan arwain at falensau segur. Yn ogystal, nid yw'r Cyngor wedi cychwyn achosion cyfreithiol i adennill Trethi Annomestig sydd heb eu talu ers Rhagfyr 2021, gan arwain at gynnydd sylweddol yn y dyledion. O ran mân ddyledion, mae diffyg trefniadau effeithiol i adolygu, adennill, gorfodi a dileu dyledion hŷn, mwy cymhleth.

28. Nid oeddem ond yn gallu darparu sicrwydd cyfyngedig a chodwyd wyth 'Mater/Risg'. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr ac rydym wedi derbyn sicrwydd fod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r holl 'Faterion/Risgiau' erbyn mis Ionawr 2024.

*29. Yn unol â'n protocol ar gyfer archwiliadau sicrwydd cyfyngedig, mae aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn copi, ar wahân, o'r adroddiad llawn a'r cynllun gweithredu.*

## Archwiliad Grant Adfywio Gogledd Môn

30. Yn dilyn atgyfeiriad gan aelod o'r cyhoedd, gofynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i Archwilio Mewnol ymchwilio i honiad nad oedd derbynnydd grant yn gymwys i dderbyn grant Adfywio Gogledd Môn.

31. Felly, ceisiodd ein hymchwiliad ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

    **A fodlonwyd y meini prawf cymhwyso a gofynion cymhwysedd wrth ddyfarnu Grant Adfywio Gogledd Môn gwerth £7,500?**

32. Mae Grant Adfywio Gogledd Môn yn rhan o gais llwyddiannus Cyngor Sir Ynys Môn i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) am gyllid i adfywio Gogledd Môn. Y Cyngor oedd yn gyfrifol am osod y meini prawf ac am benderfynu'n derfynol i bwy ddylid dyfarnu'r grantiau, ond yr NDA oedd yn ariannu'r grant.

33. Cadarnhaodd ein hymchwiliad fod yr ymgeisydd wedi dilyn y weithdrefn ar gyfer ymgeisio am y grant yn gywir ac roedd wedi cyflwyno'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt gan y Cyngor. Roedd yr holl ddogfennau a thystiolaeth ynghylch prynu'r ased yn bodloni gofynion y grant. Roedd popeth wedi'i gyflwyno a'i gyflawni yn y drefn gywir ac o fewn yr amserlenni a bennwyd.

34. Cyfarfu panel o swyddogion y Cyngor i drafod y ceisiadau a phenderfynu a oedd amcanion allweddol y cynllun grant wedi cael eu bodloni. Daeth y panel i'r casgliad fod prif amcanion y cynllun wedi'u cyflawni a phroseswyd y cais yn unol â'r casgliad hwn.

# Gwaith ar y Gweill

35. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes | Rheswm am yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|
| Datgan Diddordebau | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Gwaith Maes |
| Menter Twyll Genedlaethol | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-25 | Gwaith Maes |
| Diogelu (YM10) | Sicrwydd y Gofrestr Risgiau Strategol | Gwaith Maes |
| Gwytnwch Sefydliadol (YM7) | Sicrwydd y Gofrestr Risgiau Strategol | Gwaith Maes |
| Pensiynau Athrawon | Dilyn i Fyny am y Tro Cyntaf | Gwaith Maes (disgwyl am wybodaeth) |
| Cyflogres (Proses Gweithwyr Newydd) | Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24 | Gwaith Maes |
| Gweinyddu Pensiynau Llywodraeth Leol | Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24 | Gwaith Maes |
| Rheoli Debyd Uniongyrchol | Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24 | Gwaith Maes |
| Torri Glaswellt | Ar gais y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Gwaith Maes |
| Ymchwiliad | Cwyn i'r Cynghorydd Llinos Medi | Gwaith Maes |
| Ymchwiliad | Honiad o dwyll mewnol | Gwaith Maes |
| Proses ar gyfer Incwm Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol | Cais gan y Prif Weithredwr | Pennu Sgôp |

# Camau Gweithredu sy'n Weddill

36. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.

37. Bydd adroddiad manwl ar yr holl gamau gweithredu sy'n weddill yn cael ei gyflwyno ar wahân i'r cyfarfod hwn.



# Blaenoriaethau

## Capasiti Presennol

38. Yn dilyn ymarfer recriwtio llwyddiannus yn ddiweddar, dim ond un swydd wag, ar lefel Uwch Archwilydd, sydd gennym ar hyn o bryd a hynny oherwydd secondiad tymor hir. Ymunodd ein Uwch Archwilydd newydd â'r tîm ar 1 Ebrill 2023 ac mae'n setlo'n dda.

39. Rydym yn parhau i ddefnyddio arbedion cyllidebol i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol.

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

40. Mae gwaith yn gysylltiedig â'n Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2023-24 a'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-25 yn datblygu'n dda.

41. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda CIPFA ac aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnal asesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor, gan ddefnyddio'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan CIPFA fel meincnod. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2023.

42. Rydym hefyd yn gweithio gyda Zurich Risk Engineering UK i gynnal asesiad annibynnol o fframwaith Rheoli Risg y Cyngor, a bydd yn amlygu meysydd o gryfder ac yn argymell meysydd i'w datblygu ymhellach. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2024.

## Blaenoriaethau Tymor Hwy

43. Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Perfformiad i wella gwaith mapio sicrwydd ar draws y Cyngor a chyfrannu at ddatblygiad y Grŵp Adolygu Llywodraethiant a Pherfformiad.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| **Dyddiad** | 21 Medi 2023 | |
| **Pwnc** | 'Materion/Risgiau' sydd angen sylw | |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Adnoddau / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru | |
| **Awduron yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru | Nanette Williams<br>Prif Archwilydd<br>NanetteWilliams@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm am Adrodd**<br><br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhoi'r cyfrifoldeb iddo fonitro'r gwaith o weithredu gweithredoedd y cytunwyd arnynt. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar statws a manylion y risgiau sydd angen sylw a godwyd gan Archwilio Mewnol. | | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae Archwilio Mewnol, ar ran y Cygnor, yn monitro materion a risgiau a nodwyd yn ystod gwaith archwilio trwy ei system dracio, 4 action.

1.2. Mae dangosfwrdd yn rhoi cipolwg amser real o berfformiad cyfredol wrth fynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei thracio a'i hadrodd yn effeithiol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu'r dangosfwrdd hwn yn rheolaidd gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'i hadroddiadau diweddaru archwilio mewnol.

1.3. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn am adroddiad manwl, ar wahân, sydd yn manylu ar berfformiad cyffredinol wrth fynd i'r afael â gweithredoedd archwilio, a hynny ddwywaith y flwyddyn. Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2021, ystyriodd a phenderfynodd y Pwyllgor blaenorol ar lefel y manylion i'w cynnwys yn yr adroddiad er mwyn diwallu ei anghenion sicrwydd yn y maes hwn.

## 2. ARGYMHELLION

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- nodi cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r 'Materion/Risgiau' Archwilio Mewnol sydd angen sylw.

# Materion a Risgiau sy'n Parhau i fod angen Sylw

**Medi 2023**





**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Nanette Williams MSc CMIIA CIA**



# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Perfformiad Cyfredol 2

Graff 1 – Cyfanswm y Camau sy'n Parhau i fod angen Sylw 2

Graff 2 – Camau Gorddyledus 2

Graff 3 – Cyfanswm y Materion/Risgiau yn ôl Statws 3

Graff 4 – Cyfanswm y Materion/Risgiau yn ôl Statws (dyledus) 4

Graff 5 – Yr holl Faterion/Risgiau sy'n Parhau i fod angen sylw fesul blwyddyn 4

Atodiad 1: Statws Manwl Materion/Risgiau 'Sylweddol' sy'n Parhau i fod angen Sylw 6




# Cyflwyniad

1. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gosod cyfrifoldeb arno i fonitro'r gwaith o weithredu'r camau y cytunwyd arnynt o ganlyniad i waith Archwiliad Mewnol. Er mwyn rhyddhau'r ddyletswydd hon, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad manwl yn dangos perfformiad y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r camau sy'n parhau i fod angen sylw ddwywaith y flwyddyn, yn ei gyfarfodydd ym mis Ebrill a Medi.

2. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, nid yw Archwiliadau Mewnol bellach yn gwneud argymhellion wrth adrodd 'Materion' a 'Risgiau'. Er mwyn annog rheolwyr i fod yn atebol am y risgiau hyn, mae'n gyfrifoldeb arnynt i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion /risgiau sydd wedi'u hadnabod, ac rydym yn monitro sut yr ymdriniwyd â'r risgiau hyn.

3. Mae adroddiadau sydd wedi derbyn sicrwydd 'cyfyngedig', neu 'dim' sicrwydd yn destun adolygiad dilynol ffurfiol gan Archwiliad Mewnol, a rhaid paratoi adroddiad archwilio a darparu sgôr sicrwydd. Rydym yn monitro'r holl 'faterion' a 'risgiau' eraill gan ddefnyddio system olrhain camau corfforaethol y Cyngor (4action).

4. Rydym wedi datblygu a mireinio dangosfwrdd i ddefnyddwyr ar 4action, sy'n dangos darlun gwirioneddol o berfformiad cyfredol o ran mynd i'r afael â chamau sy'n parhau i fod angen sylw, ac yn hwyluso'r gwaith o olrhain ac adrodd y wybodaeth hon.

5. Rydym yn monitro camau gorddyledus yn barhaus er mwyn cael diweddariadau gan reolwyr ynghylch y cynnydd o ran mynd i'r afael â nhw yn brydlon.

# Perfformiad Cyfredol


6. Mae'r pum graff canlynol yn dangos y camau sy'n parhau i fod angen sylw ar draws y Cyngor o 31 Awst 2023.

7. Ar 31 Awst 2023, roeddem yn olrhain 47 cam sy'n parhau i fod angen sylw. Roedd chwech o'r rhain yn 'sylweddol' (ambr) a 41 yn 'gymedrol' (melyn) o ran blaenoriaeth risg, fel y gwelir yn Graff 1 isod.

8. Gweler hefyd ddiweddariad manwl o'r chwe mater/risg 'sylweddol' sy'n parhau i fod angen sylw yn Atodiad 1.


9. Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion/risgiau 'coch' neu 'critigol' yn ystod y flwyddyn, ac nid oes 'materion/risgiau' coch neu 'gritigol' yn parhau i fod angen  sylw ar hyn o bryd.

## Graff 1 – Cyfanswm y Camau sy'n Parhau i fod angen Sylw




10. Rydym yn parhau i fonitro'r holl gamau a'u holrhain gyda rheolwyr pan mae angen eu cwblhau, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â nhw. Ar hyn o bryd, mae  pum cam yr oedd rheolwyr yn fod i'w gweithredu erbyn y dyddiad cwblhau, ac maent bellach yn 'orddyledus, fel y gwelir yn Graff 2.

## Graff 2 – Camau Gorddyledus





11. Mae pedwar o'r rhain; dau wedi'u sgorio'n risg blaenoriaeth 'sylweddol' a dau'n 'gymedrol', yn berthnasol i archwiliad ar Bensiynau Athrawon. Rydym yn y broses o ailedrych ar y camau hyn fel rhan o archwiliad dilynol ffurfiol yn yr ardal hon.  Dechreuwyd y gwaith hwn ym mis Mai 2023, ond yn sgil blaenoriaethau eraill, nid yw'r adran cyflogres wedi gallu darparu peth o'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr archwiliad. Rydym yn ceisio cyflwyno canlyniad yr archwiliad dilynol hwn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2023.

12. Mae'r cam arall wedi'i sgorio'n 'gymedrol' o ran blaenoriaeth risg, ac mae'n berthnasol i archwiliad o 'Gynnal a Chadw Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg' ac adfer nifer fechan o daliadau dyblyg i gredydwyr sydd wedi'u hadnabod yn ystod yr archwiliad gwreiddiol. Fe'm cynghorwyf fod y Cyfrifydd dan Hyfforddiant wedi cwblhau gwaith i archwilio a chadarnhau fod y taliadau hyn yn ddyblygiadau go iawn, a bydd nawr yn cymryd camau adferol. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd gyda'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.

13. Mae Graffiau 3 a 4 isod yn dangos statws yr holl gamau, h.y. y rhai 'heb eu dechrau'; 'ar waith' neu 'wedi cau' os yr ymdriniwyd â'r cam hwnnw.

14. Mae Archwiliad Mewnol yn dilysu'r holl gamau sydd 'wedi cau' er mwyn sicrhau ein bod ni'n fodlon fod y cam y mae'r rheolwyr wedi'i gymryd wedi mynd i'r afael â'r risg a gafodd ei adnabod yn wreiddiol.

## Graff 3 – Cyfanswm y Materion/Risgiau yn ôl Statws





15. Mae Graff 3 yn dangos statws yr holl gamau sy'n parhau i fod angen sylw (waeth beth yw'r dyddiad y cytunodd reolwyr i'w gweithredu). Mae'n dangos fod rheolwyr bellach wedi ymdrin â 77%, ac mae Archwiliad Mewnol wedi dilysu 75%. Mae'r 2% sy'n weddill yn ymwneud ag archwiliad o 'Galw Gofal', fydd yn cael ei olrhain yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2023. Byddwn yn dilysu bod rheolwyr wedi llwyddo i weithredu'r camau hyn yn ystod y gwaith hwn.

16. Mae'r camau 'heb eu dechrau' yn ymwneud â sawl archwiliad lle nad yw'r camau sydd wedi cael eu hadnabod wedi cyrraedd eu dyddiadau cwblhau disgwyliedig hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys 'Taliadau Uniongyrchol', 'Gwytnwch Ariannol', 'y Dreth Gyngor ac Ad-daliadau NNDR, 'Galw Gofal', 'Diogelwch Nwy' a 'Thlodi'. Pan fydd y

dyddiadau hyn yn nesáu, byddwn yn ceisio diweddariadau gan reolwyr er mwyn sicrhau cynnydd.


## Graff 4 – Cyfanswm y Materion/Risgiau yn ôl Statws (dyledus)




17. I'r gwrthwyneb, mae Graff 4 yn dangos statws yr holl gamau sydd wedi bodloni eu dyddiad targed. Mae'n dangos yr ymdriniwyd â 97% o'r camau a oedd yn ddyledus. Mae Archwiliad Mewnol wedi dilysu'r rhan fwyaf o'r rhain, ond fel y nodwyd uchod, mae'r rheiny sydd angen eu dilysu'n ymwneud ag archwiliad o 'Galw Gofal', fydd yn cael ei olrhain yn ffurfiol yn fuan. Mae'r camau a ymddengys yma fel camau 'ar waith' yn orddyledus erbyn hyn, fel y nodir ym mharagraff 10 ac 11 uchod.

18. O bryd i'w gilydd, byddwn yn ymestyn dyddiadau cwblhau ar gyfer rhai camau, dim ond os yw'r gwasanaeth yn gallu darparu rheswm dilys ar gyfer hynny e.e. mae'n amlwg nad yw'r dyddiad gwreiddiol yn gyraeddadwy, gan fod angen gwneud rhagor o waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater/risg.

## Graff 5 – Yr holl Faterion/Risgiau sy'n Parhau i fod angen sylw fesul blwyddyn




19. Fel y nodir uchod, mae 47 o gamau sy'n parhau i fod angen sylw dal angen eu cwblhau'n llawn.

20. Mae'r rhain wedi'u gwasgaru rhwng blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2023/24. Er bod graff 5 yn dangos bod y mwyafrif yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, mae tri phrif fater/risg yn dyddio'n ôl i 2018/19 a 2019/20 y mae rheolwyr dal angen ymdrin â nhw'n gyflawn.

21. Mae'r rhain yn ymwneud â gwella gosodiadau cymhlethdod cyfrineiriau ar gyfer system archebu hamdden allanol y Cyngor, cwblhau trefniadau mapio sicrwydd y Cyngor a hyrwyddo Polisi Atal Twyll a Llygredigaeth y Cyngor.

22. Mae pob un wedi'u sgorio'n 'gymedrol' neu'n 'felyn' o ran risg blaenoriaeth, a chawsom sicrwydd gan reolwyr:

   - Y bydd y system Hwb Hamdden newydd yn fyw erbyn diwedd mis Medi 2023, ac y bydd yn ymgorffori gosodiadau cymhlethdod cyfrinair gwell.
   - Mae'r Cyngor yn y broses o ddiweddaru ei system Rheoli Risg, 4action. Unwaith y bydd y diweddariad wedi'i gwblhau, bydd gwaith yn parhau i lenwi'r map sicrwydd. Bydd y Rheolwr Risg ac Yswiriant yn gweithio gyda'r Rheolwr Busnes Gwasanaeth a'r tîm Perfformio er mwyn llenwi sicrwydd ar y llinell gyntaf a'r ail linell.
   - Bydd hyrwyddo Polisi Atal Twyll a Llygredigaeth y Cyngor yn ffurfio rhan o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y Cyngor ar gyfer 2023-26. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cynnal trafodaethau gyda hyfforddwr er mwy darparu sesiynau ymwybyddiaeth o dwyll ar gyfer staff perthnasol yn ystod Hydref 2023.

23. Dylid nodi nad oes unrhyw faterion/risgiau 'sylweddol' yn dyddio'n ôl ymhellach na 2021/22, fel y gwelir uchod. Mae hyn yn dangos fod rheolwyr yn blaenoriaethu mynd i'r afael â blaenoriaethau uwch.

24. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n mynd i'r afael â'u materion/risgiau'n brydlon a llwyddiannus, os na fydd mater/risg 'sylweddol' wedi'i ddatrys cyn pen 12 mis o'r dyddiad cwblhau gwreiddiol, gofynnir i berchnogion y camau fynychu Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch y rhesymau dros yr oedi mewn mynd i'r afael â'r mater/risg.

25. Ar hyn o bryd, nid yw hyn yn  berthnasol i unrhyw faterion/risgiau 'sylweddol'.

26. Gweler diweddariad manwl ar statws y chwe mater/risg 'sylweddol' sy'n cael eu holrhain ar hyn o bryd yn Atodiad 1.

27. Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r holl gamau sy'n parhau i fod angen sylw er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau.

# Atodiad 1: Statws Manwl Materion/Risgiau 'Sylweddol' sy'n Parhau i fod angen Sylw

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn yr Archwiliad | Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Sgôr Sicrwydd yr Adroddiad* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | 2021/22 | Ionawr 2022 | 30/09/23 | **Rhesymol** | Gall staff ddefnyddio rhaglenni Microsoft Office 365 y Cyngor, gan gynnwys Teams a SharePoint, felly gall y Cyngor ddal data personol a sensitif posibl gan ddefnyddio dyfeisiau symudol personol heb eu hamgryptio. | **75% o'r cam wedi'i gwblhau.** Mae mynd i'r afael â'r mater/risg hwn yn ddibynnol ar gyflwyno'r gosodiad rheoli dyfeisiau Intune Microsoft. Oni bai am ddefnyddwyr gydag apiau nad ydynt yn gydweddol, mae'r rhan fwyaf o staff wedi symud i MS Intune. Mae llond llaw o staff wedi methu ag ymgysylltu gyda TG ac o ganlyniad mae'r tîm TG wedi atal eu mynediad at VASCO. Golyga hyn na allant weithio o bell hyd nes eu bod ar system MS Intune. Mae'r tîm TG yn ceisio mynd i'r afael â'r materion cydweddu sy'n bodoli rhwng Intune a rhai systemau'r Cyngor e.e. Orchard Housing. Disgwylir y bydd y broses hon wedi'i chwblhau'n llawn erbyn Medi 2023. |

Tudalen 182

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn yr Archwiliad | Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Sgôr Sicrwydd yr Adroddiad* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Recriwtio a Chadw Staff** | 2021/22 | Mehefin 2022 | 31/12/23 | **Rhesymol** | Prin iawn yw'r adroddiadau rheolaidd a ffurfiol i'r Tîm Arweinyddiaeth ar ddadansoddi data recriwtio er mwyn sicrhau bod y tîm yn ymwybodol o'r pwysau a'r tueddiadau sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn benodol o bwysig ar hyn o bryd o ystyried materion cenedlaethol lle mae recriwtio staff yn cael effaith ar bob sector. | **50% o'r cam wedi'i gwblhau.**<br>Mae'r Cyngor wedi caffael system recriwtio newydd. Bydd y system newydd yn cynnwys dadansoddi data'n well a swyddogaeth er mwyn adrodd, a ellir ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth.<br><br>Mae'r gwasanaeth trawsnewid wedi recriwtio swyddog prosiect yn ddiweddar fydd yn dechrau'r swydd fis Medi. Bydd yn gyfrifol am weithredu'r system newydd. Ystyrir ei bod dal yn bosibl cwblhau'r gwaith erbyn Rhagfyr 2023. |
| **Pensiwn Athrawon** | 2021/22 | Mehefin 2022 | 01/05/23 | **Cyfyngedig** | Mae'r gwaith profi wedi amlygu nad oedd adroddiadau o'r system cyflogres yn echdynnu data'n gyson a bod rhai cofnodion wedi'u colli. Yn ychwanegol, nid yw'r adroddiadau'n cael eu cysoni cyn eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Pensiynau Athrawon. Felly, ni allwn ddarparu sicrwydd fod y wybodaeth sy'n cael ei hechdynnu a'i huwchlwytho i'r Gwasanaeth Pensiynau Athrawon yn gyflawn a chywir. | Ar hyn o bryd, rydym yn cwblhau adolygiad dilynol ffurfiol er mwyn pennu cynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol. Bydd adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2023. |
| **Pensiwn Athrawon** | 2021/22 | Mehefin 2022 | 01/05/23 | **Cyfyngedig** | Ni ddarparodd y Rheolwr Cyflogres a Thaliadau dystiolaeth fod adroddiadau am gwallau'n cael eu harchwilio neu eu cywiro. | Fel yr uchod. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn yr Archwiliad | Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Sgôr Sicrwydd yr Adroddiad* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Bregusrwydd TG** | 2022/23 | Awst 2022 | 30/09/23 | **Rhesymol** | Nid oes sicrwydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch paru pan mae dyfeisiau'n cysylltu drwy Citrix o bell, o gymharu â chysylltu'n uniongyrchol drwy Microsoft Endpoint/Azure, ac ar y safle. | **75% o'r cam wedi'i gwblhau.** Mae mynd i'r afael â'r mater/risg hwn yn dibynnu ar gyflwyno'r gosodiad rheoli dyfeisiau Intune Microsoft. Fel y nodir uchod, mae cynnydd gyda'r gwaith hwn wedi datblygu'n sylweddol yn ddiweddar, a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2023. |
| **Galw Gofal** | 2022/23 | Ionawr 2023 | 30/09/23 | **Cyfyngedig** | Nid yw trefniadau diogelu yn ddigon llym er mwyn i Gyngor Sir Ynys Môn fodloni ei rwymedigaethau fel un o reolwyr data Galw Gofal. | **75% o'r cam wedi'i gwblhau.** Mae Galw Gofal wedi datblygu a diweddaru eu fframwaith dogfen diogelu data. Er mwyn cwblhau'r gwaith hwn, ceisiwyd cyngor cyfreithiol am eu statws diogelu data ar gyfer pob gweithgaredd e.e. rheolydd neu brosesydd data. Ar ôl cadarnhau hyn, bydd y fframwaith Diogelu Data yn cael ei gwblhau. |

*Sgôr sicrwydd presennol – un ai ar adeg yr archwiliad gwreiddiol neu ar ôl yr adolygiad dilynol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 21 Medi 2023 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2023-24 f2 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2023-24 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Blaenraglen Waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen hyfforddiant yn Atodiad B.

1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.3 Gwnaed gwelliannau i'r dyddiadau y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i gyfarfodydd Medi 2023, Rhagfyr 2023, Chwefror 2024 ac Ebrill 2024 i ystyried gwaith y Pwyllgor ar adolygu ei effeithiolrwydd.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2023-24 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl, a
- nodi'r newidiadau i'r dyddiadau y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno.

# Atodiad A – Blaenraglen Waith 2023-24

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | Tachwedd 2023[1] | 08 Rhagfyr 2023 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2022-23 (3.4.8.3.1) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 f2 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 (3.4.8.3.2)<br><br>~~Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2)~~ | | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 (3.4.8.3.2)<br><br>**Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2)** | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 (3.4.8.3.2)<br><br>Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | ~~Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3)~~<br><br>~~Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio 2022-23 (3.4.8.4.4)~~ | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2022-23 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2024-25) (3.4.8.5.3/4) | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2022-23 (3.4.8.7.1/2) | | ~~Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2022-23 (3.4.8.7.1/2)~~ | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion 2022-23 (3.4.8.7.1/2) | **Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2022-23 (3.4.8.7.1/2)** | |

[1] Dyddiad terfynol i'w gadarnhau

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | Tachwedd 2023[1] | 08 Rhagfyr 2023 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Diweddariad Newid Hinsawdd (3.4.8.7.1/2) | | ~~Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2022-23 (3.4.8.7.1/2)~~<br><br>~~Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2022-23 (3.4.8.7.1/2)~~ | | **Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2022-23 (3.4.8.7.1/2)**<br><br>**Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2022-23 (3.4.8.7.1/2)** | | |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | ~~Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~ | | **Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)** | ~~Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~<br><br>**Gwiriad Iechyd Rheoli Risg (Zurich Municipal Risk Engineering) (3.4.8.8.1)** | Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)<br><br>**Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)** |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | ~~Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-23 (3.4.8.9.4)~~<br><br>*Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban* | | ~~Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-26 (3.4.8.9.2/3)~~<br><br>**Adroddiad Blynyddol Atal Twyll,** | **Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-26 (3.4.8.9.2/3)** | |

Tudalen 188

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | Tachwedd 2023[1] | 08 Rhagfyr 2023 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Blynyddol 2022-23 (3.4.8.9.1)* | | **Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-23 (3.4.8.9.4)** | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-23 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6)<br><br>Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (3.4.8.10.1/2/9/12/14) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/ Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6)<br><br>~~Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)~~ | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10 /11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2024-25 (3.4.8.10.1/2/5/6)<br><br>**Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)** |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch4) (3.4.8.11.3)<br><br>Cynllun Archwilio Blynyddol Amlinellol 2023 (3.4.8.11.1/3) | Cynllun Archwilio Blynyddol Manwl 2023 (3.4.8.11.1/3) | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 (3.4.8.11.3) | |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft | | Datganiad Cyfrifon Terfynol | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | Tachwedd 2023[1] | 08 Rhagfyr 2023 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2022-23 (3.4.8.12.1/2) | | 2022-23 (3.4.8.12.1/2) | | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | | | Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.13.1) | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2022-23 (3.4.8.14.1/2) Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022-23 (3.4.8.14.1/2) | | | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3) | | | | | | |
| Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16)[2] | | | | | | | |

[2] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

# Atodiad B – Rhaglen Hyfforddiant

## Hyfforddiant benodol i'r pwyllgor

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr | Rhithiol | CIPFA | 22 Mehefin 2023<br><br>24 Awst 2023 | Dilwyn Evans<br>Michael Wilson<br>Cyng Geraint Bebb |
| Rheoli Trysorlys | Rhithiol | Richard Bason, Cynghorydd Rheoli'r Trysorlys, Link Group | 15 Medi 2023 | |
| Rheoli Risg | Hybrid | Julie Jones, Rheolwr Risg ac Yswiriant | Hydref 2023 | |
| Atal Twyll a Llygredd | Hybrid | I'w gadarnhau | Hydref 2023 | |



## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Wedi ei Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |